

## Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd Fay Buckle  
Dyddiad: Dydd Llun, 26 Medi 2016 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 13.45 0300 200 6565  
[SeneddArchwilo@cynulliad.cymru](mailto:SeneddArchwilo@cynulliad.cymru)

**(13.45 – 14.00 Rhag-gyfarfod preifat)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(14.00)

**2 Papur(au) i'w nodi**

(14.00 – 14.05)

(Tudalennau 1 – 5)

**3 Craffu ar Gyfrifon 2015–16: Gyrfa Cymru**

(14.05– 14.50)

(Tudalennau 6 – 101)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)–04–16 Papur 1

PAC(5)–04–16 Papur 1A

Richard Spear – Prif Weithredwr, Gyrfa Cymru

Nikki Lawrence – Rheolwr Adnoddau, Gyrfa Cymru

**4 Craffu ar Gyfrifon 2015–16: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**

**(CCAUC)**

(14.55–15.45)

(Tudalennau 102 – 183)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)–04–16 Papur 2

Dr David Blaney – Prif Weithredwr, CCAUC



Bethan Owen – Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol, CCAUC  
Nick Williams – Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, CCAUC

**(15.45–15.55 Egwyl)**

**5 Craffu ar Gyfrifon 2015–16: Estyn**

(15.55–16.45)

(Tudalennau 184 – 267)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil  
PAC(5)–04–16 Papur 3

Meilyr Rowlands – Prif Arolygydd, Estyn  
Phil Sweeney – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Estyn

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y  
cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:**

(16.45)

Eitem 7

**7 Craffu ar Gyfrifon 2015–16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law**

(16.45–17.00)

## t. Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3711>

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Medi 2016

Amser: 14.00 – 16.37

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AC Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Rhianon Passmore AC Lee Waters AC
Tystion:	Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc Suzy Davies AC, Comisiynydd Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid
Swyddfa Archwilio Cymru:	Anthony Barrett, Bartner Rheoli Matthew Mortlock Dave Thomas Mike Usher Emma Woodcock
Staff y Pwyllgor:	Fay Buckle (Clerc) Meriel Singleton (Ail Clerc)



	Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
--	---

## Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad](#) o'r cyfarfod (PDF 196KB) Gweld fel [HTML](#) (195KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd Anthony Barrett (yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol) yn bresennol ar ei ran.

## 2 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad

- 2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor blaenorol ar Lywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru.
- 2.2 Nododd y Pwyllgor sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru bod ymatebion Llywodraeth Cymru, yn ei farn ef, yn rhesymol ac yn rhoi sicrwydd bod camau naill ai'n mynd rhagddynt mewn meysydd lle y mynegwyd pryderon, neu fod camau wedi'u cynllunio ar gyfer y meysydd hynny.
- 2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o'r ymatebion i adroddiad y Pwyllgor blaenorol.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

- 3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## **4 Papur(au) i'w nodi**

### **4.1 Cylchffordd Cymru**

4.1 Aeth yr Aelodau ati i drafod a nodi'r ohebiaeth a chytuno i edrych eto ar y mater hwn ar ôl i ganfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ddod i law.

## **5 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

5.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

5.2 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.

## **6 Y Fenter Dwyll Genedlaethol: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

6.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Fenter Dwyll Genedlaethol.

## **7 Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

7.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Lywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd.

## **8 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

8.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai a'r ohebiaeth gysylltiedig.

## **9 Y rhaglen waith: Trafod Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ymchwiliadau a arweinir gan y Pwyllgor**

9.1 Trafododd yr Aelodau'r deunydd briffio a gafwyd yn sgil adroddiadau diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghyd â'r papur cwmpasu ar ymchwiliadau posibl y gallai'r Pwyllgor eu harwain.

9.2 Cytunodd yr Aelodau ar y canlynol:

- Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: ailystyried a ddylid cynnal ymchwiliad ar ôl cael ymateb gan Lywodraeth Cymru;
- Y Fenter Dwyll Genedlaethol: nodwyd yr adroddiad a chytunwyd arno. Nid oes unrhyw gamau pellach ar gyfer y Pwyllgor;
- Kancoat: cytunwyd i gynnal un sesiwn dystiolaeth â Llywodraeth Cymru;
- Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai: teimlai'r Pwyllgor fod y cynnydd yn araf mewn nifer o feysydd, a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr.

9.3 Ar ôl trafod yr ymchwiliadau posibl y gallai'r Pwyllgor eu harwain, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliadau i blant sy'n derbyn gofal a chymdeithasau tai.

## **10 Craffu ar Gyfrifon 2015–16: Comisiwn y Cynulliad**

10.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2015–16, gan holi Suzy Davies AC, Comisiynydd y Cynulliad, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 11 Craffu ar Gyfrifon 2015–16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

11.1 Trafododd Aelodau y dystiolaeth a gafwyd o ran craffu ar adroddiad blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2015–16.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



**Career Choices** Dewis Gyrfa  
**Gyrfa Cymru**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**  
**2015-2016**

# Cynnwys

Neges gan y Prif Weithredwr.....	3
01/Cyflwyniad.....	4
1.1 Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd.....	4
1.2 Ein Gwasanaethau.....	5
1.3 Dangosyddion Perfformiad Allweddol.....	8
02/Darparu Gwasanaethau ym maes Addysg.....	18
2.1 Cefnogaeth i bobl ifanc oed 11-18 oed:.....	18
2.1.1 Pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau.....	18
2.1.2 Pobl ifanc â datganiad AAA neu ddatganiad cyfatebol.....	21
2.1.3 Pobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol.....	23
2.2 Hwyluso cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac addysg.....	24
2.3 Meithrin gallu mewn ysgolion a cholegau.....	29
2.3.1 Marc Gyrfa Cymru.....	29
2.3.2 Adnoddau a Hyfforddiant.....	29
2.3.3 Ymwybyddiaeth o'r Prosbectws Ardal Gyffredin (PAG).....	33
03/Darparu Gwasanaethau Digidol.....	34
3.1 Y wefan - <a href="http://www.gyrfacymru.com">www.gyrfacymru.com</a> .....	34
3.2 Sgwrs Ar-lein.....	36
3.3 Cyswllt Gyrfa Cymru - Llinell Gymorth dros y Ffôn.....	36
3.4 Cyfryngau Cymdeithasol.....	37
3.5 E-bost.....	40
04/Darparu Gwasanaethau yn y Farchnad Lafur.....	41
4.1 Cefnogaeth i gleientiaid yn y farchnad lafur.....	41
4.2 Pobl ifanc sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Ieuencid.....	45
4.3 Oedolion di-waith sy'n manteisio ar raglen Porth Sgiliau Unigol Llywodraeth Cymru.....	46
4.4 Oedolion sydd mewn perygl o gollu eu swydd neu rai sy'n wynebu diweithdra.....	47

05/Darparu Gwasanaethau mewn Partneriaeth.....	50
06/Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	60
07/Cefnogi ein staff.....	63
08/Y Gymraeg.....	66
09/Cynaliadwyedd Amgylcheddol.....	67
10/Datganiadau Ariannol.....	69
11/Edrych i'r Dyfodol.....	70
Rhestr Termiau.....	71
Atodiad 1.....	74

# Neges gan y Prif Weithredwr

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno trydydd adroddiad blynyddol Career Choices Dewis Gyrfa Cyf (CCDG). Rydym yn is-gwmni ym mherchnogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru, yn masnachu fel Gyrfa Cymru, a ni sy'n darparu'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaedd annibynnol, diduedd a dwyieithog i bob oedran yng Nghymru.

Yn Gyrfa Cymru rydym yn teimlo'n angerddol ynglŷn â helpu cleientiaid i gyflawni eu potensial – dyma'r hyn a wnawn ac rydym yn gwneud hynny'n llwyddiannus. Rydym yn ysbrydoli, yn galluogi ac yn ysgogi cleientiaid ac yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau rheoli gyrfa sydd eu hangen arnynt i gystadlu am swyddi, rheoli eu gyrfa a gwneud penderfyniadau mewn byd cymhleth.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn tynnu sylw at yr effaith a gyflawnir gennym a bydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r modd rydym yn gweithio â phartneriaid i gyflwyno ystod o wasanaethau sy'n helpu cleientiaid i gymryd rheolaeth dros eu gyrfaedd. Mae rhai o'r cyflawniadau a'r datblygiadau sydd yn yr adroddiad yn cynnwys:

- Cyrraedd yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol a osodwyd ar ein cyfer gan Lywodraeth Cymru;
- Rhoi gwasanaethau digidol newydd cyffrous ar waith;
- Gwerthusiad annibynnol hynod gadarnhaol o'n gwasanaethau;
- Darparu ystod o gynadleddau gyrfaedd a sgiliau ar raddfa fawr;
- Sefydlu partneriaethau Dosbarth Busnes rhwng cyflogwyr ac ysgolion a pharhau i gyflwyno ein Hyfforddiant Cenhadon Busnes;
- Datblygu adnoddau 'gyrfaedd' i'w defnyddio gan athrawon ac eraill a'n cefnogaeth i ysgolion a cholegau drwy hyfforddiant a Marc Gyrfa Cymru;
- Effaith ein cefnogaeth ar gyfer oedolion di-waith drwy'r Porth Sgiliau Unigol; ac
- Ein cymorth ar gyfer y rhai sy'n wynebu diswyddiad.

Mae'r cyflawniadau hyn yn dangos bod Gyrfa Cymru yn helpu i gefnogi'r economi a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y buddsoddiad o £4.3b mewn addysg a sgiliau a wneir gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Fel llawer o sefydliadau, rydym wedi wynebu heriau, ansicrwydd a newid sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cydweithwyr yn Gyrfa Cymru am eu proffesiynoldeb, ymrwymiad ac ymroddiad parhaus drwy'r cyfnodau anodd hyn. Hoffwn ddiolch hefyd i Fwrdd CCDG am eu cefnogaeth a'u harweiniad parhaus, ac yn arbennig i'n cyn-gadeirydd - John Taylor.

Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd heriau pellach o'n blaenau ond, fel y dangosir yn yr adroddiad hwn, rwy'n hyderus y byddwn yn eu hwynebu gyda gwydnwch, penderfyniad a ffocws clir ar ein cleientiaid.

**Richard Spear**

Prif Weithredwr

# 01/Cyflwyniad

Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd dwyieithog, diduedd ar gyfer pobl o bob oed yng Nghymru yw Gyrfa Cymru. Mae ein hadroddiad blynyddol yn disgrifio blwyddyn lwyddiannus i Gyrfa Cymru, yn enwedig yng ngoleuni'r pwysau mawr fu ar y gyllideb. Cawsom adborth cadarnhaol unwaith eto gan ein cleientiaid, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid gan berfformio'n dda o ran ein targedau.

## 1.1 Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd



## 1.2 Ein Gwasanaethau

**Ein diben yw cefnogi cleientiaid i gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn fwy effeithiol, gan gydnabod nad yw rheoli gyrfa bellach yn golygu un dewis galwedigaethol, ond yn hytrach gyfres o newidiadau gyrfa drwy gydol oes. Drwy wella sgiliau rheoli gyrfa a chymwyseddau cleientiaid, gallant wneud y newidiadau hyn yn rhwyddach, cael mwy o foddhad gyda'u gyrfaoedd a chwarae rhan fwy gweithredol yn yr economi.**

Mae ein gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cleient yn helpu defnyddwyr i archwilio a deall y cyfleoedd addysg a swyddi sydd ar gael a pha mor addas ydynt, a gosod nodau gyrfa, gwneud penderfyniadau a chynllunio pa gamau i'w cymryd, er mwyn gweithio tuag at sicrhau eu bod yn dilyn yr yrfa orau sydd ar gael iddynt.

Mae ein gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol gymwys mewn nifer o leoliadau - ysgolion, colegau, ein canolfannau gyrfa, safleoedd partneriaid ac mewn digwyddiadau.

Yn unol â'r cyfarwyddyd yn ein llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru, wrth ddarparu'r gwasanaethau, canolbwyntiwyd yn benodol ar y grwpiau blaenoriaeth a ganlyn yn ystod y flwyddyn:

- > Pobl ifanc â datganiadau AAA (anghenion addysgol arbennig) neu ddatganiad cyfatebol;
- > Pobl ifanc 11-18 oed sydd â'r angen mwyaf am Wybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd;
- > Pobl ifanc sydd wedi derbyn addysg heblaw yn yr ysgol;
- > Pobl ifanc 16-17 oed sy'n ddi-waith;
- > Pobl ifanc sy'n rhan o'r system Cyfiawnder Ieuencid;
- > Oedolion di-waith sy'n manteisio ar raglen Porth Sgiliau Unigol Llywodraeth Cymru;
- > Oedolion y mae perygl iddynt golli eu swydd ac sy'n wynebu diweithdra.

Mae gwasanaethau digidol Gyrfa Cymru ar gael i bawb ac mae'n cynnig mwy o fynediad i'n gwasanaethau. Mae modd defnyddio ein gwasanaeth sgwrs ar-lein byw o'n gwefan neu ein tudalen Facebook ac, fel ein llinell gymorth 'Cyswllt Gyrfa Cymru', mae'n darparu gwybodaeth a chymorth personol.

Mae ein gwefan yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel gan gynnwys:


- Gwybodaeth Marchnad Lafur (GML) hygyrch a chyfoes ar gyfer galwedigaethau sy'n bwysig yn economaidd a sectorau sy'n flaenoriaeth yng Nghymru
- gwybodaeth fanwl am swyddi, fideos ac astudiaethau achos ar gannoedd o swyddi.

Bydd Ymwelwyr â gyrfacymru.com hefyd yn darganfod adnoddau rhyngweithiol a fydd yn caniatáu iddynt:

- gynhyrchu syniadau gyrfa personol i gyd-fynd â'u sgiliau a'u diddordebau
- paratoi ar gyfer dewis opsiynau, profiad gwaith neu gyfweiliadau am swyddi
- chwilio a gwneud cais am swyddi
- chwilio am gyrsiau o blith dros 30,000 o gyfleoedd dysgu

Darperir ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid hefyd gydag amrywiol adnoddau ar adrannau penodol o'r wefan.


Mae ein sianeli cyfryngau cymdeithasol - Facebook, Twitter, YouTube ac Instagram – yn parhau i ddatblygu'n gyflym.



Drwy ddarparu ein gwasanaethau, rydym yn cyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hyn i bobl yng Nghymru:

1. **Ymwybyddiaeth:** Bydd pobl yng Nghymru yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael iddynt, byddant yn deall y cyfleoedd hynny ac yn gallu gwneud penderfyniadau am eu gyrfaedd ar sail eu gwybodaeth;
2. **Dyhead:** Gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sydd o dan 25 oed - bydd pobl yng Nghymru yn uchelgeisiol ac yn cael eu cymell i gymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant;
3. **Gallu:** Bydd pobl yng Nghymru yn dod yn fwy effeithiol wrth ddefnyddio sgiliau a chymwyseddau rheoli gyrfa ac wrth reoli eu gyrfa gydol eu hoes;
4. **Gweithredu:** Bydd gan bobl yng Nghymru yr hyder, y sgiliau a'r gallu i ymgeisio'n llwyddiannus am waith ac am gyfleoedd dysgu a hyfforddi, ac i gynnal eu cysylltiad â'r cyfleoedd hynny.

### Ar ddiwrnod arferol yn ystod 2015-16 cyflawnwyd:





### 1.3 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru sy'n sôn am ein contract, ein diben a'r gwasanaeth a gynigiwn i'w weld yn atodiad 1.

Mae'r llythyr cylch gwaith yn rhestru pedwar dangosydd perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer 2015-16. Roedd adroddiadau yn deillio o'r arfarniadau a gynhaliwyd yn dangos bod Gyrfa Cymru wedi cyflawni'r rhain.

- > **DPA 1: cyfraniad y sefydliad tuag at gynnydd parhaus pobl ifanc drwy addysg ac i gyflogaeth neu hyfforddiant/addysg bellach;**
- > **DPA2: cyfraniad y sefydliad tuag at leihau nifer y bobl ifanc sydd y tu allan i'r system Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant;**
- > **DPA3: cyfraniad y sefydliad tuag at sefydlu cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion a chyflogwyr;**
- > **DPA4: boddhad cleientiaid o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys mewn perthynas â phresenoldeb digidol integredig.**

## Trosolwg o'r Cyflawniadau

### DPA 1: Cynnydd parhaus pobl ifanc drwy addysg ac I gyflogaeth neu hyfforddiant/addysg bellach.

Llwyddodd Gyrfa Cymru i gyflawni pob un o'r 4 Maen Prawf a bennwyd ar gyfer DPA 1 a chyflawni 11 o'r 12 prawf tystiolaeth a ddefnyddiwyd:

#### a. Maen Prawf 1: Cleientiaid mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

Mae hyn yn cymharu ac yn gwrthgyferbynnu cleientiaid a oedd mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ar 31 Hydref / 1 Tachwedd 2014 ac ar 31 Hydref / 1 Tachwedd 2015. Mae data'r Cyfrifiad Hynt Disgyblion yn dangos bod cyfran y bobl ifanc mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn 2015 0.43 pwynt canran yn uwch nag yr oedd yn 2014 (95.47% yn 2014 a 95.90% yn 2015). Mae data'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid yn cadarnhau'r casgliad hwn er bod y cynnydd yn llai o lawer, sef 0.07 pwynt canran o gleientiaid Haen 4 a Haen 5 yn cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (90.09% yn 2014 a 90.16% yn 2015).

#### b. Maen Prawf 2: Cleientiaid sy'n aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Mae data'r Cyfrifiad Hynt Disgyblion yn dangos bod cyfran y bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ar 31 Mawrth 2016 0.43 pwynt canran yn uwch nag ym mis Mawrth 2015 (94.81% yn 2015 a 95.24% yn 2015). Mae data'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid yn cadarnhau'r casgliad hwn gan ddangos cynnydd sydd bron yn union yr un fath, sef 0.48 pwynt canran o gleientiaid Haen 4 a Haen 5 yn cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 2015 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (89.04% yn 2014 ac 89.52% yn 2015).

Mae tystiolaeth data'r Cyfrifiad Hynt Disgyblion yn dangos bod cyfran y garfan o gleientiaid sydd wedi parhau i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant rhwng 2015 (31 Hydref 2014 a 31 Mawrth 2015) a 2016 (31 Hydref 2015 tan 31 Mawrth 2016) fwy neu lai'n union yr un fath, er bod gwahaniaeth bach yn y cynnydd, sef 0.003 pwynt canran yn 2016 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae data'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid yn dangos gwelliant mwy sylweddol yng nghanran y bobl ifanc sy'n parhau i ymwneud ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, sef cynnydd o 0.42 pwynt canran rhwng 1 Tachwedd 2015 a 31 Mawrth 2016 o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

#### c. Maen Prawf 3: Cleientiaid nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) Hydref/Tachwedd

Gweler DPA 2.

#### ch. Maen Prawf 4: Cleientiaid sy'n parhau i fod yn NEET

Dengys Data'r Cyfrifiad Hynt Disgyblion, o ran cyfran, bod 0.46 pwynt canran yn llai o bobl ifanc a oedd yn gadael yr ysgol o blith y garfan gyfan yn NEET ar 31 Mawrth 2016 o'i gymharu â'r un dyddiad yn y flwyddyn flaenorol (3.47% 2015 a 3.01% 2016).

Mae data'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid yn cadarnhau'r casgliad hwn, gan nodi bod 0.39 pwynt canran yn llai o gleientiaid yn NEET (Haen 3) ar 31 Mawrth 2016 nag ar yr un dyddiad yn 2015 (3.00% 2015 a 2.61% yn 2016).

Mae tystiolaeth y Cyfrifiad Hynt Disgyblion yn dangos bod cyfanswm cyfran y garfan o gleientiaid a ddynodwyd yn rhai nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2016 (31 Hydref 2015 tan 31 Mawrth 2016) 0.03 pwynt canran yn is nag yn 2015 (31 Hydref 2014 tan 31 Mawrth 2015). Mae adroddiadau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid yn dadlau yn erbyn y canfyddiad hwn, gan ddarparu tystiolaeth bod y gyfran o gleientiaid Haen 3 a oedd yn NEET yn 2016 0.1 pwynt canran yn uwch nag yn 2015.

#### DPA 2: Lleihau nifer y bobl ifanc sydd y tu allan i'r system addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant.

Cyflawnodd Gyrfa Cymru ofynion DPA2 ar gyfer y flwyddyn fusnes 2015-16. Wrth gymharu data Hynt Disgyblion, gwelir bod canran a nifer y bobl ifanc 'Nad Oeddent Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant' (NEET) ar 31 Hydref 2015 yn is nag yr oedd ar 31 Hydref 2014. Gwelwyd gostyngiad o 0.43 pwynt canran yng nghyfran yr holl ddisgyblion yn y categori NEET (o 3.13% yn 2014 i 2.70% yn 2015) ac o 321 o unigolion (1991 yn 2014 i 1670 y 2015). Mae dadansoddi data'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid (Model 5 Haen), yn cadarnhau hyn hefyd, a daw i'r casgliad fod llai o bobl ifanc yn NEET (yn Haen 3) ar 1 Tachwedd 2015 nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2015, roedd 2.58% o'r garfan (1855 o unigolion) yn Haen 3, 0.49 pwynt canran yn llai a 432 o unigolion yn llai nag yn 2014 (3.07% a 2287 o unigolion).

#### DPA 3: Cyfraniad Gyrfa Cymru tuag sefydlu cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion a chyflogwyr.

Ym mis Mehefin 2015, cyflwynodd Wavehill Consulting adroddiad ar ganlyniadau 200 o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid Gyrfa Cymru a gynhaliwyd yn gynharach y flwyddyn honno. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr arolwg â DPA 3 gan ei fod yn cynnwys cwestiynau am y canlynol:

- > Gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd y Cwmni;

- > Cefnogaeth i bobl ifanc NEET;
- > Y gwasanaethau a gynigir i gyflogwyr mewn perthynas â lleoli a recriwtio pobl sy'n gadael yr ysgol;
- > Creu cysylltiadau gyda chyflogwyr i gefnogi'r cwricwlwm ysgolion.

Cysylltwyd â chwe grŵp o randdeiliaid: ysgolion, colegau, busnesau, darparwyr hyfforddiant, canolfannau gwaith ac awdurdodau lleol. Roedd y gwaith ymchwil hwn hefyd yn golygu bod modd cymharu a gwrthgyferbynnu rhai o'r canfyddiadau ag arolwg tebyg a gynhaliwyd gan Beaufort Research yn 2012. Dyma rai o brif ganfyddiadau arolwg 2015:

- > Lefelau uchel o foddhad cyffredinol ym mhob grŵp;
- > Roedd pob grŵp o randdeiliaid yn gytŷn ei bod yn hawdd cysylltu â Gyrfa Cymru, ei fod yn deall anghenion pobl, yn gwerthfawrogi ac yn parchu eraill, ac yn cefnogi eu sefydliad yn effeithiol;
- > Roedd 100% o'r canolfannau gwaith yn fodlon ar y cyngor a roddwyd i bobl ddi-waith.
- > Roedd 93% o'r colegau yn fodlon ar y cyngor a roddwyd i fyfyrwyr;
- > Roedd 92% o'r ysgolion yn fodlon ar y cyfarwyddyd gyrfaedd a roddwyd i ddisgyblion;
- > Roedd 89% o'r busnesau yn fodlon ar y gefnogaeth yr oeddent yn ei chael i recriwtio pobl sy'n gadael yr ysgol;
- > Roedd 54% o'r ysgolion yn fodlon ar y ffordd yr oedd Gyrfa Cymru yn creu cysylltiadau â chyflogwyr i gefnogi'r cwricwlwm. **DS:** Gellir egluro'r lefel gymharol isel hon o foddhad gan y newidiadau yng nghylch gwaith a chyllid Gyrfa Cymru, a gafodd fwy o effaith ar gefnogaeth y Cwmni I gysylltiadau rhwng addysg a busnes nag ar rai o'r gwasanaethau eraill (gweler isod). Ymhellach, ni fyddai amseriad yr arolwg wedi darparu adborth yn ymwneud â'r rhaglen "Dosbarth Busnes", a gyflwynwyd i gryfhau brocera cymorth i gyflogwyr ar gyfer y cwricwlwm ysgol.

Dywedodd pob grŵp o randdeiliaid fod y newidiadau yng nghyllideb a chylch gwaith Gyrfa Cymru wedi effeithio er gwaeth ar eu sefydliadau, er bod y rhai a holwyd yn credu'n gyffredinol bod Gyrfa Cymru wedi rheoli'r gostyngiad yn y gyllideb yn dda. Yn gyffredinol, mae lefel boddhad Busnesau a Darparwyr Hyfforddiant yn debyg i'r hyn a welwyd yn 2012, ac er bod Ysgolion bellach yn llai bodlon, mae'r Colegau'n fwy bodlon:

- > Yn 2015, yn gyffredinol, ysgolion oedd y grŵp o randdeiliaid lleiaf bodlon ar wasanaethau Gyrfa Cymru. Mae lefel boddhad ysgolion, sef ymateb cadarnhaol o 84% 2015, 10% yn is nag mewn arolwg cyfatebol a gynhaliwyd yn 2012;

- > Roedd yn ymddangos mai Ysgolion a deimlodd effaith lymaf y newidiadau yng nghyllideb a chylch gwaith Gyrfa Cymru yn 2015 (47% effaith sylweddol, 23% rhywfaint o effaith, 23%, effaith fach, 7% dim effaith).

#### DPA 4: Boddhad cleientiaid o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru, gan gynnwys presenoldeb digidol integredig.

Yn y flwyddyn fusnes 2015-16, dyma rai o'r adroddiadau ymchwil neu waith maes a arfarnodd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyrfa Cymru:

- > Arolwg dros y ffôn ymhlith 200 o randdeiliaid a gynhaliwyd gan Wavehill Consulting;
- > Arolwg o waith ymchwil i wefan a gwasanaethau digidol y Cwmni;
- > Adroddiad ymchwil a oedd yn cymharu ac yn gwrthgyferbynnu canfyddiadau am wasanaethau wyneb-yn-wyneb a digidol Gyrfa Cymru ag astudiaeth am y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn yr Alban;
- > Arolwg o 1,250 o gleientiaid Blwyddyn 11 NAD OEDDENT wedi cael Cyfarwyddyd Gyrfaoedd wyneb-yn-wyneb gan y Cwmni.

Dyma rai o'r prif ganfyddiadau (ac eithrio'r rhai am y rhanddeiliaid y cyfeiriwyd atynt yn DPA 3):

#### Gwefan Gyrfa Cymru

Seiliwyd yr adolygiad ar bedair astudiaeth ymchwil:

- > Gwasanaethau Gyrfa Cymru i Gleientiaid ym maes Addysg (Beaufort Research 2015);
- > Gwasanaethau Gyrfa Cymru i Gleientiaid yn y Farchnad Lafur (Beaufort Research 2015);
- > Arolwg ymhlith rhanddeiliaid Gyrfa Cymru (Wavehill Consulting 2015);
- > Arolwg o'r Wybodaeth am y Farchnad Lafur a ddarperir gan Gyrfa Cymru (Beaufort Research 2013).

Dyma rai o'r canfyddiadau:

Bod cyfran fawr o gleientiaid a rhanddeiliaid Gyrfa Cymru a holwyd yn defnyddio gwefan y Cwmni;

- 92% o awdurdodau lleol;
- 91% o ganolfannau gwaith;
- 91% o ddarparwyr hyfforddiant;
- 88% o ysgolion;
- 83% o gleientiaid ym maes addysg;
- 76% o gleientiaid yn y farchnad lafur;
- 58% o fusnesau
- 85% o golegau;

Roedd boddhad defnyddwyr gyda gyrfacymru.com hefyd yn dangos sgoriau uchel iawn:

- O blith cleientiaid yn y Farchnad Lafur a holwyd:
  - Roedd 93% yn meddwl bod y wybodaeth ar y wefan yn hawdd ei deall;
  - Roedd 93% yn meddwl bod y wybodaeth ar y wefan yn ddefnyddiol;
  - Roedd 86% yn meddwl bod lefel y wybodaeth yn *brïodol* ar gyfer eu hanghenion;
  - Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn defnyddio'r wefan i chwilio am swyddi gwag;
- O blith y cleientiaid ym maes Addysg a holwyd:
  - Roedd 95% yn meddwl bod y wybodaeth ar y wefan yn hawdd ei deall;
  - Roedd 96% yn meddwl bod y wybodaeth ar y wefan o help;
  - Roedd 86% yn meddwl bod lefel y wybodaeth *eithaf agos ati* ar gyfer eu hanghenion;
- Dywedodd y cyfrannau a ganlyn o randdeiliaid eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar gyrfacymru.com:
  - 100% o ganolfannau gwaith;
  - 91% o awdurdodau lleol;
  - 85% o ddarparwyr hyfforddiant;
  - 82% o golegau;
  - 79% o fusnesau;

- 71% o ysgolion;

Canfu astudiaeth o Wybodaeth am y Farchnad Lafur a gynhaliwyd ymhlith 2000 o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn 2013 y canlynol:

- Roedd y rhyngryd yn ffynhonnell gref o wybodaeth ac roedd gwefan Gyrfa Cymru hefyd yn bwysig;
- Roedd 84% o'r ymatebwyr wedi defnyddio Gyrfacymru.com yn ffynhonnell wybodaeth am y farchnad lafur;
- Roedd tua 90% o'r disgyblion yn credu ei bod yn hawdd dod o hyd i Wybodaeth Marchnad Lafur a bron pob un (96%) yn dweud eu bod wedi styried gwybodaeth am y farchnad lafur wrth greu eu cynlluniau gyrfa.

## Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru ac yn yr Alban

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Gyrfa Cymru adroddiad ymchwil desg a oedd yn adolygu canlyniadau arolygon ymhlith cleientiaid a rhanddeiliaid a gynhaliwyd er 2012, gan gymharu'r rhain â chanfyddiadau adolygiad o'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn yr Alban: ***“What’s the evidence? Comparing the impact of career websites and other career support”*** (a gyhoeddwyd gan Ganolfan Cymdeithaseg Addysgol Caeredin ym mis Medi 2013). Mae cyfeirio at y gwaith ymchwil hwn yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd bod y newidiadau ym mholisi'r gwasanaeth gyrfaoedd yn yr Alban wedi bod yn debyg i'r rhai yng Nghymru, er bod y rhain wedi'u rhoi ar waith yn gynharach. Dyma rai o ganfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn:

- > Mae'n well gan gleientiaid o bob oed gael cymorth gan Gyrfa Cymru drwy gysylltiad wyneb-yn-wyneb gydag unigolion yn hytrach na thrwy linellau cymorth dros y ffôn neu sianelau sy'n cael eu hwyluso ar y we. Adlewyrchir y canfyddiadau hyn gan y canfyddiadau yn yr Alban;
- > Nid yw diffyg ymwybyddiaeth o ddewisiadau amgen yn ffactor cyfyngol sy'n effeithio ar y ffaith ei bod yn well gan bobl gael cyfweliadau wyneb-yn-wyneb. Mae hyn yn wahanol yn yr Alban, lle mae'r cleientiaid i bob golwg yn llai ymwybodol o wasanaethau gyrfa digidol nag y mae cleientiaid yng Nghymru;
- > Mae lefel y defnydd a wneir o wasanaethau hefyd yn cadarnhau dewisiadau cleientiaid o ran sut i gael mynediad i wasanaethau Gyrfa Cymru. Roedd canfyddiadau gwaith ymchwil yn yr Alban yn debyg, er bod llawer llai yn manteisio ar yr holl wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn yr Alban nag sydd yng Nghymru;

- > Mae cleientiaid yn fwy tebygol o ddefnyddio ffurfiau annhraddodiadol (digidol) o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd os ydynt eisoes wedi defnyddio cyfarwyddyd wyneb-yn-wyneb;
- > Nid yw ansawdd i bob golwg yn effeithio ar ddewisiadau pobl; mae barn pobl am ansawdd gwasanaethau Gyrfa Cymru yn ffafriol iawn ar gyfer pob dull o ddarparu gwasanaeth. Mae'r ymchwil yn yr Alban i bob golwg yn cadarnhau hyn, er nad oes cymaint o dystiolaeth o hynny;
- > Mae gwasanaethau wyneb-yn-wyneb i unigolion yn cael gwell effaith ar gleientiaid na dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau. Cefnogir y ddamcaniaeth hon gan ganfyddiadau Ymchwil yn yr Alban;
- > Mae'r effaith a gaiff gwasanaethau Gyrfa Cymru ar gleientiaid yn cynyddu yn unol â nifer, natur ac ystod (cymysgedd) y gwasanaethau a ddefnyddir. Mae Ymchwil yn yr Alban yn argymhell dull mwy cymysg wrth ddarparu gwasanaethau gyrfaedd.

### Cleientiaid Blwyddyn 11 NAD YDYNT yn cael Cyfarwyddyd Gyrfaedd wyneb-yn-wyneb: Beaufort Research 2016

Mor ddiweddar â 2011, byddai Gyrfa Cymru wedi cynorthwyo'r holl bobl ifanc ym Mlwyddyn 11 gyda chyngor a chyfarwyddyd gyrfa wyneb-yn-wyneb. Ers hynny, ac yng ngoleuni gostyngiadau sylweddol yn ein cyllideb, mae Llywodraeth Cymru wedi targedu ein gwasanaethau mewn ysgolion at y bobl ifanc hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod yn NEET, neu'r rhai y mae angen y mwyaf o gymorth arnynt. Cynhaliwyd cyfanswm o 1,250 o gyfweiliadau drwy Gymru gyda chleientiaid a oedd ym Mlwyddyn 11 yn ystod y flwyddyn academaidd 2014-2015 ac **nad** oeddent wedi cael cyfweiliad wyneb-yn-wyneb, un-i-un gydag un o gynghorwyr Gyrfa Cymru yn ystod Blwyddyn 11. Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn ym mis Chwefror - Mawrth 2016. Roedd yr arolwg yn golygu bod modd cymharu rhywfaint ag arolwg 2014-2015 o gleientiaid Blwyddyn 11 Gyrfa Cymru a oedd *wedi* cael cyfweiliad cyfarwyddyd wyneb-yn-wyneb. Er y cafwyd adborth cadarnhaol gan y ddau grŵp o bobl ifanc ar wasanaethau Gyrfa Cymru, nododd y rhai a oedd wedi cael cymorth wyneb-yn-wyneb fwy o welliannau sylweddol o ran eu sgiliau a'u cymwyseddau rheoli gyrfa. Roedd galw mawr hefyd am gymorth wyneb-yn-wyneb gan y rhai nad oeddent wedi cael gwasanaethau drwy'r sianel hon. Ymysg y canfyddiadau eraill mae:

#### Ymwybyddiaeth o Wasanaethau Gyrfa Cymru

- > Roedd y garfan hon i gyd bron yn ymwybodol o gyrfacymru.com (95%) ond roedd yr ymwybyddiaeth yn is o wasanaethau allweddol eraill - llinell gymorth dros y ffôn (27%) a sgwrs ar-lein (18%);
- > Roedd rhywfaint yn fwy o ymwybyddiaeth o bresenoldeb Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol - 46% Facebook a 36% Twitter;



- > Roedd yr ymwybyddiaeth o wasanaethau, ac eithrio gyrfacymru.com, yn gyffredinol is na'r ymwybyddiaeth ymhlith y grŵp cyfatebol o gleientiaid a oedd wedi cael cyfweliad cyfarwyddyd wyneb-yn-wyneb;

### Y Defnydd o Wasanaethau Gyrfa Cymru

- > Roedd oddeutu tri chwarter (74%) wedi defnyddio gyrfacymru.com ers neu yn ystod Blwyddyn 11;
- > Roedd llawer llai o ddefnydd ar wasanaethau eraill (2% llinell gymorth dros y ffôn, 2% sgwrs ar-lein);
- > Fel sy'n wir am yr ymwybyddiaeth, roedd llawer llai o blith y garfan hon hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau na'r rhai a oedd wedi cael cyfweliad cyfarwyddyd wyneb-yn-wyneb un-i-un;
- > Efallai mai'r rheswm dros hyn, yn rhannol, yw nad oes cymaint o angen y gwasanaethau ar y grŵp mwy abl hwn ond mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod cyswllt wyneb-yn-wyneb droeon (fel y gwelwyd mewn arolygon blaenorol) yn sbarduno ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eraill Gyrfa Cymru;
- > Roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol o grybwyll aelodau o'r teulu ac athrawon fel dylanwadau ar eu cynlluniau gyrfa nag o grybwyll Gyrfa Cymru;
- > O ran sut fyddai orau gan bobl ddefnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru yn y dyfodol, roedd galw mawr am wasanaethau wyneb-yn-wyneb ochr yn ochr â llwybrau mwy digidol.

### Effaith Gwasanaethau Gyrfa Cymru

- > Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd wedi dod i gysylltiad â gwasanaethau Gyrfa Cymru yn credu eu bod wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar eu penderfyniadau o ran dewisiadau gyrfa ac addysg;
- > Serch hynny, roedd cryfder y teimladau (y gyfran a ddywedodd ei fod wedi helpu *llawer iawn*) yn llai nag ar gyfer y grŵp cyfatebol a gafodd gyfweliad wyneb-yn-wyneb;
- > Mae canfyddiad pobl bod gwasanaethau Gyrfa Cymru wedi cael effaith arnynt yn gwella yn unol â'u cysylltiad â'r gwasanaethau;
- > Mae'r rhan fwyaf (8 o bob 10 neu ragor) o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru yn credu bod Gyrfa Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth o Gymwyseddau Rheoli Gyrfa. Y mwyaf cadarnhaol o'r rhain oedd *wedi fy helpu i ddeall y cyfleoedd sydd ar gael*, lle roedd 92% o'r rhai a oedd yn defnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru yn cytuno bod hyn yn wir;

- > Unwaith eto, yn gyffredinol, nid oedd y teimlad cadarnhaol ynghylch effaith gwasanaethau ar Gymwyseddau Rheoli Gyrfa mor gryf ag yr oedd ymhlith y rhai a oedd wedi cael cyfarwyddyd wyneb-yn-wyneb.

### **Cyflawni cynlluniau Blwyddyn 11**

Mae tua thraean o'r garfan hon (32%) wedi newid eu cynllun ar gyfer gyrfa ac addysg ers Blwyddyn 11. Dyma'r dadansoddiad:

- > Ar gyfer mwy na hanner y grŵp hwn (20%), newid yn y pynciau / maes dysgu oedd hyn.
- > Roedd cyfanswm o 6% wedi dechrau dilyn un llwybr ar ôl Blwyddyn 11 ond wedi newid eu statws eisoes erbyn adeg y cyfweiliad (Chwef - Mawrth 2016, tua 7-8 mis ers diwedd Blwyddyn 11);
- > Roedd 6% arall wedi newid yr hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud ym Blwyddyn 11.

### **Bodddhad gyda'r dewis o yrfa ac addysg**

- > Er bod y rhan fwyaf yn cytuno eu bod wedi cael yr help yr oedd ei angen arnynt ac wedi gwneud y dewis cywir, roedd bron hanner y bobl hyn yn difaru nad oeddent wedi gwybod rhagor (cyn penderfynu) am yr hyn yr oeddent yn ei wneud nawr;
- > I'r lleiafrif a oedd yn dymuno cael rhagor o help, eu prif ofynion oedd:
  - cael gwybodaeth am yr opsiynau / cyfleoedd ehangach sydd ar gael
  - cymorth un-i-un / rhywun i siarad â nhw.

# 02/Darparu Gwasanaethau ym maes Addysg

Drwy Gymru, buom yn gweithio gydag ysgolion uwchradd, colegau AB ac ysgolion arbennig i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc mewn addysg. Yn y flwyddyn academaidd 2015-16, cyflwynwyd cynnig newydd i ysgolion sy'n cyflwyno hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau a oedd yn diwallu anghenion unigol sefydliadau a'u disgyblion. Cytunwyd ar y cynnig drwy ein 'Cytundeb Partneriaeth' â phob ysgol a choleg.

Roedd ein gwaith ym myd addysg yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc i ehangu eu gorwelion a datblygu dealltwriaeth realistig o'r farchnad lafur, disgwyliadau cyflogwyr a gwerth sgiliau a chymwysterau.

Llwyddodd 96% o Flwyddyn 11 i sicrhau canlyniad cadarnhaol yn ystod y cyfnod pontio yn 16 oed, 97.2% yn 17 oed a 93% yn 18 oed.

Cefnogwyd 48,643 o bobl ifanc ar sail un-i-un a 64,177 drwy sesiynau grŵp i ddatblygu dulliau effeithiol o reoli gyrfa a sicrhau trefniadau pontio cadarnhaol yn 16, 17 ac 18 oed.

Roedd gweithio gyda rhieni'n parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwaith gan ein bod yn sylweddoli faint o ddylanwad a gaiff rhieni a'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig iddynt. **Y llynedd, cafwyd 19,538 o gysylltiadau gyda rhieni ledled Cymru.** Buom yn bresennol yn rheolaidd mewn nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill mewn ysgolion a cholegau.

## 2.1 Cefnogi pobl ifanc 11-18 oed

### 2.1.1. Pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau

Parhaodd Gyrfa Cymru i helpu pobl ifanc 11-18 oed mewn ysgolion a cholegau i wella'u sgiliau rheoli gyrfa, gan eu cymell i gynllunio ar gyfer y dyfodol a rheoli eu gyrfa mewn ffordd ragweithiol. Bu Cynghorwyr Gyrfa yn helpu pobl ifanc i ddod yn benderfynwyr mwy effeithiol, gan ddefnyddio gwell hunanymwybyddiaeth a gwybodaeth am ystod ehangach o opsiynau i fod yn sail i'w penderfyniadau. Drwy ddysgu sgiliau ymarferol, megis chwilio am swydd, gwneud ymchwil, technegau cyfweiliad, cynllunio a rhwydweithio, llwyddwyd i helpu pobl ifanc i roi eu cynlluniau ar waith a manteisio ar gyfleoedd. Ein nod hefyd oedd gwneud pobl ifanc yn fwy cydnerth, yn fwy ymwybodol o sut i gael gafaél ar gymorth ac yn fwy abl i ddal ati yn wyneb siomedigaethau a rhwystrau.

Mae'r astudiaethau achos a'r wybodaeth isod yn dangos rhai o'r ffyrdd eraill a ddefnyddiwyd

gennym i gynnig cymorth.

## Cefnogi Pobl Ifanc mewn Addysg i Ddeall Gwybodaeth Marchnad Lafur - Codi STEM

Mae'r digwyddiad o fri, Codi STEM wedi'i gynnal ar dri achlysur gwahanol ar y cyd â Grŵp Llandrillo Menai a'r Ynys Ynni a bwriedir cynnal ffair arall ym mis Gorffennaf 2016.

Roedd nifer dda o gyflogwyr uchel eu proffil yn bresennol ym mhob un o'r tri digwyddiad a rhoddwyd cyfle i ddisgyblion o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 12 gymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol yn gysylltiedig â gyrfaoedd. Trefnwyd digwyddiadau gyda'r nos hefyd a oedd yn cynnwys siaradwyr o blith y prif randdeiliaid sy'n ymwneud â phrosiectau'r dyfodol, e.e. Wylfa Newydd.

Ar ôl y digwyddiad cyntaf; dywedodd Dr Ian Rees, Pennaeth Coleg Menai:

*"Roedd cyfraniad Gyrfa Cymru at drefnu'r diwrnod yn hanfodol i'w lwyddiant - gan adeiladu ar y berthynas ragorol sy'n bodoli eisoes gydag ysgolion yn yr ardal".*  
*Permission for quote to be used required?*

Mae'r digwyddiadau wedi denu dros 1,000 o bobl ifanc o ysgolion yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r ymateb i'r digwyddiadau hyn, ar sail yr arfarnu, wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol gan ddangos yr effaith ar y dysgwyr:

- > Dywedodd 98.7% eu bod bellach yn gwybod am y cyfleoedd swyddi lleol sy'n gysylltiedig â phynciau STEM;
- > Dywedodd 100% eu bod bellach yn gwybod pa gymwysterau a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol;
- > Dywedodd 100% y byddent nawr yn ystyried gyrfa sy'n gysylltiedig â phynciau STEM yn Ynys Môn a Gwynedd.

Y nod yw datblygu 'Codi STEM' yn frand yn y gogledd a datblygu'r bartneriaeth ymhellach i sicrhau bod pobl ifanc a rhieni'n ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar y gorwel yn yr ardal. Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y bartneriaeth drwy gynnig ei arbenigedd a thrwy ei gysylltiadau ag ysgolion a cholegau.

## Cefnogi manteision y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd

Trefnodd Adran y Gymraeg yn Ysgol Dyffryn Aman ddiwrnod llawn o weithgareddau'n ddiweddar i ddisgyblion Blwyddyn 9 er mwyn cryfhau eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg. Roedd y diwrnod yn cynnwys gweithgareddau rhyngweithiol gyda'r nod o ddatblygu eu sgiliau iaith a mynd i'r afael â rhwystrau megis hil a stereoteipio.

Gofynnwyd i Gyrfa Cymru gefnogi'r digwyddiad drwy gynnal chwech o weithdai rhyngweithiol yn canolbwyntio ar gryfhau dyheadau siaradwyr Cymraeg, yn siaradwyr iaith gyntaf ac yn ddysgwyr, o ran y cyfleoedd yn y gweithle a phwysigrwydd yr iaith fel un o'r sgiliau gwerthfawr y bydd cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Yn ystod y gweithdai, cyfeiriodd y cynghorydd y disgyblion at 'Dewis Da - Pam Dewis Cymraeg?' ar wefan Gyrfa Cymru oherwydd bod hyn yn dangos y galw gan gyflogwyr am siaradwyr Cymraeg.

### **Cefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (y Fframwaith)**

Rydym wedi parhau i chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid ac mae enghreifftiau da o waith partneriaeth i'w gweld mewn nifer o Awdurdodau Lleol.

Yn Sir Benfro, er enghraifft, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ym mhob ysgol lle bydd cynadleddau achos i drafod disgyblion a gyfeirir gan yr ysgolion (gan Bennaeth y Flwyddyn / y Pennaeth Cynhwysiant Cymdeithasol). Bydd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn dod i'r cyfarfodydd, ac mae'n flaenoriaeth bod cynghorwyr ysgolion yn bresennol er mwyn iddynt allu cyfrannu at drafodaethau ac argymhellion ynglŷn ag unigolion.

Bydd y cyfarfodydd panel hyn yn cael eu hystyngi i grwpiau blwyddyn 7-11 o fis Medi 2016 ymlaen.

Drwy gyfrwng y cyfarfodydd hyn, llwyddwyd i weld pa ddisgyblion y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddynt a'u holrhain - sef y disgyblion hynny a fyddai fel arall o bosibl wedi mynd ar goll yn y system. Gan mai adolygiadau misol yw'r rhain, mae'r gweithwyr proffesiynol o amgylch y bwrdd yn gallu rhoi gwybod i bawb am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cynnydd/diffyg cynnydd y disgyblion hyn, a sefydlu gweithwyr allweddol i sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol.

Yng Nghasnewydd, darparwyd sesiwn gan y Rheolwr Ardal a'r Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu ar y cyd i Benaethiaid y Chweched Dosbarth i edrych ar ddull mwy cyson o adnabod cleientiaid Haen 4. Mae hyn wedi golygu bod Gyrfa Cymru yn gallu cynnig cymorth priodol i'r myfyrwyr hyn ac olrhain a monitro'u cynnydd. Yn sgil y cyfarfod hwn, datblygwyd gweithdrefn Casnewydd-gyfan i bob ysgol ei defnyddio o fis Medi 2015 ymlaen.

### **Cryfhau'r ymwybyddiaeth o Ddylunio a Thechnoleg ym Mhen-y-bont ar Ogwr**

Trefnwyd y digwyddiad i gryfhau ymwybyddiaeth disgyblion o'r llwybrau gyrfa a'r cyfleoedd sydd ar gael mewn pynciau technoleg. Cymerodd pob myfyriwr blwyddyn 9 ran mewn sesiwn gylchol gyda chyflogwyr, gan gynnwys Pensaer, Peiriannydd, Dylunydd Cynnyrch A Dylunydd Ffasiwn. Darparwyd sesiwn hefyd gan ein Cynghorydd Gyrfa ar ddewis pynciau TGAU, sut i benderfynu ar sail gwybodaeth a chysylltu hyn â GML leol a chenedlaethol.

Dyma'r adborth a gafwyd gan Bennaeth Dylunio a Thechnoleg yr ysgol:

*"Dim ond gair i ddiolch i chi am eich cyfraniad at y digwyddiad gyrfaoedd ddoe. Roedd adborth y disgyblion a'r staff yn eithriadol o gadarnhaol ac rwy'n gobeithio y bydd yn llwyddo i godi proffil y pwnc a'r nifer sy'n ei astudio ar gyfer TGAU. Mae'n eithriadol o bwysig, fel y byddech i gyd yn cytuno mae'n siŵr, ein bod yn dal i weithio i ddangos i'r byd pa mor bwysig yw dylunio a gweithgynhyrchu."*

## Cydweithio â Gwasanaeth Ieuencid

Bu Cynghorydd Gyrfa yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Ieuencid a oedd yn darparu sesiynau 'Inform Education' i'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn NEET. Cefnogodd y rhaglen drwy sesiynau ar ysgrifennu CV, mewnbwn ychwanegol wrth drafod opsiynau a meithrin hyder. Gwahoddwyd rhieni hefyd i brynawn o gyflwyniadau a chawsant gyfle i drafod eu cynlluniau fel teulu. Mae'r cymorth hwn yn sicr wedi cael dylanwad gan fod pawb a oedd yn gadael Blwyddyn 11 yn y categori 'risg fwyaf' wedi llwyddo i gael lle mewn Addysg Bellach ac wedi ymdopi'n dda â'r cyfnod pontio. Mae'r Cynghorydd Gyrfaedd wedi bod mewn cysylltiad â'r disgyblion ac wedi monitro eu cynnydd hyd yn hyn.

### 2.1.2 Pobl ifanc â datganiadau AAA neu ddatganiad cyfatebol

Cytunwyd ar 1,364 o Gynlluniau Dysgu a Sgiliau, cyflwynwyd 109 o geisiadau am gyllid preswyl arbenigol i Lywodraeth Cymru a chyfrannwyd at 4,447 o adolygiadau pontio.

Parhaodd ein gwasanaeth i ganolbwyntio ar gyflawni gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig:


- > Cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb;
- > Presenoldeb mewn adolygiadau pontio;
- > Darparu cynllun symud ymlaen a gwybodaeth berthnasol;
- > Cynllun Dysgu a Sgiliau ar gyfer y rhai sy'n mynd i addysg bellach, addysg uwch, coleg arbenigol neu ddysgu seiliedig ar waith;
- > Cyflwyno ceisiadau am gyllid arbenigol;
- > Cymorth i rieni.

Parhawyd i weithio gyda gweithwyr proffesiynol allweddol eraill er mwyn asesu anghenion pobl ifanc ar y cyd gan gynnwys Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig, rhieni, seicolegwyr addysg, cwnselwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol. Rhoddwyd cymorth i bob dysgwr sydd â datganiad AAA a'r rhai a oedd yn rhan o gynllun gweithredu/gweithredu+ yr ysgol ac yn mynd drwy'r broses bontio ffurfiol, gan ganolbwyntio'r cymorth penodol i gynllunio cyfnodau pontio Blwyddyn 9 a blynyddoedd 11, 12 ac 13+ neu adolygiadau blynyddol, Cynlluniau Dysgu a Sgiliau a cheisiadau am gyllid arbenigol ar gyfer Addysg Bellach (AB). Rydym yn arbennig o falch o'r rhaglenni cymorth arloesol a ddatblygwyd drwy gydol y flwyddyn a cheir ambell enghraifft ohonynt isod:

### Digwyddiad 'Beth Nesaf' yn Rhanbarth y De Canol

Trefnwyd digwyddiad gan Gyrfa Cymru a oedd wedi'i dargedu'n bennaf at bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Nod y digwyddiad oedd helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer y dyfodol drwy roi'r cyfle iddynt gael sesiynau rhagflas byr mewn ystod o weithgareddau a gweld amrywiaeth o weithgareddau a sefydliadau yn y gymuned. Roedd ystod eang o weithgareddau ar gael iddynt gael rhagflas ohonynt, yn amrywio o arlwyio i ofalu am anifeiliaid a drama i beirianeg sifil. Cefnogwyd y digwyddiad gan fwy nag 20 o sefydliadau, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant, colegau, sefydliadau gwirfoddol a chyfflogwyr.

Daeth 348 o bobl ifanc o Flynyddoedd 10-14 i'r digwyddiad o ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr adborth gan y bobl ifanc, yr athrawon a'r partneriaid yn eithriadol o gadarnhaol.



Er mwyn annog disgyblion i ddod i'r digwyddiad, llwyddwyd hefyd i drefnu i Crystal Yu (Dr Lilly Chao yn Casualty) fod yn bresennol. Yn ogystal â siarad â'r bobl ifanc, cymerodd Crystal ran yn un o'r gweithdai drama hefyd ac roedd disgyblion o Ysgol Arbennig Park Lane wedi gwerthfawrogi hyn yn fawr.

### **Cynhadledd Gyrfaoedd a Sgiliau Sir Gaerfyrddin**

Anogwyd ysgolion arbennig i ddod i'r digwyddiad a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets ym mis Mawrth, a daeth disgyblion o Ysgol Heol Goffa, Rhydygors a Chanolfan Elfed yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yno. Roedd yr ymateb gan y staff a'r disgyblion yn ardderchog. Cyfeiriodd Alan Carter, Dirprwy Bennaeth Ysgol y Frenhines Elisabeth mewn cyfarfod 14-19 yn ddiweddar at ba mor wych oedd yr help a'r gefnogaeth a roddwyd gan y Cynghorwyr Gyrfa i'r disgyblion drwy gydol y gynhadledd. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd i ddweud : "...fe wnaeth y digwyddiad greu argraff eithriadol arna'i, ac os cynhelir y digwyddiad y flwyddyn nesaf, byddwn yn sicr yn hoffi i'r disgyblion ei fynychu".

### **Digwyddiad i Rieni yng Ngholeg Meirion Dwyfor**

Ar ôl yr wythnos flasu flynyddol a gynhaliwyd yn Adran Sgiliau Byw'n Annibynnol y campws yn Nolgellau, gwahoddodd y coleg gynghorydd ADY lleol Gyrfa Cymru i helpu mewn digwyddiad yn y prynhawn i rieni. Roedd hyn yn gyfle i rieni drafod pryderon, holi a deall y broses bontio'n well. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr a chafwyd adborth ardderchog gan rieni.

Roedd pawb a fu'n ymwneud â digwyddiad y prynhawn yn meddwl ei fod wedi llwyddo am ei fod wedi rhoi cyfle i rieni ddod at ei gilydd a sgwrsio ag aelodau perthnasol o'r staff a'r cynghorydd ADY. Dangoswyd i'r rhieni sut mae'r coleg a Gyrfa Cymru yn cydweithio i helpu pobl ifanc gan sicrhau proses bontio hwylus iddynt o'r ysgol i'r coleg.

### **Bore Coffi 'Ffair Yrfaeoddd Wib' yng Nghanolfan Addysg y Bont, Llangefni**

Wrth drafod cytundeb partneriaeth â Phennaeth Cynorthwyol Canolfan Addysg y Bont, daeth yn amlwg mai un o brif flaenoriaethau'r ysgol yn y flwyddyn academaidd hon oedd datblygu strategaeth i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid 'disgyblion iau' yn ymwneud â'u dewisiadau a'u penderfyniadau ynghylch eu gyrfa yn y dyfodol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

Bu'r cynghorydd yn trafod ffyrdd posibl o gyflawni hyn oherwydd nad oedd cynnal cynadleddau gyrfa wedi llwyddo yn y gorffennol nac wedi denu llawer, yn enwedig o blith rhieni disgyblion iau. Cytunwyd i gysylltu â'r rhieni i ofyn a ellid cynnal 'ffair yrfaeoddd wib' yn ystod un o'u boreau coffi misol i rieni/gwarcheidwaid. Drwy ddefnyddio fforwm i rieni a oedd

yn bodoli eisoes, y gobaith oedd y byddai mwy o rieni'n bresennol oherwydd mai bore gwybodaeth anffurfiol fyddai hwn. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd â'r ysgol gyda'r Cynghorydd Gyrfa yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gysylltu â darparwyr lleol er mwyn trefnu iddynt ddod yno a'r ysgolion yn anfon y wybodaeth at bob rhiant. Rhoddwyd gwybodaeth i rieni gan golegau AB, colegau arbennig, darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau cymorth megis Mencap. Rhoddodd y cynghorydd gyflwyniad hefyd ar wasanaethau Gyrfa Cymru a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr ac roedd oddeutu 25% o rieni/gwarcheidwaid dysgwyr yn bresennol. Gwelliant mawr o gymharu â digwyddiadau'r gorffennol. Roedd amrywiaeth o ran oedran, o rieni/gwarcheidwaid disgyblion y blynyddoedd cynnar i rieni/gwarcheidwaid disgyblion yn y grwpiau gadael. Roedd ychydig o dan hanner y rheini a oedd yn bresennol yn rhieni/gwarcheidwaid i ddisgyblion iau na Blwyddyn 9. Roedd hyn wedi bod yn gyfraniad defnyddiol at wireddu blaenoriaeth yr ysgol i ddenu rhieni/gwarcheidwaid disgyblion iau i ymwneud â'r dewisiadau a'r penderfyniadau ynghylch eu gyrfaedd yn y dyfodol. Roedd yr adborth gan rieni/darparwyr gwybodaeth a'r ysgol yn gadarnhaol iawn. Byddwn yn trafod yn awr sut y gellid datblygu hyn, ac a allai'r disgyblion hefyd ddod i'r bore hwn gan fanteisio ar y swm helaeth o wybodaeth sydd ar gael ar eu cyfer.

### 2.1.3 Pobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol

Mae Gyrfa Cymru yn cynnig cymorth wedi'i deilwra'n arbennig i bobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol eraill i helpu'r grwpiau hyn o gleientiaid ac i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n gweddu i'w hanghenion penodol. Bydd y gwasanaeth wedi'i deilwra hwn yn cael ei ddarparu mewn unedau cyfeirio disgyblion ac mewn mathau eraill o ddarpariaeth yn y gymuned. Mae'n cynnwys asesu'r angen, cynnig cyfarwyddyd a gwybodaeth, gwasanaeth eirioli, annog a mentora.

#### Enghraifft o'n gwaith yn cefnogi uned ddiogel arbenigol

Dechreuodd y Cydlynnydd Gyrfaoedd a Byd Gwaith weithio gydag uned ddiogel arbenigol ym mis Hydref 2014 ar ôl iddi gael arolygiad yn dangos nad oedd yn cynnig dim mewn perthynas â Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith. Llwyddwyd i sicrhau Marc Gyrfa Cymru ym mis Gorffennaf 2015 ac fe'i harolygwyd eto ym mis Medi. Cafwyd yr e-bost isod i gydnabod ein help:

*"Aeth ein harolygiad yn dda ac roeddent yn eithriadol o hapus ein bod wedi ennill y Marc Gyrfa a'n bod yn rhoi gwersi gyrfaoedd ardderchog i'r disgyblion. Roedd y ffaith bod y disgyblion yn gwneud profiad gwaith a gweithgareddau entrepreneuriaidd wedi creu argraff arnynt. Roedd y ffaith bod y disgyblion yn dysgu gwybodaeth am y farchnad lafur wedi creu argraff arnynt hefyd ac roeddent yn falch bod y disgyblion yn dysgu sgiliau i'w helpu i ysgrifennu llythyrau i gefnogi eu ceisiadau, CVs ac yn cael ffug gyfweiliadau. Rwyf wedi trosglwyddo'ch enw iddynt ac wedi dweud wrthynt eich bod rhoi llawer o help i ni. Diolch am bopeth. Nid yw gyrfaoedd yn destun pryder iddynt rhagor."*



## 2.2 Hwyluso Cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac addysg

Mae 2015-16 wedi bod yn flwyddyn brysur i Gyrfa Cymru wrth i ni barhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd dros y degawdau wrth hwyluso ac yn datblygu cysylltiadau rhwng addysg a chyflogwyr. Eleni, gwelwyd partneriaethau cryf a chynhyrchiol rhwng addysg a gwaith yn parhau i ddatblygu. Bydd Gyrfa Cymru yn cysylltu â chyflogwyr er budd ein sylfaen gleientiaid ehangach gyda dau brif nod mewn golwg:

- > Hybu a chefnogi datblygu partneriaethau cynhyrchiol a chynaliadwy rhwng diwydiant ac addysg er budd dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach;
- > Helpu cyflogwyr drwy eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chynghor am recriwtio pobl ifanc ac, ar ben arall y raddfa, drwy helpu cyflogwyr a'u gweithlu yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd pobl yn colli eu swyddi neu'n wynebu'r posibilrwydd o hynny.

Yn ystod 2015-16 mae Gyrfa Cymru wedi hwyluso partneriaethau rhwng ysgolion a busnesau drwy fodel 'Dosbarth Busnes' Busnes yn y Gymuned a hefyd drwy amrywiaeth o weithgareddau addysg a busnes sy'n cael eu trefnu gydag ysgolion a cholegau.

### Gweithgareddau Dosbarth Busnes yn ystod y flwyddyn



Llun: Y Dirprwy Weinidog, Julie James, yn Ysgol Glan y Môr, Burry Port, i lansio ehangu'r rhaglen Dosbarth Busnes Cymru.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Gyrfa Cymru wedi gweithio gyda Busnes yn y Gymuned i gyflwyno fframwaith y Dosbarth Busnes i ysgolion mewn ardaloedd peilot drwy Gymru.

Rhaglen y profwyd ei bod yn llwyddo yw Dosbarth Busnes a chafodd ei datblygu gan y corff Busnes yn y Gymuned. Mae'n meithrin partneriaethau rhwng busnesau ac ysgolion a'r rheini'n bartneriaethau sy'n para. Bydd y partneriaethau hynny, sydd wedi'u seilio'n gadarn ar anghenion yr ysgol a blaenoriaethau'r busnes, yn trawsnewid cyfleoedd bywyd pobl ifanc ac yn datblygu gweithwyr dawnus ar gyfer y dyfodol.

Drwy ddod â busnesau ac ysgolion at ei gilydd mewn ffordd sydd wedi'i strwythuro, bydd Dosbarth Busnes yn gwella dealltwriaeth pobl ifanc o fyd gwaith a'u hymwybyddiaeth o'u dewisiadau gyrfa, gan ddatblygu sgiliau i'w gwneud yn fwy cyflogadwy.

Mae'r rhaglen wedi bod yn boblogaidd iawn gydag ysgolion a busnesau drwy Gymru eleni ac rydym eisoes wedi drafftio rhestr aros ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar sefydlu a chynnal 60 o 'bartneriaethau' addysg a busnes ledled Cymru mewn ystod o leoliadau gan gynnwys mewn lleoliadau gwledig, trefi a dinasoedd.

Lansiwyd y rhaglen mewn digwyddiad yn y Senedd ym mis Hydref 2015 a hefyd yn Ysgol Glan y Môr yn Sir Gaerfyrddin.

## Astudiaethau Achos Dosbarth Busnes:

### Clwstwr Caerffili



Mae datblygu'r clwstwr Dosbarth Busnes yng Nghaerffili wedi bod yn arbennig o lwyddiannus. Roedd agwedd gadarnhaol yr ysgolion a brwdfrydedd amrywiaeth o gyflogwyr yn yr ardal i gymryd rhan, yn golygu ein bod wedi llwyddo i sefydlu'r clwstwr cyfan o fewn 3 mis (o'i gymharu â rhai sydd wedi cymryd rhwng 9 a 18 mis).

Mae'r clwstwr yn cynnwys 5 ysgol a busnes. Bydd Cynghorwyr Cyswllt Busnes Gyrfa Cymru ynparu busnesau ac ysgolion drwy asesu anghenion yr ysgolion a'u cyfateb â'r 'Amcanion Busnes' a gyflawnir gyda'r busnesau. Mae pob ysgol felly wedi'i pharu â'r busnes sy'n gallu cefnogi eu hanghenion unigol orau.

Dyma bartneriaethau'r clwstwr:

- > Keepmoat – wedi'i baru ag Ysgol Gyfun y Coed Duon;
- > Glenside Commercials – wedi'i baru ag Ysgol Merched Lewis;
- > DS Smith Packaging – wedi'i baru ag Ysgol Gyfun Rhisga;
- > IQE – wedi'i baru ag Ysgol Gyfun St Martin;
- > Banc Lloyds – wedi'i baru ag Ysgol Gyfun Bedwas.

Trefnwyd y digwyddiad cyntaf ar sail thema 'Mathemateg yn y Gweithle'. Darparwyd hyn gan Ganolfan Addysg Eden Lego a chafwyd cefnogaeth llysgenhadon o ystod o fusnesau sydd i gyd yn defnyddio 'mathemateg' yn eu gwaith.

### **Digwyddiad Blwyddyn 8 Clwstwr Blaenau'r Cymoedd**

Un o uchafbwyntiau'r Dosbarth Busnes oedd digwyddiad 'Her Dinas Werdd' Blwyddyn 8 a gynhaliwyd yng nghlwstwr ysgolion Blaenau'r Cymoedd. Roedd y diwrnod ei hun yn benllanw cystadleuaeth a gynhaliwyd ym mhob un o'r pum ysgol gyda chymorth eu partneriaid busnes. Yn ystod y sesiynau hyn, bydd myfyrwyr yn dysgu sut mae adeiladu a rhaglennu robotiaid syml gan ddefnyddio adnoddau addysgol LEGO a chan gynnwys pecynnau 'mindstorm' a ddarparwyd gan Ganolfan Addysg Eden.

Cefnogwyd y digwyddiad gan dîm o feirniaid o'r sector adeiladu. Gan ystyried yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu eisoes mewn sesiynau blaenorol, gofynnwyd i ddisgyblion adeiladu a rhaglennu robotiaid ac wedyn eu symud i gwblhau tasgau/heriau penodol. Un elfen bwysig oedd bod yr holl bobl a gymerodd ran wedi cael cyfle i ddatblygu llawer o sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith megis gwaith tîm, cyfathrebu, datrys problemau, cydnerthedd a meddwl yn greadigol. Yn y rownd derfynol, cafodd y timau buddugol gyfle i ddangos y sgiliau yr oeddent wedi'u dysgu.

Cafodd y digwyddiad sylw rhagorol yn y cyfryngau a'r wasg, gan gynnwys cyfweiliadau gyda disgyblion ar Radio Wales ac ar newyddion ITV Cymru.

### **Gweithgareddau addysg a busnes yn ystod y flwyddyn**

Yn ogystal â meithrin partneriaethau cynaliadwy drwy gyfrwng rhaglen y Dosbarth Busnes, hwylusodd Gyrfa Cymru amrywiaeth o weithgareddau addysg a busnes ledled Cymru eleni. Dyma ambell enghraifft:

## Ysgol Tre-gŵyr - Diwrnodau Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith i Flwyddyn 10

Eleni, penderfynodd Ysgol Tre-gŵyr yn y gorllewin ei bod yn dymuno chwilio am ffordd amgen o 'flocio' lleoliadau profiad gwaith i ddisgyblion Blwyddyn 10. Dechreusant weithio gyda chydweithwyr yn Gyrfa Cymru i gynllunio wythnos o weithgareddau byd gwaith a fyddai'n ddeniadol i bobl ifanc a hefyd yn denu cyflogwyr i gymryd rhan. Ar ôl ymgynghori, cytunwyd ar raglen o ddiwyddiadau a dechrau cynllunio. Aeth staff Gyrfa Cymru ati i ddewis a recriwtio cyflogwyr ar gyfer y sesiynau gan gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau a'u harwain hyd yn oed, lle roedd hynny'n briodol.

Cymerodd disgyblion Blwyddyn 10 Ysgol Tre-gŵyr ran mewn 4 diwrnod o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â gwaith rhwng 30 Mehefin a 2 Gorffennaf. Cawsant olwg werthfawr ar fyd gwaith ac, ar yr un pryd, casglwyd tystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf, cymerodd y disgyblion ran mewn carwsél o weithgareddau. Cynhaliodd y Cynghorwyr Gyrfa sesiynau ar Wirio Gyrfa/Dewis Pynciau Blwyddyn 11, gan ddefnyddio'r adrannau Cwis Syniadau ac Ysgrifennu Datganiadau Personol ar gyrfacymru.com. Rhoddodd cyflogwyr a sefydliadau allanol sesiynau ar Baratoi ar gyfer Cyfweliad, ac roedd modelau rôl o'r Syniadau Mawr yn bresennol hefyd. Darparwyd gweithgareddau adeiladu tîm hefyd gan staff Prifysgol Abertawe a'r RNLI.

Yn ystod y ddau ddiwrnod olaf, cafodd y disgyblion ffug gyfweiliadau dan arweiniad cyflogwyr. Defnyddiwyd yr holiadur gyrfaoedd a'r datganiad personol a gynhyrchwyd ganddynt yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf fel ffurflen gais. Darllenodd y cyflogwyr y rhain, a rhoddwyd adborth arnynt ac ar y cyfweiliadau.

Cafodd y sesiynau dderbyniad da iawn gan staff a disgyblion yr ysgol. Dywedodd un athro, a oedd yn bresennol yn ystod y sesiwn datganiad personol, fod disgyblion yn trafod cynnwys y wers yn y coridor wedyn a'i fod wedi sylwi arnynt yn rhoi'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu ar waith mewn gwaith grŵp yn ddiweddarach. Anfonodd athro arall y sylw canlynol atom drwy e-bost.

*"Llongyfarchiadau am gynnal dau ddiwrnod ardderchog o addysg sy'n gysylltiedig â gwaith. Yn ogystal â'r ffaith bod y disgyblion wedi mwynhau a chael llawer o fudd ohono, fe wnes innau fwynhau hefyd. Roedd yn braf iawn gweld cynifer o'r disgyblion y cyfeirir atynt weithiau fel rhai sydd 'wedi dadrio' yn cymryd cymaint o ran ac yn awyddus i wneud hynny. Da iawn am estyn allan i'r oedolion ifanc hyn ac, mewn nifer o achosion, eu hannog i feddwl (efallai am y tro cyntaf) am eu gyrfaoedd yn y dyfodol."*

## Hyfforddi Cenhadon Busnes

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi yng nghanolfan gyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddydd Mercher 23 Medi. Roedd cyfanswm o 8 o Genhadon Busnes yn rhan o'r gweithdy a ddarparwyd gan Gynghorwyr Cyswllt Busnes Gyrfa Cymru. Nod hyfforddi Genhadon Busnes yw hyfforddi a pharatoi cyflogwyr i fynd i mewn i amgylchedd ysgol a'u

helpu i baratoi ar gyfer yr hyn sy'n amgylchedd anghyfarwydd neu newydd i lawer ohonynt. Bwriedir i'r gweithdai arwain at y canlyniadau a ganlyn i'r bobl sy'n cymryd rhan:-

- > Dealltwriaeth o pam mae eu cyfraniad yn ychwanegu gwerth at y cwricwlwm yng Nghymru;
- > Hyder i gyflwyno'u neges i grŵp o fyfyrwyr;
- > Gwerthfawrogi dulliau dysgu a sut y byddant yn cyflwyno'u negeseuon i fyfyrwyr;
- > Ymwybyddiaeth o'r hyn y bydd yr ysgol yn ei ddisgwyl gan Gennad Busnes a'r hyn y gallant hwy ei ddisgwyl gan yr ysgol;
- > Bod yn barod ac yn frwdfrydig i ddechrau gweithio mewn ysgolion.

Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn ac mae 3 o weithwyr eisoes wedi cytuno i gynnal Ffug Gyfweiliadau yn Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

### **Cynhadledd Gyrfaoedd a Sgiliau Sir Gaerfyrddin**

Ym mis Mawrth eleni, cynhaliwyd Ffair Gyrfaoedd a Sgiliau Sir Gaerfyrddin yn stadiwm Parc y Scarlets yn Llanelli. Cymerodd dros 2000 o ddisgyblion CA4 o'r holl ysgolion ar draws y sir ran, ynghyd â mwy na 70 o arddangoswyr busnes. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyrfa Cymru ond fe'i ariannwyd gan y Coleg Lleol (Coleg Sir Gâr) a'r awdurdod lleol (Cyngor Sir Gaerfyrddin).

Cyfunodd y digwyddiad gyfleoedd traddodiadol i bobl ifanc siarad â chyflogwyr ag ardal 'rhoi cynnig arni' sy'n cael ei hwyluso gan y coleg, lle roedd pobl ifanc yn cael y cyfle i roi cynnig ar sgiliau a meysydd galwedigaethol, e.e. weldio rhithiol, defnyddio argraffydd 3D, coginio, gosod brics ac ati. Rhoddwyd cipolwg iddynt hefyd ar yr amrywiaeth o brentisiaethau sydd ar gael mewn gwahanol sectorau a'r rhagolygon am swyddi yn y dyfodol. Cynhelir yr wythnos yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau ac mae'n cynnig cyfle i ddisgyblion ysgol yn ogystal ag athrawon gael gwybod rhagor am brentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith yn hytrach nag astudiaethau academiaidd.

## 2.3 Meithrin gallu mewn ysgolion a cholegau

### 2.3.1 Marc Gyrfa

Mae Marc Gyrfa Cymru yn achredu sefydliadau sydd wedi ymrwmo i wella ansawdd eu darpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn barhaus. Rhaid i sefydliadau ddangos bod ganddynt weithdrefnau ar waith i sicrhau canlyniadau o ansawdd i ddysgwyr a dangos eu bod wedi ymrwmo iddynt.

Datblygwyd y Marc ar ôl cyflwyno'r fframwaith ar gyfer Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith fel rhan o'r cwricwlwm diwygiedig (2008). Yn ystod y flwyddyn, hwylusodd ein Cydlynwyr Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith 367 o gyfarfodydd ymgynghori ynghylch y Marc mewn ysgolion a cholegau. Hyd yn hyn, mae 136 o ysgolion, 22 o ysgolion arbennig ac 11 o golegau AB (mae hyn yn cynnwys campysau ar wahân) wedi llwyddo i ennill y Marc.

Mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o sut y gall y Marc fod yn sail ar gyfer rhoi cymorth i'r ysgol gyfan ddarparu ar gyfer Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith:

#### **Marc Gyrfa Cymru - Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanwern**

Cefnogwyd Ysgol Uwchradd Llanwern gan Gyrfa Cymru i gyflawni Marc Gyrfa Cymru am y tro cyntaf. Cysylltwyd y gefnogaeth hon â chorff llywodraethu'r ysgol law yn llaw â'u cynllun datblygu a phenodwyd Llywodraethwr i oruchwylio'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith o fewn cwricwlwm yr ysgol.

Sefydlwyd is-grŵp, a gadeirir gan y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, a oedd yn bwydo'n uniongyrchol i'r corff llywodraethu. Mynychwyd y grŵp gan Gyfarwyddwr Busnes yr ysgol; ein Cynghorydd Gyrfa a'r Cydlynnydd Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, ac fe'i cefnogwyd gan uwch dîm arwain yr ysgol. Cyfarfu'r grŵp unwaith y tymor gan archwilio pob agwedd sy'n ymwneud â Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a'r modd y caiff ei gynnwys o fewn y cwricwlwm. Gwnaeth argymhellion ac awgrymiadau, gan adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu, gan sicrhau felly bod y Byd Gwaith yn cael y flaenoriaeth uchaf.

O ganlyniad i'r fenter cynhaliwyd cyfarfodydd â swyddog arweiniol consortiwm De Ddwyrain Cymru (GCA) sy'n gyfrifol am hyfforddi llywodraethwyr, ac anogodd eraill, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraethwyr Cymru, i ymchwilio i botensial sefydlu cysylltiadau a pherthnasoedd tebyg rhwng cyrff llywodraethu a'r cwricwlwm.

### 2.3.2 Adnoddau a Hyfforddiant

Mae'r adnoddau i athrawon wedi cael eu diweddarau. Mae'r rhain yn cael eu mapio yn erbyn y fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn barhaus. Mae'r adnoddau'n rhoi syniadau ymarferol i staff addysgu a gweithgareddau iddynt eu defnyddio wrth ddarparu gwersi gyrfaoedd mewn cyd-destun addysgol. Maent yn arbennig o ddefnyddiol i athrawon sy'n newydd i'r cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith ac yn eu cyfeirio at rannau defnyddiol o wefan gyrfacymru.com lle y gallant ddod o hyd i weithgareddau a gwybodaeth.

## Llwyddiannau wrth ddatblygu adnoddau

Dyma rai elfennau o'r gwaith:

- > Datblygu deunyddiau ar gyfer sesiynau sy'n gysylltiedig â'r mesur / y cynnig;
- > Mapio adnoddau ar gyfer y cyfeiriadur adnoddau gyrfaoedd e.e. Panjango;
- > Datblygu adnoddau ar gyfer y cynnig craidd;
- > Diweddarau adnoddau ategol ar gyfer Bagloriaeth Cymru;
- > Cynhyrchu cylchlythyr Gyrfa Cymru / y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) ar y cyd;
- > Datblygu adran broffesiynol gyrfacymru.com;
- > Cyfarfod â Chydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu yn Nhorfaen i drafod y potensial pellach ar gyfer datblygu fideo am y farchnad lafur leol;
- > Cynhyrchu adnoddau i ategu dewislen o wasanaethau i'w trafod gyda'r ysgolion;
- > Adnoddau Twf Swyddi Cymru / y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau;
- > Dyrannu amser sylweddol i ddatblygu adnoddau i hyrwyddo'r cyhoeddiad am y farchnad lafur leol a gynhyrchwyd ar y cyd â Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd.

## Hyfforddiant Meithrin Gallu

Rydym wedi darparu 120 o sesiynau gyda sefydliadau partner. Dyma rai o'r pynciau yr ymdriniwyd â hwy:

- > Hyfforddiant Bagloriaeth Cymru i grŵp Cydlynwyr Gwynedd a Môn;
- > Sesiynau her menter a chyflogadwyedd CA5 Bagloriaeth Cymru;
- > Hyfforddiant ar y 'cynnig' 14-19;
- > Lanlwytho cyrsiau CA4 ar gyrfacymru.com;
- > Cynlluniau Llwybrau Dysgu;
- > Trosolwg o Gyrfacymru.com - pecynnau ac adnoddau;
- > Gwybodaeth Marchnad Lafur (GML);
- > Hyfforddiant Bagloriaeth Cymru ar gyfer Cydlynwyr newydd ym maes Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
- > Cais am brentisiaeth;
- > Fy man fy nyfodol;
- > Sesiynau ar y Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;

- > Y Mesur / y Cynnig a Dolenni at y Prosbectws Ardal Gyffredin.

### **Astudiaeth Achos Hyfforddiant**

Cefnogi hyfforddiant ar gyfer Bagloriaeth Cymru yng ngholegau'r Gogledd

Yn sgil yr adborth cadarnhaol yn y sesiynau hyfforddi ar gyfer Bagloriaeth Cymru gyda staff Coleg Llandrillo Menai, gofynnodd Cydlynnydd 14-19 Coleg Meirion Dwyfor am sesiynau ar safle Pwllheli ac ar safle Dolgellau. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar wefan Gyrfa Cymru a'r adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi. Eleni oedd y tro cyntaf i lawer o'r 15 aelod o staff dan sylw gyflwyno'r maes hwn o'r cwricwlwm.

Canolbwyntiwyd yn bennaf yn y sesiynau ar heriau entrepreneuriaeth a chyflogadwyedd ar gyfer y lefel uwch y cymhwyster. Mae hwn yn faes allweddol am ei fod yn orfodol i ddysgwyr sy'n astudio'r lefel uwch greu 'Cynllun Hynt' a chyflwyno tystiolaeth eu bod wedi deall y farchnad lafur ac yn gwybod sut i ddenu sylw cyflogwr wrth wneud cais am swydd. Wrth arddangos y wefan a'r adnoddau, dangosir yn glir bod ganddynt potensial mawr a sut y gallant ysgafnhau llawer o'u baich gwaith fel cydlynwyr. Roeddent hefyd yn cydnabod bod yr adnoddau'n hawdd i'r dysgwyr eu dilyn ac y byddai'n bosibl iddynt barhau â'r gwaith yn annibynnol heb gael cyfarwyddyd gan y staff.

Cafwyd rhagor o adborth cadarnhaol a rhagor o geisiadau i gefnogi hyfforddiant tebyg ar draws safleoedd eraill y coleg.

### **Cyfarfodydd Ymgynghori ar Feithrin Gallu**

Rydym wedi hwyluso 198 o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda'r canlynol:

- > Fforwm Addysg a Busnes ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- > Fforymau Cydlynwyr Gyrfaoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Brif Ffrwd;
- > Digwyddiad Her Ysgolion Cymru;
- > Digwyddiad hyfforddiant cynllunio i athrawon yng Ngholeg Merthyr;
- > Cyfarfodydd gyda Swyddogion Datblygu CBAC mewn perthynas â chyflwyniadau Bagloriaeth Cymru;
- > Cyfarfodydd gydag ysgolion / colegau;
- > Meithrin gallu gyda Choleg Gwent ar gampws Dinas Casnewydd;
- > Cyfarfod gyda'r GCA ynghylch cylchlythyr ar y cyd rhwng Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth;
- > Sesiwn meithrin gallu Cydlynwyr Gweithwyr Arweiniol gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg;



- > Cyfarfodydd gyda chonsortia gwella ysgolion rhanbarthol;
- > Cyfarfodydd dadansoddi anghenion Dosbarth Busnes;
- > Helpu ysgolion / colegau i baratoi ar gyfer arolygiad Estyn.

### **Astudiaeth Achos - Cyfarfodydd**

Fforymau Cydlynwyr Gyrfaoedd yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr - rhannu arferion


Mae cyfres o fforymau wedi'u sefydlu yn Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr i rannu arferion da, darparu diweddariadau, gweld pa hyfforddiant sydd ar gael a rhannu adnoddau. Mae'r grwpiau canlynol bellach wedi'u sefydlu:

- > Ysgolion 'Taf' Rhondda Cynon Taf;
- > Ysgolion 'Y Rhondda' Rhondda Cynon Taf;
- > Ysgolion 'Cynon' Rhondda Cynon Taf;
- > Ysgolion Merthyr;
- > Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr;
- > Fforwm ADY Merthyr a Rhondda Cynon Taf.

Mae'r grwpiau'n cael eu defnyddio i hybu rôl Gyrfa Cymru o ran meithrin gallu ac i sôn am ein gwasanaethau. Mae'r cyfarfodydd cychwynnol wedi ennyn adborth cadarnhaol a chytundeb i flaenoriaethu:

- > Codi safonau yn y ddarpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
- > Rhannu arferion da i ddynodi rhaglenni Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith sy'n esiampl dda yn CA3 a CA4;
- > Gweld sut y byddai modd rhoi'r 8 meincnod yn adroddiad Gatsby ar waith yn ysgolion Rhondda Cynon Taf a Merthyr;
- > Sicrhau bod gan y colegau wybodaeth am yr ymchwil ddiweddaraf e.e. adroddiad am farchnad lafur STEM.

### 2.3.3 Ymwybyddiaeth o'r Prosbectws Ardal Gyffredin



Parhaodd Gyrfa Cymru i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhagor ar y Prosbectws ar-lein i alluogi pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 i weld yr holl gyrsiau ôl-16 sydd ar gael yn eu hardal. Yn ystod y flwyddyn, darparwyd 146 o sesiynau hyfforddi'n gysylltiedig â'r Prosbectws mewn ysgolion a cholegau.

Rydym yn arbennig o falch o'r cymorth a gynigiwyd i ysgolion a cholegau yn nhymor yr hydref ar ôl i Lywodraeth Cymru ofyn i bob sefydliad gyhoeddi data am eu cyrsiau ar y Prosbectws erbyn Hydref 31. Yn ystod y cyfnod hwnnw, darparwyd hyfforddiant cychwynnol neu hyfforddiant gloywi i dros 40 o ysgolion a cholegau. Yn sgil hyn, lanlwythodd 83 o ysgolion 11-18 (57%) eu data'n annibynnol sy'n welliant sylweddol ar y sefyllfa yn 2014/15.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru benderfynu dileu'r elfen ymgeisio o'r Prosbectws, cytunwyd i hwyluso cyfres o grwpiau defnyddwyr rhanbarthol i ganolbwyntio ar sut y gellir datblygu a gwella'r prosbectws, sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori ymhellach yn y rhaglenni Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a pha adnoddau y byddai eu hangen i helpu ysgolion a cholegau. Byddwn yn sôn am ein canfyddiadau wrth Lywodraeth Cymru er mwyn ategu'r strategaeth ar gyfer y Prosbectws yn ystod 2016-17.

## 03/ Darparu Gwasanaethau Digidol

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwasanaethau digidol gan roi'r cyfle i gleientiaid fanteisio ar wasanaethau ar adeg a thrwy gyfryngau sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

### 3.1 Y wefan

Mae ein gwefan, gyrfacymru.com, wedi parhau i ffynnu a thyfu a rhyddhawyd nifer o becynnau a chynhyrchion newydd a nodedig yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu gwell gwasanaeth gyrfaoedd ar-lein i'w defnyddwyr.

#### Defnyddio'r wefan 2015-16:

- > Cyfanswm nifer yr ymweliadau (sesiynau) â'r wefan: 1,452,235;
- > Nifer yr ymwelwyr unigryw â'r wefan: 792,021;
- > Nifer defnyddwyr y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau/Twf Swyddi Cymru 273,394;
- > Nifer y cyfrifon newydd sydd wedi'u cofrestru: 45,965;
- > Nifer defnyddwyr Cyrsiau yng Nghymru: 80,904.

#### Chwiliad Gyrfa a Gwybodaeth am Swyddi

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi diweddarau'r holl wybodaeth sy'n ategu ein hadrannau Chwiliad Gyrfa a Gwybodaeth am Swyddi'r wefan. Mae dros 40 o deitlau swyddi newydd wedi'u hychwanegu at y safle i adlewyrchu newidiadau yn y farchnad lafur. Mae pob un o'r 800+ o fanylion swyddi wedi'u hadolygu a'u diweddarau yn ystod y flwyddyn.

#### Tueddiadau Swyddi

Parhawyd i adolygu, diweddarau a diwygio ein hadran Tueddiadau Swyddi yn ystod y flwyddyn. Mae'r adrannau hyn ar y wefan yn darparu gwybodaeth am sectorau penodol ac am dueddiadau'r farchnad lafur ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r holl sectorau hyn yn adlewyrchu'r sectorau sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a dyma'r teitlau newydd:

- > Diwydiannau creadigol;
- > Gwyddorau Bywyd;
- > Twristiaeth, Lletygarwch a Hamdden;
- > Bwyd a Ffermio.



Gan gydweithio â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, byddwn yn lansio amrywiad ar yr adran Tueddiadau Swyddi yn 2016-17, sef 'Golwg ar Ogledd Cymru'. Mae'r adnodd Golwg ar... hwn yn archwilio'r farchnad lafur yn un o ranbarthau Cymru yn hytrach na chanolbwyntio ar sector galwedigaethol penodol.

### Cyfres Gyrfaoedd mewn...

Nodwedd gymharol newydd yw'r gyfres 'Gyrfaedd mewn...' a'r nod yw llenwi bylchau yn y galwedigaethau hynny sy'n bwysig o safbwynt economaidd yng Nghymru am eu bod yn rhan o ôl troed sy'n cwmpasu ystod eang o swyddi. Lanswyd y gyntaf yn y gyfres Gyrfaedd mewn.. tua diwedd y flwyddyn ac roedd yn ymwneud â Gwallt a Harddwch.



### Erthyglau ar ffurf Carwsel

Bob wythnos ychwanegir erthygl newydd at y safle sy'n cynnig gwybodaeth newydd am yrfaedd i ddefnyddwyr, gan ymateb i'w hanghenion. Mae'r carwsel hefyd yn ategu llawer o ymgyrchoedd a digwyddiadau cenedlaethol, er enghraifft i gryfhau'r ymwybyddiaeth o gynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n helpu unigolion yng Nghymru drwy gynnig cyfleoedd i ddysgu a chael swydd. Er mwyn ategu'r ymgyrchoedd a'r digwyddiadau hyn, ychwanegir deunydd newydd, gan gynnwys astudiaethau achos, fideos a deunyddiau ychwanegol at y safle gan gefnogi cynlluniau megis y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau, Twf Swyddi Cymru a'r Porth Sgiliau.

### Llwybrau Cyflogaeth

Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, aeth y pecyn Llwybrau Cyflogaeth newydd yn fyw ar y safle. Mae'r pecyn hwn yn galluogi pob unigolyn i gael gfael ar wybodaeth am yr holl raglenni cymeradwy sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth y bydd cleient yn ei darparu, bydd yn eu paru â rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n genedlaethol ac yn rhanbarthol, ac felly rhoddir gwybodaeth iddynt am bob un y maent yn gymwys ar ei chyfer. Bydd defnyddwyr wedyn yn cael gwybod pa gamau i'w dilyn nesaf, os byddant yn dymuno ymchwilio rhagor i raglen benodol.

### Cwis Paru Swyddi

Cynhyrchodd 24,423 o ddefnyddwyr synaidau gyrfa personol a oedd yn cyfateb i'w sgiliau a'u diddordebau drwy ddefnyddio'r Cwis Paru Swyddi ar ein gwefan.

### Eich Proffil

Gwnaed newidiadau yn ystod y flwyddyn gan gyfuno'r adrannau Proffil Swyddi Gwag ac Eich Proffil. Yn sgil y newidiadau hyn, mae nifer o bethau wedi gwella sydd o fudd i ddefnyddwyr:

- > haen dylunio ymatebol - bydd ymddangosiad tudalennau'r proffil yn cael ei addasu yn ôl maint y sgrin gan gynnig gwell profiad o lawer i ddefnyddwyr ar ffonau symudol neu lechen;
- > un proffil canolog i ddefnyddwyr ei lenwi;
- > yr un proffil hwn fydd y man canolog lle y caiff yr holl wybodaeth am broffiliau ei chadw ar gyfer meysydd eraill y safle megis lluniwr CV, y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a cheisiadau i Twf Swyddi Cymru a'r Cynllun Llwybrau Dysgu.

## Hafan

Aeth yr hafan newydd yn fyw ar ein safle ym mis Medi 2015. Roedd y fersiwn derfynol yn gynnwch tystiolaeth a gasglwyd wrth arfarnu'r safle, dadansoddi'r defnydd, gwneud ymchwil ymhlith defnyddwyr a gofyn i ddefnyddwyr ei phrofi. Mae'r hafan bellach yn cynnig patrwm symlach i'r defnyddiwr lywio drwyddo. Bydd y pecynnau a'r adnoddau mwyaf poblogaidd yn cael eu gosod ar yr hafan, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr i gyrraedd y man y maent yn ceisio'i gyrraedd drwy glicio unwaith yn unig. Drwy brofi hyn ar ddefnyddwyr, cawsom sylwadau eithriadol o gadarnhaol, ac maent wedi dweud pa mor dda mae'r hafan newydd wedi'i chynllunio a pha mor hawdd yw ei defnyddio.

## 3.2 Sgwrs Ar-lein

Gwelwyd cynnydd o 43% yn ein sesiynau sgwrsio ar-lein eleni - 7,634 o sesiynau sgwrsio o'i gymharu â 4,360 yn yr un cyfnod y llynedd. Ar gyfartaledd mae hyn yn 636 y mis neu'n 31 bob diwrnod gwaith.

O'r blaen, yr unig ffordd o ddechrau sgwrs ar-lein oedd drwy ddilyn dolen o'r dudalen 'cysylltwch â ni'. Gyda 'Sgwrs Fyw', mae'r opsiwn 'sgwrsio yn awr' i'w weld ar bob tudalen we, yn ogystal ag ar ein tudalennau Facebook a'r ap symudol.



## 3.3 Cyswllt Gyrfa Cymru - Llinell Gymorth dros y Ffon



Roedd ein llinell gymorth dros y ffôn sy'n cynnig gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd am ddim yn dal i fod yn wasanaeth poblogaidd ymhlith cwsmeriaid. Yn ystod 2015/16, cafodd Gyrfa Cymru dros 39,000 o alwadau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd ymarfer siopwr cudd allanol ar y llinell gymorth fel rhan o'n rôl yn cefnogi'r Porth Sgiliau.

Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod y gwasanaeth drwyddo draw, ym marn cwsmeriaid, yn ardderchog. Dywedodd mwyafrif y rhai a ffoniodd (88%) eu bod yn fodlon ar eu galwad. At hynny, roedd y rhan fwyaf o'r galwyr yn hapus o ran faint o wybodaeth a gawsant dros y ffôn, ac roedd y mwyafrif (84%) yn teimlo bod y wybodaeth yn berthnasol.

Rhoddwyd sgôr uchel i'n cynghorwyr ar gyfer sut yr ymdriniwyd â chwsmeriaid, gydag 83% o'r galwyr yn dweud bod y cynorthwy-ydd wedi gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Dywedodd

un siopwr cudd:

"Cefais brofiad gwych. Efallai y ffonia'i eto i gael cyngor am fy ngyrfa fy hun! Fedrwn i ddim canmol mwy!" - Chwiliwr swyddi profiadol

Yn ystod y flwyddyn, cyfeiriwyd rhyw 1 o bob 5 galwr wedyn at Gyngorydd Gyrfa i'w ffonio'n ôl, sef yr un nifer â'r llynedd. Rhoddwyd y gorau i ddarparu trosglwyddiadau ar gyfer cyfarwyddyd 'byw', ac eithrio yn ystod cyfnod canlyniadau arholiadau'r haf, oherwydd bod y galw'n gymharol isel a'i bod yn anodd darparu'r gwasanaeth hwn ar adeg pan fo adnoddau'n prinhaus.

### **Astudiaeth achos y Llinell Gymorth**

Cyfeiriwyd Cleient J atom gan berthynas i gael cymorth gyda'i CV am ei fod wedi graddio'n ddiweddar ac yn cael trafferth dod o hyd i waith. Adolygwyd techneg chwilio am swydd y cleient a'i CV gan gyngorydd Cyswllt Gyrfa Cymru tra roedd ar y ffôn. Roedd gan Cleient J syniad bras o'r mathau o swyddi y byddai'n hoffi eu gwneud ond nid oedd yn siŵr ymhle roedd y rheini'n cael eu hysbysebu na sut i wneud cais amdanynt. Nod hirdymor Cleient J oedd gweithio ym maes y theatr neu'r teledu, ond roedd yn awyddus i ddod o hyd i unrhyw fath o waith yn y tymor byr er mwyn cael incwm.

Trafododd cyngorydd Cyswllt Gyrfa Cymru ddefnyddio'r System Paru Prentisiaethau ar Gyrfacymru.com a rhoddwyd bwletin swyddi gwag Caerdydd iddo. Ar ôl cysylltu'n rheolaidd, fis yn ddiweddarach, roedd cleient J yn dal yn ddi-waith felly argymhelliad cyngorydd Cyswllt Gyrfa Cymru oedd y dylai ddefnyddio asiantaethau recriwtio.

I ddechrau, roedd yn gyndyn o ddefnyddio'r rhain oherwydd bod ffrind wedi dweud wrtho am beidio, ond ar ôl tawelu ei feddwl am sut roedd yr asiantaethau'n gweithio, roedd y cleient yn hapus i gofrestru â nhw. Anfonodd cyngorydd Cyswllt Gyrfa Cymru restr o asiantaethau recriwtio ato drwy'r ebost gan esbonio sut i'w defnyddio. Ar ôl cofrestru, llwyddodd Cleient J i gael dwy swydd ran amser ar unwaith. Mae'r cleient yn hapus â'r rhain erbyn hyn oherwydd eu bod yn ddigon hyblyg i ganiatáu iddo fynd ar drywydd cyfleoedd eraill, gan gynnwys gwaith gwirfoddol ac mae'n ennill incwm ar yr un pryd ac yn cael profiad i'w roi ar ei CV.

## **3.4 Y Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae'n hanfodol ein bod defnyddio'r cyfrwng cywir i gyfathrebu â'n cynulleidfya'n er mwyn cryfhau'r cysylltiad â nhw. Rydym wedi bod yn cyfathrebu llawer mwy drwy'r cyfryngau cymdeithasol eleni.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y dilynwyr neu'r negeseuon hoffi ac ymweliadau ar bob un o'n sianelau cyfryngau cymdeithasol:

### **Facebook**

Hoffi – 6,298 ar 31 Mawrth 2016 - cynnydd o 858% yn ystod y flwyddyn  
Cyrhaeddiad - nifer y bobl sydd wedi gweld unrhyw gynnwys sy'n gysylltiedig â'ch Tudalen - 3,217,188 ar gyfer y flwyddyn

### Twitter:

Dilynwyr – 9,527 ar 31 Mawrth 2016 - cynnydd o 45% yn ystod y flwyddyn  
Argraffiadau – y nifer o weithiau y gwelwyd ein trydariadau - 2,385,602 ar gyfer y flwyddyn

### Fideo

Crëwyd llawer o fideos cyngor hefyd ar amrywiaeth o bynciau, megis:

- > 6 ffordd i'ch helpu i chwilio am swydd



- > Sut y gallaf newid fy ngyrfa?



- > Beth yw ReAct?



- > Pam mae profiad gwaith mor bwysig i raddedigion
- > Beth ddylwn i ei ysgrifennu ar CV
- > Beth yw prentisiaeth?


Edrychwyd ar y rhain dros 250,000 o weithiau ar ôl eu hyrwyddo ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol.

### Ymgyrchoedd

Rydym hefyd wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd penodol ar y cyfryngau cymdeithasol megis:

- > Ymgyrch i leihau nifer y myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i'w cwrs coleg ar ôl hanner tymor mis Hydref.
- > Cyfres golwg ar / tueddiadau swyddi - amrywiaeth o ymgyrchoedd i gryfhau'r ymwybyddiaeth o ddata GML.
- > Ymgyrch canlyniadau arholiadau - gweithgaredd hyrwyddo ar-lein i gryfhau'r ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth cyngor a chyfarwyddyd ar ôl canlyniadau arholiadau Safon Uwch a TGAU.
- > Swyddi Nadolig - ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i gryfhau'r ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael dros y Nadolig.





### 3.5 Anfon negeseuon Ebst o fasdata IO

Er mwyn cysylltu a chadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid y mae angen help arnynt, anfonwyd dros 105,000 o negeseuon ebost hefyd at gleientiaid drwy ein basdata IO.



## 04/Darparu Gwasanaethau yn y Farchnad Lafur

Yn ystod 2015-16, datblygwyd a darparwyd gwasanaethau ar ôl cael cyfarwyddyd yn llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed ac i adlewyrchu'r Porth Sgiliau ar gyfer pobl 18-24 oed.

Rhoddwyd cymorth i 20,739 o bobl ddi-waith 16-24 oed ar ffurf cyfarwyddyd, gwybodaeth a chynghor un-i-un, a chafodd 2,733 o bobl ifanc eraill 16-24 oed gymorth drwy ein sesiynau grŵp cyflogadwyedd a chlybiau swyddi.

Cafodd 5,760 o gleientiaid mewn dysgu seiliedig ar waith neu gyflogaeth gymorth i gynnal y cysylltiad hwnnw gan eu helpu i ddilyn eu llwybrau gyrfa'n llwyddiannus.

Parhawyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n ategu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid<sup>1</sup>. Cafodd data am bob person ifanc 16-18 oed eu holrhain a'u rheoli drwy gyfrwng ein Model Cysylltu Pum Haen. Llwyddwyd i sicrhau bod ein rôl fel "gweithiwr arweiniol" yn cael ei hymgorffori yn haen 3, gan helpu pobl ifanc ddi-waith i ailgysylltu â byd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Parhawyd i gydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau i ddatblygu cymorth effeithiol i bobl ifanc nad oeddent yn barod ar gyfer addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant neu'n methu â manteisio ar y cyfleoedd hynny, ac i ddilyn trywydd y rhai sydd wedi "mynd ar goll yn y system" ac y mae angen dilyn eu trywydd mewn ffordd ragweithiol.

### 4.1 Cefnogaeth i Gleientiaid yn y Farchnad Lafur

Parhawyd i ddatblygu strategaethau arloesol ac effeithiol i gefnogi cleientiaid yn y farchnad lafur, a dyma ambell enghraifft:

#### Treialu Bathodyn Gyrfa yng Nghastell-nedd



Ym mis Mawrth lansiodd peilot 'Credydau Gyrfa Cymru' yng Nghastell-nedd Port Talbot. Y nod yw cynnig dewislen o wasanaethau: gweithdai i gyflogwyr, sesiynau CV, sesiynau cyfarwyddyd, a defnyddio'r gweithgareddau hyn i adeiladu "credyd" sydd â gwerth cydnabyddedig. Nid cynllun ar gyfer pobl o oedran penodol yw hwn er mai rhai 16-24 sy'n ei fynychu'n bennaf ar hyn o bryd.

Cyfarfu'r grŵp cyntaf yn ein canolfan yng Nghastell-nedd a chynhaliwyd cyfres o ddiwyddiadau dros gyfnod o 2

<sup>1</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>

ddiwrnod, gan gynnwys Banc Barclays yn helpu'r cleientiaid gyda'u sgiliau cyflogadwyedd. Daeth 14 o gleientiaid yno ac mae 1 eisoes wedi dod o hyd i swydd farchnata amser llawn yng Nghaerdydd. Mae adborth y cleientiaid wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol ac rydym yn awr yn gobeithio ffurfioli eu cynnydd drwy ddefnyddio cynllun gwaith.

### Sgiliau ar gyfer Llwyddo

Rydym wedi parhau i adeiladu ar lwyddiant ein partneriaeth gydag Accenture Ltd eleni, gan ddarparu'r rhaglen chwiliad swyddi ryngweithiol, 'Academi Sgiliau i Lwyddo' ar gyfer amrywiaeth o bobl ifanc ac oedolion drwy Gymru.

Mae cyfanswm o 1,138 o gleientiaid wedi'u cofrestru i ddefnyddio'r adnodd fel rhan o'u gweithgareddau chwilio am swydd drwy gyfryngwr. Wrth ddilyn cynnydd cleientiaid, rydym wedi gweld eleni bod 30% o'r rhai a ddefnyddiodd yr adnodd wedi mynd yn eu blaen i sicrhau canlyniad cadarnhaol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn newyddion da i bobl sy'n chwilio am waith yng Nghymru ac mae'n dangos y gall ffordd ragweithiol a strwythuredig o ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd fod yn llwyddiannus.

Dyweddodd Camilla Drejer, Cyfarwyddwr Dinasyddiaeth Gorfforaethol Accenture yn y DU mewn datganiad diweddar i'r wasg:

*"Yr un nodau sydd gennym ni ag sydd gan Gyrfa Cymru, ac rydym am gyrraedd cynifer o bobl ifanc â phosibl er mwyn iddynt fod wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer byd gwaith. Mae Gyrfa Cymru eisoes yn helpu cynifer o bobl drwy'r wlad, felly roedd yn gwneud synnwyr i ni ymuno â nhw i gyfeirio pobl ifanc sy'n chwilio am waith at yr Academi Sgiliau i Lwyddo a rhannu ein gwybodaeth a'n hadnoddau".*

Meddai Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg:

*"Mae'n wych gweld dwy fenter sy'n canolbwyntio ar yrfaeodd yn cydweithio i wella cyflogadwyedd pobl ifanc yng Nghymru. Mae hefyd yn beth cadarnhaol iawn i farchnad swyddi Cymru, am ei fod yn sicrhau y bydd gweithlu'r dyfodol yn meddu ar y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i ffynnu yn y gweithle."*

### Gwella a hwyluso rhannu data (Sir Ddinbych)

Oherwydd y pryderon ynghylch diogelwch data a phwy gaiff weld gwybodaeth, bu'n rhaid cyfyngu ar ddarparu rhestrau papur o gleientiaid. Gwelwyd bod hyn yn rhwystr o ran diweddarau'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu cleientiaid yn Haenau 1 a 2 ac i ychwanegu at y wybodaeth honno. Daeth un ateb posibl i'r amlwg yn Sir Ddinbych, sef defnyddio basdata EGRESS yr Awdurdod Lleol. Mae hwn yn cynnig safle diogel i gadw copïau misol o adroddiadau IO Gyrfa Cymru ac mae'n help i gyfyngu a rheoli nifer y bobl sy'n cael mynediad iddynt. Crëwyd adran ar y wefan gan Swyddog Sicrhau Ansawdd 14-19 ar gyfer adroddiadau'r Panel Cyswllt ag Ieuenctid, ac mae hyn wedi bod ar waith ers mis Rhagfyr

2015.

Mae wedi helpu'r Panel, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Ieuencid, y Cydlynedd Ymgysylltu a Datblygu, y Swyddog Sicrhau Ansawdd 14-19, Prif Arweinydd Cyswllt ag Ieuencid a'n Rheolwr Tîm, i allu gweld data am gleientiaid yn Haenau 1 a 2 a'u rhannu. Mae ambell beth i'w ddatrys o hyd ynghylch cofnodi diweddariadau; ond, mae'r adborth yn awgrymu bod hyn yn ffordd effeithiol o drin gwybodaeth bersonol yn ddiogel er mwyn helpu sawl partner i adnabod pobl ifanc.

### **Darparu gwasanaethau a chydweithredu â phartneriaid**

Ym mis Ionawr 2016 agorwyd swyddfa newydd yng Nglynebwy i roi canolfan i staff Gyrfa Cymru sy'n gwasanaethu ardal Blaenau Gwent. Mae'r ganolfan hefyd yn lleoliad ar gyfer cydweithredu ag ystod o bartneriaid, yn cynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n atgyfeirio cleientiaid at gynghorwyr gyrfa am gyfarwyddyd a chefnogaeth i chwilio am swydd. Mae partneriaid eraill yn cynnwys y gwasanaeth allgymorth i bobl ifanc, y sector gwirfoddol, a darparwyr dysgu ym myd gwaith. Bydd y ganolfan hefyd yn cynnig cyfleusterau cyfweld i gyflogwyr wrth iddyn nhw recriwtio staff.

Agorwyd y ganolfan gan Alun Davies, Aelod Cynlluniad ar gyfer Blaenau Gwent, a dywedodd: "Mae Canolfan Gyrfa Glynebwy yn gyfleuster gwych fydd yn helpu pobl o bob oedran a chynnod yn eu bywydau i sicrhau cyflogaeth a datblygu gyrfaedd diddorol sy'n rhoi boddhad iddynt. Rwy'n hyderus y caiff ei ddefnyddio gan gymuned ehangach Blaenau Gwent ac y bydd yn adnodd gwych ar gyfer yr ardal."



*Capsiwn ar gyfer y llun: Alun Davies AC, Thomas Williams a Paty Wysom, Rheolwr Ardal,*

Gyrfa Cymru.

Daeth Thomas Williams, cleient a gafodd gymorth a chefnogaeth gennym, i'r agoriad. Mae ym mlwyddyn gyntaf cwrs theatr gerddorol yng Ngholeg Crosskeys, diolch i gymorth a chefnogaeth ein Cynghorydd Gyrfa, Julie Sandbrook.

Dywedodd Thomas "Ni chefais amser gwych yn yr ysgol, yn bennaf oherwydd fy awtistiaeth, ond gyda chymorth Julie rwyf wedi magu hyder ac wedi datblygu. Rhoddodd gymorth i mi gyda fy CV ac wedyn gyda phenderfynu pa gwrs i'w ddilyn. Yn bendant dyna'r penderfyniad cywir. Rwyf wrth fy modd gyda'm cwrs yn y coleg ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar i Julie am ei chymorth a'i dealltwriaeth. Roedd yn brofiad gwych dod i agoriad swyddfa Glynabwy i weld yr holl gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael, ac rwy'n sicr y byddant o gymorth mawr i bobl ifanc fel fi sydd eisiau cael cyngor gan y cynghorwyr."

### Cydweithio â'r Ganolfan Byd Gwaith i gefnogi cleientiaid 18-24

Ym mis Gorffennaf, cydweithiodd Gyrfa Cymru â'r Ganolfan Byd Gwaith i drefnu Ffair Prentisiaethau yng Nghanolfan Gwaith Caerdydd.

Dyma'r ail ddigwyddiad o'i fath i'w drefnu ar y cyd â'r Ganolfan Byd Gwaith a'i nod oedd hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau 'byw'. Daeth dros 250 o bobl i'r digwyddiad, ynghyd â 22 o gyflogwyr lleol a oedd yn hysbysebu prentisiaethau ar y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. Dyma rai o'r cyflogwyr a ddaeth yno: MWH Global, Premier Inn, Marriott Hotel, Atradius, Lloyds Banking, KPMG ac Orangebox. Daeth deuddeg o ddarparwyr hyfforddiant yno hefyd i hyrwyddo'r prentisiaethau sydd ganddynt ar hyn o bryd.

Roedd stonidn Gyrfa Cymru yn brysur yn y digwyddiad hefyd. Rhoddwyd cymorth i dros 60 o gleientiaid ar y diwrnod gan lwyddo i estyn allan i amrywiaeth o gleientiaid 16-24 oed.

Ymysg yr adborth gan gyflogwyr ar y diwrnod roedd:

*"Digwyddiad llwyddiannus, wedi'i drefnu'n dda. Cymerwyd rhyw 30 o enwau a rhifau i gysylltu â nhw ar gyfer ein Diwrnod Asesu".  
Michelle Johnson, Premier Inn*

*"Fe wnaethon ni wir fwynhau'r digwyddiad. Mae'n gyfle rhagorol i hysbysebu ein swyddi gwag a chyfarfod â darpar ymgeiswyr"  
Bethan B Jones, Grŵp Bancio Lloyds*

### Gwib-ddigwyddiad Gyrfaoedd, wedi'i anelu at oedolion yng Nghanolfan Gyrfa Caerdydd

Cynhaliwyd gwib-ddigwyddiad gyrfaoedd, wedi'i drefnu ar y cyd â'r Ganolfan Byd Gwaith, yn y Ganolfan Gyrfa, 53 Heol Siarl ym mis Medi.

Nod y digwyddiad oedd cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau'r Porth Sgiliau a gynigir i oedolion 25+ sy'n gleientiaid. Roedd y digwyddiad yn cynnwys gweithdai CV, cyfweiliadau diagnostig byr a sesiynau gwybodaeth, yng nghwmni asiantaethau recriwtio lleol a phartneriaid sy'n cefnogi'n gwaith.

Ymhlith y cyfranwyr roedd: Y Gatrawd Frenhinol Gymreig, Acorn Recruitment, ACT Skills Academy, SOVA, Women Connect a St David's Recruitment Daeth dros 80 o gleientiaid yno. Gwerthuswyd y digwyddiad a chafwyd y sylwadau cadarnhaol a ganlyn gan gleientiaid:

*“Cefais sgwrs gyda Phil - roedd yn help mawr. Cefais lawer o wybodaeth/manylion am gyrsiau/asiantaethau ac ati. Cefais fy rhoi ar y trywydd iawn.”*

*“Roedden nhw'n help mawr a chefais i gyngor a chael fy nghyfeirio o amgylch y recriwtwyr. Cefais gyngor defnyddiol.”*

*“Arweiniad ar lunio CV, cyfarwyddyd cyffredinol o amgylch yr ystafell a safleoedd swyddi.”*

*“Help mawr.”*

*“Fe wnaeth dynes fy nghyfarch wrth y drws. Roedd hi'n llawn gwybodaeth ac yn gyfeillgar.”*

*“Fe wnaethon nhw roi llawer iawn o help i mi benderfynu ar fy nodau a sut i'w cyflawni.”*

### **Ffair Swyddi Canolfan Gyrfa Porthmadog**

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar y cyd â'r Ganolfan Byd Gwaith yng Nghanolfan Gyrfa Porthmadog ym mis Chwefror 2016.

Daeth sawl cyflogwr lleol yno, gan gynnwys Tesco, Haven, Greenacres, Afon Wen Laundry Services, Harlech Food Services, Dylan's Restaurant, Portmeirion, Rheilffordd Ffestiniog, Llechwedd Slate a Kerfoots. Roedd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr yn recriwtio ar y pryd ac roedd ganddynt swyddi gwag i'w cynnig i gleientiaid. Daeth un o gynrychiolwyr Adnoddau Dynol Tesco yno a rhoi cyflwyniad ar broses ymgeisio ar-lein y cwmni gan obeithio y byddai hynny'n cynyddu nifer y ceisiadau ynghyd â gwella'u hansawdd.

Digwyddiad agored oedd hwn i bobl o bob oed a daeth 300 yno yn y bore. Oedolion di-waith oedd y rhan fwyaf o'r rhain (69%). Roedd y cleientiaid yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael gwybod rhagor am gwmnïau lleol a gallu cwrdd â nifer o gyflogwyr. Cynigiwyd gwahoddiad i rai cleientiaid fynd i ddiwrnod agored/cyfweliad arall a chynigiwyd swydd yn y fan a'r lle i ambell un arall! Roedd eraill wedi mynd â ffurflenni cais adref ac yn ymwneud mwy â gweithgareddau chwilio am swydd.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleientiaid a chyflogwyr yn ogystal â chan gyrrff partneriaeth. Roedd y sylwadau'n dangos bod y bobl a oedd yn bresennol yn teimlo bod y digwyddiad wedi cryfhau eu dealltwriaeth o'r farchnad lafur leol ac wedi rhoi mwy o hyder iddynt wneud cais am swyddi'n lleol.

## **4.2 Pobl ifanc sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Ieuencid**

Rydym yn dal i ddarparu cymorth i bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd yn y system cyfiawnder ieuencid, gan gynnwys y rhai sydd mewn ystadau diogel.

Ein cynnig yw un sesiwn ryngweithio i gynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd i bobl 16 ac 17 oed wrth iddynt fynd i mewn i sefydliad yng Nghymru, un sesiwn ryngweithio arall cyn eu rhyddhau a chymorth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd

Gyrfaoedd parhaus ar gyfer rhaglenni adsefydlu, gan gydweithio â'r gwasanaeth troseddau ieuencid lleol. Yn ystod 2015/16, darparwyd 83 o sesiynau rhyngweithio i gynnig cyfarwyddyd i bobl ifanc yn yr ystâd ddiogel cyn eu rhyddhau.

### 4.3 Oedolion di-waith sy'n manteisio ar raglen Porth Sgiliau Unigol Llywodraeth Cymru

Y Porth Sgiliau Unigol bellach yw'r gwasanaeth cydnabyddedig ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i oedolion di-waith drwy Gymru. Rydym wedi datblygu a thyfu'r ffordd yr ydym yn darparu'r Porth dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi parhau i sicrhau canlyniadau da i bobl ddi-waith yng Nghymru.

Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, rydym wedi helpu 8,249 o gleientiaid di-waith drwy'r Porth; gan eu helpu i asesu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt, archwilio'u hopsiynau o ran gyrfa a'u gwneud yn ymwybodol o'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar eu cyfer. Rydym wedi darparu 14,214 o gyfweiliadau cyfarwyddyd, cyngor ac asesu unigol a 571 o glybiau a chlinigau swyddi. Yn ogystal â chymorth wyneb-yn-wyneb, mae cryn dipyn o waith dilynol wedi'i wneud hefyd gyda chleientiaid dros y ffôn /e-bost i'w helpu ar bob cam o'u taith.

Yn ystod 2015-16, mae 1,397 o gleientiaid wedi cael cymorth i gael gwaith neu hyfforddiant sgiliau ac 1,670 o gleientiaid wedi cael cymorth i baratoi CV. Mae nifer sylweddol o gleientiaid yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt y tu hwnt i wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wedi cael eu cyfeirio at asiantaethau partner.

Isod, rhoddir enghraifft o sut y rhoddwyd cymorth i gleient o Flaenau Gwent yn y de-ddwyrain, drwy gyfrwng y Porth. Mae'r astudiaeth achos yn dangos nad yw "ateb sydyn" yn bosibl nac ychwaith yn ddigonol i lawer o oedolion ac yn aml mae'n amlwg bod angen cymorth parhaus gan amrywiaeth o asiantaethau gyda'r Porth Sgiliau yn y canol:

*"Mae cymaint o asiantaethau wedi fy helpu dros y 2 flynedd ddiwethaf, mae'n anhygoel".*

Cyfarfu'r Cynghorydd Gyrfa â Zoe gyntaf mewn Clwb Gwaith lleol pan alwodd i gael ychydig o adborth ar ei CV a help i chwilio am waith. Nid oedd hi'n teimlo ei bod yn mynd i unman wrth ymgeisio am swyddi. Roedd Zoe'n weinyddwraig brofiadol a oedd wedi cael hoe yn ei gyrfa am 3 blynedd i fagu ei theulu. Roedd bellach yn ystyried dychwelyd i'r gwaith. Ei nod oedd mynd ar drywydd gyrfa fel Cynorthwy-ydd Addysgu ond oherwydd ei chyfrifoldebau ei hun yn gofalu am ei phlant, roedd yn anodd iddi dychwelyd i waith amser llawn. Felly roedd bellach yn ystyried hyn yn nod hirdymor.

Oherwydd iddi dreulio cyfnod estynedig i ffwrdd o'r gwaith, roedd hi'n gymharol ddihyder, yn enwedig gan nad oedd wedi cael dim llwyddiant hyd yn hyn wrth ymgeisio am swydd. Rhoddwyd rhywfaint o adborth i Zoe am sut y gallai wella ei CV a'i deilwra i weddu i'r swydd yr oedd yn ymgeisio amdani, a sut y gallai ddefnyddio gwahanol ffyrdd o ddod o hyd i waith.

Drwy gyfarwyddyd, canfuwyd bod gan Zoe hefyd ddiddordeb mewn dilyn trywydd mwy hirdymor yn ei gyrfa i weithio gyda phlant. Roedd eisoes wedi gwneud cais llwyddiannus am gwrs gofalu plant amser llawn yn y coleg ond bu'n rhaid iddi dynnu'n ôl oherwydd nad oedd yn gwmwys i gael cymorth ariannol ar gyfer ei hanghenion gofalu plant ei hun.

Drwy gyfrwng cyfres o ymyriadau, dechreuodd Zoe ganolbwyntio mwy ar ddilyn gyrfa ym maes gofal plant a llwybrau eraill tuag at weithio gyda phlant. Trafodwyd sut y gallai ennill y cymwysterau angenrheidiol (gan gynnwys gwirfoddoli a chysiau rhan-amser drwy gyfrwng Addysg Oedolion). Roedd Zoe'n sylweddoli y gallai hyn fod yn llwybr hwy at gyrraedd ei nod, ond roedd yn teimlo y byddai'n gweddu'n well i'w hamgylchiadau personol. Cafodd Zoe gymorth hefyd gan Cymunedau yn Gyntaf tra roedd yn mynychu'r Clwb Gwaith. Cynigiwyd cwrs 'Carreg Gamu at fod yn Gynorthwy-ydd Addysgu' iddi er mwyn rhoi rhagflas iddi o gwrs tebyg i gwrs Lefel 2 y Cynorthwy-ydd Addysgu cyn iddi ymrwymo i gwrs tymor hwy. Cafodd help hefyd i ddod o hyd i gyfleoedd i wirfoddoli'n lleol.

Cwblhaodd Zoe y cwrs gyda Cymunedau yn Gyntaf a rhoi ei henw i lawr i ddilyn cwrs Lefel 2 Cynorthwy-ydd Addysgu gydag Addysg Oedolion Blaenau Gwent. Dywedwyd wrthi bod angen iddi gwblhau cymhwyster Llythrennedd Lefel 2 fel un o amodau'r cwrs.

Mae Zoe bellach mewn sefyllfa i ddechrau'r cwrs Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 2 yn y flwyddyn academaidd nesaf (2016-2017) ac mae wedi cael ei hysbysu gan y Ganolfan Gweithredu ar Ddysgu lle mae'n bwriadu dilyn y cwrs y bydd yn cael blaenoriaeth o ran cael lle ar y cwrs am ei bod eisoes wedi cwblhau'r cwrs Cerrig Camu drwy Cymunedau yn Gyntaf. Mae Zoe hefyd yn gwirfoddoli gyda grŵp mam a'i phlentyn a chydag asiantaeth leol a elwir yn Families Five. Mae hyn yn rhoi profiad gwerthfawr iddi o weithio gyda phlant ac yn ei pharatoi ymhellach ar gyfer ei chwrs.

#### 4.4 Oedolion sydd mewn perygl o golli eu swydd neu sy'n wynebu diweithdra



Gwasanaeth i bobl sy'n wynebu colli eu swydd yw ReAct. Rydym wedi sicrhau cyllid am gyfnod arall o dair blynedd i ddarparu cymorth ReAct i oedolion sy'n wynebu colli eu swyddi, drwy gyfrwng rhaglen ReAct Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd Llywodraeth Cymru.

Mae newid y terfyn cymhwysedd o 6 mis i 3 mis ar gyfer cael cymorth wedi effeithio ar nifer y cleientiaid sy'n gallu gwneud cais am arian, ond rydym yn dal i weithio gyda chyflogwyr a'u staff sydd wedi cael rhybudd diswyddo i sicrhau bod y cymorth hwn ar gael i'r rhai y mae angen help arnynt.

Llwyddodd 4,973 o unigolion i elwa o'r gwasanaeth hwn eleni, gan arwain at 9,362 o sesiynau rhyngweithio unigol, 70 o sesiynau grŵp a chymeradwyo 2,495 o geisiadau ReAct. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweithio gyda chleientiaid sydd wedi colli eu swyddi gyda thros 750 o wahanol gyflogwyr, llawer ohonynt yn fusnesau bach. Mae'r ystod o gleientiaid sy'n dod o gyflogwyr llai eu maint yn dangos y cyfathrebu effeithiol sy'n digwydd rhwng yr holl asiantaethau 'Ymateb Brys' i sicrhau bod pawb sy'n colli ei swydd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael.

Mae adborth cleientiaid a chyflogwyr i'r cymorth a ddarperir yn dal i fod yn gadarnhaol.

*"Roedd yr help a gefais gan fy Nghynghorydd o'r radd flaenaf, byddaf yn cwblhau'r cwrs erbyn 23 Ionawr 2016 er i mi gael anaf ym mis Ebrill a oedd yn golygu fy mod i fwy na 4 mis ar ei hôl hi."*



*"Roedd fy nghynghorydd yn help aruthrol yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i mi ac yn fy helpu gyda'r hyfforddiant yr oedd ei angen arnaf er mwyn newid llwybr gyrfa. A minnau'n 53 oed, mae'n gam mawr i'w gymryd a heb help fy nghynghorydd byddwn i wedi cael trafferth. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl help rwyf wedi'i gael ganddi ac am fod yn gyfeillgar ac ar gael bob amser i drafod problemau."*

*"Yn gyntaf, rhaid i mi gydnabod Llywodraeth Cymru am roi cyfle i oedolion fel fi drafod fy nyfodol gyda rhywun mor brofiadol â chi. Cyn i mi gyfarfod â chi, doeddwn i ddim yn siŵr beth oeddwn i am ei wneud, ond erbyn hyn rwy'n fwy clir am fy nyfodol ac fe roesoich chi fwy o obaith i mi ar gyfer y dyfodol."*

*"Ym mis Mawrth yn gynharach eleni, collais fy swydd ar ôl gweithio yno am naw mlynedd. Ar y pryd, roeddwn yn teimlo fel pe bai holl seiliau fy mywyd gwaith wedi chwalu. Roedd fy nghynghorydd yn broffesiynol iawn bob amser ac roedd hi mor garedig drwy gydol fy nghyfarfodydd gyda hi. Doedd dim byd yn ormod o drafferth iddi ac roedd ei hagwedd yn hollbwysig wrth i mi aillfagu hyder a hunan-gred. Ar ôl ychydig o gyfarfodydd gyda'm cynghorydd, roeddwn wedi gwneud cais am nifer o swyddi, a'r rheini'n troi'n gyfweiliadau. Erbyn hyn, rwyf wedi cael swydd!"*

*Gobeithio y bydd Gyrfa Cymru yno i bawb yn y dyfodol  
pan fydd angen cyngor proffesiynol arnyn nhw am sut i fynd yn ôl i waith"*

Mewn arolwg arfarnu diweddar ymhlith cleientiaid, gwelwyd bod 81% ohonynt yn cytuno bod cymorth gan Gyrfa Cymru:

- > wedi'u helpu i ddeall yn well y cyfleoedd sydd ar gael iddynt;
- > wedi'u helpu i ddeall sut yr oedd modd defnyddio eu sgiliau a'u rhinweddau personol yn y farchnad swyddi;
- > wedi'u helpu i wneud penderfyniadau gwell ar sail gwybodaeth am eu gyrfa.

Ym mis Ionawr 2016, cawsom wybod am y diswyddiadau sylweddol a oedd yn yr arfaeth yn Tata Steel. Gan gydweithio'n agos â Thasglu Llywodraeth Cymru, tîm Adnoddau Dynol Tata a'r Adran Gwaith a Phensiynau, cytunwyd ar raglen gymorth. Mae Cynghorwyr Gyrfa wedi'u rhoi ar waith ar safleoedd Port Talbot a Llanwern i helpu'r rhai sy'n gadael y cwmni. Er mwyn cynorthwyo'r nifer fawr o gleientiaid posibl dros gyfnod byr, rhoddwyd cynghorwyr o bob ardal yn y de ar waith, gan ddangos cryn hyblygrwydd a pharodrwydd i ymateb i'r digwyddiad arwyddocaol hwn.

Rhoddwyd cyflwyniadau ar y ddau safle i dros 250 o staff. Yn ystod y cyfnod hyd ddiwedd mis Mawrth 2016, roedd ein cynghorwyr wedi gweithio gyda 181 o gleientiaid unigol o Tata Steel.

Cawsom yr adborth cadarnhaol canlynol gan gwsmeriaid:

*"Diolch am eich holl help. Heblaw am eich cyfarwyddyd a'ch cymorth, byddwn yn dal i redeg o gwmpas â 'mhen yn y gwynt i'r cyfeiriad anghywir. Fe wnaethoch i mi sylweddoli fy mod i wedi colli cyfle i ddefnyddio fy sgiliau trosglwyddadwy a'u rhoi ar waith mewn ffordd ddefnyddiol. Sylweddolais hefyd fod angen i mi ddiweddarau fy sgiliau cyfrifiadurol ac rydych wedi cynnig ateb ar gyfer hynny hefyd. Fe es i i'r llyfrgell (fel yr awgrymoch chi) ac rwyf wedi cael cyngor i fynd i mewn ddydd Llun i ymuno ag unrhyw gyrsiau y gall fod eu hangen arnaf. Felly, diolch unwaith eto. Fe roddaf wybod i chi beth fydd y canlyniad."*

*"Dim ond gair i roi gwybod i chi bod fy nghais am grant ReAct wedi'i gymeradwyo. Rwyf wedi cael cyfraniad o £1500 tuag at gost yr hyfforddiant. Hoffwn ddiolch i chi am eich amser a'ch ymdrech yn gwneud i hyn ddigwydd."*

*"Diolch yn fawr iawn i chi am eich amser heddiw. Es i i'r swyddfa gyrfaedd heddiw mewn tipyn o banig ond rwyf wedi gadael mewn gwell hwyliau ac yn fwy cadarnhaol o lawer. Rwy'n teimlo bod gennyf gynllun da ar gyfer yr hyn rwyf eisiau ei wneud nesaf a sut mae cyflawni hynny."*

*"Diolch o waelod calon i chi am y cyfarwyddyd ardderchog a gefais gennych yn y cyfarfod ddoe! Roedd yn help mawr ac rwy'n ddiolchgar iawn. Os bydd angen rhagor o gyfarwyddyd arnaf yn y dyfodol, wnaif fi ddim meddwl ddwywaith cyn cysylltu â chi. Diolch eto."*


## 05/Darparu Gwasanaethau mewn Partneriaeth

Drwy gydol 2015-16, parhawyd i gydweithio'n helaeth â rhwydwaith eang o bartneriaid i gefnogi ein cleientiaid i sicrhau canlyniadau llwyddiannus ym myd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau arbenigol ar gael i gleientiaid yn y man lle mae eu hangen. Gan gydweithio'n agos â phartneriaid a datblygu prosesau sy'n cefnogi pawb, rydym wedi llwyddo i ddefnyddio ein hamser a'n hadnoddau yn y ffordd orau bosibl.

	<b>Drwy weithio gyda phartneriaid rydym wedi:</b>	<b>Llwyddwyd i:</b>
<b>Y farchnad lafur</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannu Data</li> <li>• Rhannu eiddo er mwyn darparu ein gwasanaethau</li> <li>• Cydgyflwyno sesiynau grŵp i gleientiaid</li> <li>• Hyrwyddo rhaglenni</li> <li>• Rhoi cymorth i ddysgwyr barhau gyda rhaglenni</li> </ul>	Adnabod y rhai sydd angen cymorth fwyaf a'r ffordd orau i ddarparu'r cymorth hwnnw. Osgoi dyblygu, sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn haws a'u bod yn ehangach eu cwmpas.
<b>Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu hyfforddiant ar y cyd rhwng sefydliadau partner a rhannu arferion gorau</li> </ul>	Gwella'r ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth o sefydliadau, eu rolau a'u manteision er mwyn darparu gwasanaethau o'r gwerth gorau i gleientiaid.
<b>Addysg</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytundebau partneriaeth</li> <li>• Cefnogi'r cwricwlwm</li> <li>• Hyfforddi Athrawon</li> <li>• Cysylltiadau rhwng addysg a busnesau</li> </ul>	Cwricwlwm byd gwaith mwy cyfoethog i ddysgwyr, cyd-destun bywyd-go-iawn ar gyfer dysgu, gwell ymwybyddiaeth a chryfhau dyheadau drwy gysylltiad â chyflogwyr.

Arolwg rhanddeiliaid Gyrfa Cymru (Wavehill Consulting 2015)

*Roedd pob grŵp o randdeiliaid yn gytŷn ei bod yn hawdd cysylltu â Gyrfa Cymru, ei fod yn deall anghenion pobl eraill, yn rhoi gwerth armynt ac yn eu parchu, ac yn cefnogi eu sefydliad yn effeithiol;*



- 215 o ysgolion uwchradd prif ffrwd
- 25 o ysgolion arbennig
- 4 o Wasanaethau Gwella Ysgolion Rhanbarthol
- Busnes yn y Gymuned
- Colegau Cymru
- Seicolegwyr Addysg
- Byrddau Iechyd Lleol
- Unedau Cyfeirio Disgyblion
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – Tîm Troseddau Ieuenctid

- 22 o Awdurdodau Lleol
- 14 o Golegau a Sefydliadau Addysg Bellach
- Yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES)
- Cyflogwyr
- Partneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi (RLP y De-ddwyrain)
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB RLP)
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru (RLSP)
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

- Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Canolfan Byd Gwaith (JCP)
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)
- Grŵp Cyngori Dysgu ar gyfer Troseddwyr (OLAG)
- Carchardai
- Cyngorau Sgiliau Sector
- Siambr Fasnach De Cymru
- Y trydydd sector a sefydliadau elusennol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Siambr Fasnach Gorllewin Sir Gaer a Gogledd Cymru
- Darparwyr dysgu seiliedig ar waith
- Y Gwasanaeth Ieuenctid

Dywedodd pob grŵp o randdeiliaid fod y newidiadau yng nghyllideb a chylch gwaith Gyrfa Cymru wedi effeithio er gwaeth ar eu sefydliadau, er bod y rhai a holwyd yn credu'n gyffredinol bod Gyrfa Cymru wedi rheoli'r gostyngiad yn y gyllideb yn dda.

Mae'r enghreifftiau isod, ynghyd â'r rhai a drafodwyd eisoes yn yr adrannau o'r adroddiad hwn sy'n ymwneud ag addysg a'r farchnad lafur, yn dangos dylanwad partneriaethau fel hyn o ran helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleientiaid.

## Cefnogi disgyblion ag ADY ac Ymwybyddiaeth o Anabledd

### Digwyddiad Hyderus ynghylch Anabledd

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar gyfer cyflogwyr gan Byron Davies AS, er mwyn eu hannog i ddod yn fwy "Hyderus ynghylch Anabledd" ac i ystyried cyflogi mwy o bobl anabl. Ein rôl o ran cefnogi'r digwyddiad oedd gweithio gyda chyflogwyr i helpu i oresgyn rhwystrau ac unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â chyflogi pobl anabl. Roedd dau gynghorydd yn bresennol a chafwyd adborth gwych.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) – swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol

Cysylltodd Llywodraeth Cymru â phob Awdurdod Lleol cyn y newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ADY (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd). Diben y llythyr oedd atgyfnerthu'r ymrwymadau o ran ceisiadau am gyllid preswyl o dan y system bresennol i gydweithwyr, a'u gwneud yn ymwybodol o'u rôl os a phryd y caiff y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ei basio.

Mae Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru wedi trafod yr Awdurdodau Lleol lle y gellid gwella'r berthynas weithio a'r systemau a'r prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn bwrw ymlaen â cheisiadau am gyllid preswyl. O ganlyniad, mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gydag Awdurdodau Lleol penodol, gan gynnwys cynrychiolwyr allweddol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru, i drafod y problemau a wynebwyd yn ystod blynyddoedd academaidd blaenorol. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn a dylai arwain at arferion gweithio diwygiedig i oresgyn yr heriau a wynebwyd yn y gorffennol.

## Cefnogi Oedolion

### Digwyddiad Uwch Gymhorthfa yn y Pwerdy, Llanedeyrn.

Syniad AS Canol Caerdydd, Jo Stevens, oedd hwn i gyflwyno'r gymuned leol i'r ystod o gyrrff cynghori a chymorth sydd ar gael iddynt. Cawsom adborth ardderchog gan ein partneriaid a phobl yn y gymuned a llwyddwyd i farchnata'r amrywiaeth o wasanaethau y gallwn eu cynnig i oedolion yn y gymuned ehangach.

## Canolfan Gyrfa y Rhyl yn ennill Gwobr y Ganolfan Byd Gwaith

Roeddem yn falch o gael y wobwr am "Bartner y Flwyddyn" ynghyd â'r wobwr "Syniad Gorau" am y gweithgaredd "Bwydo Dyfodol Prydain" gan Ganolfan Byd Gwaith y Rhyl. Mae'r wobwr yn cydnabod ein gwaith gydag oedolion di-waith a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

## Peilot Mentora 'Camau ar y Blaen' yn y gorllewin

Mae Gyrfa Cymru wedi creu partneriaeth â'r Sefydliad Siartredig Datblygu Personél fel pwynt cyfeirio ar gyfer eu Rhaglen Fentora 'Camau ar y Blaen'

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i gysylltu'r rhai 18-24 oed sy'n chwilio am swyddi ac sy'n 'barod am waith', ond sy'n methu â sicrhau cynnig swydd, gyda gweithwyr proffesiynol Adnoddau Dynol mewn amrywiaeth o fusnesau ar draws y gorllewin. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gallu cynnig cyfres o sesiynau mentora personol ar-lein, un-i-un sydd wedi'u cynllunio i ddarparu cyngor seiliedig ar y diwydiant i geiswyr swyddi ifanc.

## Digwyddiad i Unig Rieni, Caerdydd

Ym mis Hydref, cynhaliodd Gyrfa Cymru 'Ddigwyddiad i Unig Rieni' llwyddiannus iawn mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith yn y Ganolfan Gyrfa yng Nghaerdydd. Roedd y digwyddiad yn targedu unig rieni a gofalwyr a oedd yn hawlio budd-daliadau, a'r nod oedd darparu cyngor a chymorth i'r grwpiau hyn wrth iddynt ailymuno â'r farchnad lafur. Roedd ystod o asiantaethau eraill sy'n fedrus wrth helpu unig rieni a gofalwyr i ymuno â byd gwaith hefyd yn bresennol - gan gynnwys Pathway Care, Sova, Lift, VCS, Gingerbread, a chyngor am Ddyledion, Cymunedau yn Gyntaf, Chwarae Teg, Ymddiriedolaeth y Tywysog a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Daeth nifer dda i'r digwyddiad gyda mwy na 200 o unig rieni a gofalwyr yn bresennol ac yn manteisio ar gymorth gan yr amrywiaeth o asiantaethau a restrir uchod. Cawsom yr adborth a ganlyn gan reolwr partneriaeth y Ganolfan Byd Gwaith, Gaynor Williams;

*"Dim ond gair i ddweud Diolch o waelod calon i bawb am eich cefnogaeth i'r Ganolfan Byd Gwaith ar 15 Hydref ond yn anad dim am eich cymorth i ddangos yr amrywiaeth anhygoel o help sydd ar gael i'n cwsmeriaid yng Nghaerdydd.*

*Yn y pen draw, daeth 206 o gwsmeriaid drwy'r drws ac mae'r rhan fwyaf wedi rhoi adborth sy'n gadarnhaol iawn a'r rhan fwyaf wedi cael o leiaf un atgyfeiriad perthnasol neu ragor yn ei sgil a fydd yn help iddynt wrth iddynt fynd yn eu blaen. Rydym yn bwriadu parhau â'r cysylltiad hwnnw wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau ein bod yn gallu adeiladu'n gadarnhaol ar hyn..."*

## **'Gweithdai Cyflogadwyedd' Gyrfa Cymru mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith a Cymunedau yn Gyntaf**

Roedd y manwerthwr dillad Primark ar fin agor siop newydd yng nghanolfan siopa newydd Parc Brychdyn yn Sir y Fflint. Cysylltodd â'r Ganolfan Byd Gwaith i ofyn iddi gyfeirio cleientiaid at y cwmni am gyfweiliadau, ond sylweddolwyd bod angen cymorth gyda sgiliau cyflogadwyedd ar lawer o'r bobl hyn. Gofynnodd y Ganolfan Byd Gwaith a Cymunedau yn Gyntaf i Gyrfa Cymru hwyluso dwy sesiwn ar sgiliau cyfweiliad a hefyd i ddarparu hyfforddiant ar dechnegau ar gyfer cyfweiliadau grŵp gan fod hyn yn rhan o broses recriwtio Primark.

Daeth cyfanswm o 13 o gleientiaid i'r sesiynau dros y ddau ddiwrnod a chawsant help sylweddol gyda phynciau megis paratoi ar gyfer cyfweiliadau, technegau cyfweiliad, rhagweld cwestiynau posibl, help i oresgyn rhwystrau a meithrin hyder. Roedd llawer o'r cleientiaid hyn wedi bod yn ddi-waith ers tro. Mae ein gweithgareddau dilynol wedi dangos bod o leiaf 6 o'r rhai a oedd yn bresennol wedi llwyddo ers hynny i ennill contract gyda Primark, ac mae gweddill y cleientiaid hefyd wedi dod o hyd i swyddi erbyn hyn.

Oherwydd llwyddiant y diwrnodau hyn ar y cyd â'r Ganolfan Byd Gwaith, rydym bellach wedi cael cais i gynnal sesiwn debyg gyda chleientiaid y Ganolfan Byd Gwaith sy'n gobeithio cael gwaith yng Ngharchar Wrecsam.

## **Cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**

### **Dysgu Seiliedig ar Waith**

Mae Gyrfa Cymru wedi parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn y maes dysgu seiliedig ar waith i gefnogi cleientiaid y mae perygl iddynt roi'r gorau i'w hyfforddiant.

Soniodd Hyfforddiant Coleg Menai yn gadarnhaol am y cymorth yr ydym yn ei gynnig i bobl ifanc. Rydym yn sylweddoli bod gwell cyfle i ni gadw pobl ifanc ar raglenni hyfforddi drwy fynd i'r afael â phroblemau'n ddi-oed. Felly, cytunwyd ar broses i sylwi'n fuan ar broblemau ac fe'i rhoddwyd ar waith yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Trefnodd ein canolfan yng Nghaerdydd wib-ddigwyddiad wedi'i dargedu at bobl ifanc 16 ac 17 sy'n ddi-waith. Mae digwyddiadau fel hyn yn cynnig cyfle rhagorol i gleientiaid siarad yn uniongyrchol â darparwyr hyfforddiant lleol a Choleg Caerdydd a'r Fro er mwyn iddynt gael gwybod am gyfleoedd dysgu ôl-16. Cynigiodd y Cynghorwyr Gyrfa gyfarwyddyd a chymorth ac roedd cyfle hefyd i wneud cais uniongyrchol i'r coleg, Academi Sgiliau ACT, MPCT, Hyfforddiant ITEC, ISA gwallt a harddwch, Sefydliad Dinas Caerdydd ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Darparwyd sesiynau cyflogadwyedd hefyd gan Gynorthwyr Gyrfa drwy gydol y dydd.

Yn yr un modd, yn ein canolfannau yng Nghaerffili a'r Coed Duon, ac ar y cyd â'r Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu Lleol, trefnwyd digwyddiadau "Cyfleoedd am Oes" ym mis Hydref. Cynhaliwyd y digwyddiadau yng Nghanolfan Gyrfa Caerffili, Sefydliad y Glowyr yn y Coed Duon a Llyfrgell y Rhymni ar ddiwrnodau olynol ym mis Hydref. Yn cefnogi'r digwyddiadau roedd partneriaid o ACT, ITEC, Learnabout, Llamau, WCVA, ICE a Choleg y Cymoedd, a ddarparodd gynrychiolwyr i gynnig gwybodaeth am eu rhaglenni. Wedi'u targedu at bobl a adawodd yr ysgol yn 2015 heb ddim cyrchfannau hysbys a

chleientiaid sydd ar Haenau 1 a 2 ar hyn o bryd, roedd y digwyddiadau'n gyfle i gleientiaid drafod eu dyheadau personol gyda'r holl ddarparwyr mewn un lleoliad ar dir niwtral. Roedd cleientiaid a rhieni yn gallu trafod amrywiaeth o ddulliau cymorth y gellid eu cynnig i'w galluogi i gymryd rhan ac i chwalu rhwystrau. Roedd Cynghorwyr Gyrfa a Chymorthyddion Gyrfa ar gael hefyd i gynnig cymorth hanfodol i'r cleientiaid er mwyn iddynt wneud cynnydd ac ymgysylltu.

## Cefnogi pobl ifanc mewn addysg

### Ymwybyddiaeth o brentisiaethau yng Nghonwy

Cynhaliodd Gyrfa Cymru gyfres o weithdai gwybodaeth am brentisiaethau gyda dysgwyr 2016 a oedd yn ystyried yr opsiwn hwn cyn yr Wythnos Prentisiaethau. O blith 7 o ysgolion yr awdurdod, cymerodd 5 ran yn y digwyddiad. Nod y digwyddiad oedd helpu i roi gwybod i ddysgwyr am gyfleoedd posibl i gael prentisiaeth yn y dyfodol ar adeg pan oeddent yn dechrau gwneud penderfyniadau am eu dyfodol. Arweiniwyd y peilot gan Reolwr y Rhwydwaith 14-19 a'r Cydlynnydd Ymgysylltu â Phobl Ifanc mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, adrannau'r Awdurdod Lleol, darparwyr addysg a Dysgu Seiliedig ar Waith, a Cymunedau yn Gyntaf.

Cynhaliwyd y gweithdai ym mis Hydref ac roeddent yn cynnwys sesiynau ar beth yw prentisiaeth, ble i ddod o hyd i brentisiaethau a sut i wneud cais, gwneud penderfyniadau a chynllunio eich cyflogaeth. Roedd cyfle hefyd i gwrdd â chyflogwyr a phrentisiaid lleol.

Roedd yr adborth yn gadarnhaol a dywedodd y dysgwyr eu bod wedi'u harfogi'n well i gael gafael ar brentisiaeth ar ôl y sesiwn ryngweithiol dan arweiniad Gyrfa Cymru.

### Diwrnodau Pontio i Addysg Bellach

Yn ystod mis Awst, cyflwynodd Gyrfa Cymru ddau 'Ddiwrnod Pontio' i ddarpar fyfyrwyr ar gampws Llangefni a champws Bangor Grŵp Llandrillo Menai - Coleg Menai. Trefnwyd y gweithgareddau ar y cyd â Choleg Menai.

Trefnwyd y diwrnodau i gleientiaid Blwyddyn 11 yr oedd cynghorwyr ysgolion yn teimlo'u bod fwyaf tebygol o beidio â dod i'r coleg yn ystod yr wythnos gyntaf oherwydd gwahanol rwystrau, megis presenoldeb gwael yn yr ysgol, diffyg cyrhaeddiad yn yr ysgol, pryder a dyheadau afrealistig am eu gyrfa. Roedd pawb a gymerodd ran yn rhywun y nodwyd ei fod mewn perygl o ymddieithrio wrth adael addysg statudol ac yn cael ei fonitro gan y Cynghorydd Gyrfa wrth iddynt ddechrau Addysg Bellach. Mesurwyd yr effaith drwy edrych ar nifer y cyfranogwyr a ddaeth yno ar y diwrnod cyntaf, y nifer a gwblhaodd yr wythnos gyntaf a'r nifer a gwblhaodd y tymor cyntaf.

Roedd y diwrnod yn cynnwys sesiynau grŵp ar gylchoedd cyfforddus, y gwahaniaeth rhwng bywyd coleg a bywyd ysgol, sesiynau holi ac ateb am fywyd coleg a sut mae ymdopi â siomedigaethau, gweithgareddau ymgysylltu â chyfleusterau'r coleg wrth baratoi ar gyfer mis Medi, a'r cyfle i gwrdd â staff allweddol.

Arweiniodd y digwyddiad hwn at fanteision amlwg i gleientiaid. Ar ddechrau'r diwrnod, roedd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn nerfus ac yn swil, ond erbyn diwedd y dydd, roeddent wedi



gwneud ffrindiau newydd, rhai ohonynt ar yr un cwrs. Roeddent wedi cyfnewid rhifau ffôn ac yn trefnu i gyfarfod ar y diwrnod cyntaf er mwyn cefnogi ei gilydd. Roedd hyn yn fodd iddynt ddechrau gwella'u cysylltiadau rhwydwaith ar ôl dechrau yn y coleg, ac yn eu helpu i setlo yn y coleg a phoeni llai ar eu diwrnod cyntaf.

Roedd o fudd i'r coleg hefyd oherwydd ei fod yn lleihau'r risg y bydd dysgwyr ansicr yn rhoi'r gorau i'r ddarpariaeth neu o fethu â dechrau o gwbl. Pan ddilynwyd hyn y myfyrwyr hyn ar ôl y 4 wythnos gyntaf yn y coleg, roedd pawb a gymerodd ran yn y digwyddiad yn dal i fynychu'r coleg.

## Cyfarfodydd panel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid yn Sir Benfro

Cydlynwyd y cyfarfodydd hyn gan yr awdurdod addysg lleol, ac fe'u cynhelir ym mhob ysgol yn Sir Benfro. Cynhelir cynhadledd achos ar gyfer y disgyblion sy'n cael eu cyfeirio gan bob ysgol gan Bennaeth y flwyddyn / pennaeth cynhwysiant cymdeithasol). Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn dod i'r cyfarfodydd, ac mae cynghorwyr ysgolion yn bresennol hefyd i gyfrannu at drafodaethau ac argymhellion.

Cyflwynwyd y cyfarfodydd panel i grwpiau blwyddyn 7 - 11 o fis Medi ymlaen.

Drwy gyfrwng y cyfarfodydd hyn, llwyddwyd i weld pa ddisgyblion sydd uchaf eu blaenoriaeth a'u holrhain - sef y disgyblion hynny a fyddai fel arall wedi mynd ar goll yn y system o bosibl. Gan mai adolygiadau misol yw'r rhain, mae'r gweithwyr proffesiynol yn gallu rhoi gwybod i bawb am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cynnydd/diffyg cynnydd y disgyblion hyn, a sefydlu gweithwyr allweddol i sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol.

Yng nghyfarfodydd mis Gorffennaf, trafodwyd cymorth a gweithgareddau cysylltu dros yr haf i'r disgyblion 'blaenoriaeth uchaf', ac arweiniodd hyn at lai o gleientiaid risg uchel yn diflannu neu'n cael eu gadael yn gwneud dim, a gwelwyd mân welliannau yn y canlyniadau y llwyddwyd i'w cynnal ym mis Medi.

Y datblygiadau hyn fydd conglfeini cyfeiriadau am gymorth gan brosiect newydd, ac mae'n gam mawr ymlaen i nodi'r disgyblion 'blaenoriaeth uchel' drwy'r Sir, gallu darparu cymorth priodol, cyfannol ar eu cyfer, a sefydlu dull olrhain er mwyn sicrhau bod y cymorth hwn yn parhau drwy gydol y cyfnod pontio a'r tu hwnt.

## Cefnogi Gwasanaeth Ieuencid

Bu Cynghorydd Gyrfa yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu'n gweithio'n agos â'r Gwasanaeth Ieuencid i ddarparu sesiynau 'Inform Education' i'r "rhai sydd fwyaf tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant". Bu'n cefnogi'r rhaglen drwy sôn am ysgrifennu CV, mewnbwn ychwanegol wrth drafod opsiynau a meithrin hyder. Gwahoddwyd rhieni hefyd i brynawn o gyflwyniadau a chawsant gyfle i drafod eu cynlluniau fel teulu. Yn sicr, cafodd y cymorth hwn ddylanwad oherwydd llwyddodd pawb a oedd yn gadael Blwyddyn 11 a oedd yn wynebu'r risg fwyaf i sicrhau lle mewn AB gan ymdopi'n dda â'r cyfnod pontio. Mae'r Cynghorydd Gyrfa wedi bod mewn cysylltiad â'r disgyblion ac wedi monitro'u cynnydd hyd yn hyn.

## Cefnogi Ysgolion

### Cynhyrchu Dewislen o Wasanaethau ar gyfer Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Cynhyrchwyd cynllun drafft yn amlinellu'r hyfforddiant y gallwn a gynigir i ysgolion gan seilio hynny ar y sesiynau sydd fwyaf tebygol o fod o fudd i gydlynwyr gyrfa mewn ysgolion. Cynhyrchwyd dewislen o wasanaethau sy'n cynnwys manylion yr hyfforddiant sydd ar gael i ysgolion, a rhannwyd hwn drwy gyfarfodydd Ymgynghorwyr Marc Gyrfa Cymru gydag ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach, mewn fforymau Cydlynwyr, Sgiliau Cymru, Cyfarfodydd Rhwydwaith 14-19, cyfarfodydd y Cytundeb Partneriaeth, a chyda Swyddogion Cymorth Rhanbarthol CBAC, ac mae wedi'i lanlwytho i dudalen Gweithwyr Proffesiynol ar wefan Gyrfa Cymru.

## Cefnogi Awdurdodau Lleol

### Casnewydd Ar Waith

Roedd Cyngor Casnewydd wedi sefydlu prosiect a elwid yn 'Casnewydd ar Waith', gyda'r nod o gefnogi pobl sy'n gadael yr ysgol ac sy'n dymuno ymuno â'r farchnad lafur, drwy ddarparu lleoliadau gwaith. Arweiniwyd y gwaith o nodi'r cleientiaid y byddai'r prosiect yn gobeithio'u cefnogi gan Gyrfa Cymru, gan roi'r pwyslais ar y bobl hynny a adawodd yr ysgol yn 2014-15.

Adolygwyd ein data am gleientiaid ar gyfer Casnewydd gan weld y rhai a oedd, ar ôl cael cyfarwyddyd a chymorth cychwynnol gan eu Cynghorydd Gyrfa, bellach yn ystyried chwilio am swydd a chael cyflog yn ddewis cyntaf, ac nad oeddent yn dymuno ystyried hyfforddiant ar y pwynt hwnnw. Nodwyd hefyd y rhai a oedd yn dymuno defnyddio Twf Swyddi Cymru neu gael prentisiaeth. Yn ystod yr ymarfer cychwynnol hwn, nodwyd 35 o gleientiaid a chysylltwyd wedyn â'r rhain gan Gyrfa Cymru i drafod y cymorth a gynigir ac i wahodd y cleientiaid hynny i ddod i un o dair sesiwn 'ragarweiniol' a gynhaliwyd gan staff y prosiect er mwyn iddynt weld beth oedd ganddo i'w gynnig.

Daeth 29 o Gleientiaid i'r sesiynau hyn a chofrestrodd 25 ohonynt ar gyfer lleoliadau.

### Un Sir Gâr

Cefnogwyd sioe deithiol amlasiantaeth o amgylch lleoliadau yn yr ardal a chyfrannwyd ati. Roedd y sioe deithiol yn cynnig siop un stop i ddarparu gwybodaeth am Hyfforddiant, Cyflogaeth, Prentisiaethau, Gwirfoddoli ac opsiynau o ran Tai. Roedd y partneriaid yn cynnwys Coleg Sir Gâr, Remploy, Ymddiriedolaeth y Tywysog, y gymdeithas dai leol a'r cyngor.

## Cefnogi'r Ganolfan Byd Gwaith

Ym mis Awst, cynhaliodd Gyrfa Cymru a staff Canolfan Swyddi'r Wyddgrug ddigwyddiad cyn-cyflogi pedwar diwrnod ar y cyd ar gyfer Bragdy Marstons. Roedd Marstons ar fin agor safle newydd blaenllaw yn yr Wyddgrug ac wedi cynnig gwarant cyfswiliadau i nifer gyfyngedig o gleientiaid a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.

Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Gyrfa yr Wyddgrug a dewiswyd 12 o gleientiaid y Ganolfan Byd Gwaith gan staff y Ganolfan Gwaith i ddod i'r rhaglen ddechrau mis Medi. Cyflwynwyd gweithdy "Mae'r Argraff Gyntaf yn Bwysig" gan Gyrfa Cymru a gweithdy "Sgiliau Cyfweliad". Cynigiwyd hyfforddiant iechyd a diogelwch a hylendid bwyd hefyd i gleientiaid gan asiantaethau partner eraill.

Roedd yr adborth gan y cleientiaid yn dda iawn, yn enwedig i'r sesiwn 'Mae'r Argraff Gyntaf yn Bwysig'. Yn wobwr am ddod i'r rhaglen, gwarantwyd cyfweliad i'r cleientiaid ar gyfer y bwyty newydd.

Yn sgil y rhaglen hon, llwyddodd 8 o'r 12 fu'n ei dilyn i gael gwaith, 6 gyda Marstons eu hunain a 2 gyda chwmnïau eraill.

## Cefnogi Adfywiad Economaidd

Cynorthwyodd Gyrfa Cymru i sefydlu Grŵp Gwybodaeth Marchnad Lafur a Chyflogaeth Canol Dinas Casnewydd, oedd yn cynnwys Canolfan Byd Gwaith, Cyngor Dinas Casnewydd a Gyrfa Cymru. Daeth y grŵp ynghyd yn dilyn ymweliad gan staff â'r datblygiad siopa newydd ar Friar's Walk yng Nghasnewydd.

Roedd angen i randdeiliaid gydweithio i annog cyflogwyr i weithio gyda Gyrfa Cymru fel y prif bwynt cyswllt i leihau'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrechion rhwng sefydliadau tebyg lleol.

Rydym wedi'n gweithio'n arbennig o dda fel partneriaeth i sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n effeithiol ac y caiff gofynion recriwtio eraill eu cefnogi.

Rydym hefyd wedi llwyddo i gasglu GML leol ynglŷn â chwmnïau newydd sy'n adleoli i Gasnewydd a'u hanghenion staffio lleol yn ogystal â chasglu gwybodaeth gynnar ynglŷn â nifer o gwmnïau sydd ar fin cau. Mae hyn wedi ein helpu i baratoi ar gyfer anghenion yr economi leol a'u rhagweld, a'n galluogi i ymateb yn briodol a throsglwyddo'r wybodaeth berthnasol i gleientiaid fel rhan o'n gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd parhaus.

## Geirdaon gan randdeiliaid

Ebost yn dilyn lansio gwybodaeth am y farchnad lafur, golwg ar Fwyd a Ffermio, Tueddiadau Swyddi.

*"Dim ond nodyn byr i ddiolch i chi i gyd am gefnogi lansio'r wybodaeth newydd am yrfaedd ym maes Bwyd a Ffermio yn y Sioe Frenhinol yr wythnos diwethaf. Roedd yn braf iawn cael bod yn bresennol yn y lansiad ac mae'n amlwg bod y diwydiant yn croesawu'r gwaith rydych yn ei wneud.  
Sian Roberts-Davies, Rheolwr Datblygu Busnes, Lantra*

Enghraifft o'r adborth a gafwyd gan ysgol

*"Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am y gwasanaeth rhagorol y mae'r ysgol wedi'i gael gan Gyrfa Cymru eleni. Cafodd y staff a'r disgyblion fudd mawr yn sgil cael mynediad rheolaidd i gynghorydd gyrfa yn yr ysgol. Mae hyn wedi lleihau gofidiau nifer o rieni a gofalwyr wrth iddynt wynebu'r cyfnod pontio anodd rhwng yr ysgol a'r coleg. Mae gwerth y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn academaidd a phroffesiynoldeb eich cynghorydd ynghyd â'i dealltwriaeth o anghenion yr ysgol a'r disgyblion yn amhrisiadwy. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi y flwyddyn nesaf a gobeithiwn y gall y berthynas barhau i ddatblygu a ffynnu."*

## 06/Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gwneir cryn ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau Gyrfa Cymru yn cael eu darparu i unigolion mewn ffordd sy'n hybu cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r tablau isod yn dangos canran y cleientiaid sy'n manteisio ar y gwasanaeth yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabled.

### Oedran

Mae cynnydd amlwg wedi bod yng nghanran y rhai rhwng 25 a 60+ oed sy'n manteisio ar y gwasanaeth (o 10.7% yn 2014-15 i 25.50% yn 2015-16). Mae'n bosibl mai llwyddiant parhaus y Porth Sgiliau Unigol a lansiwyd ym mis Ionawr sy'n gyfrifol am gynnydd o bron 15%. Drwyddi draw, ledled Cymru, roedd y rhan fwyaf o'r cleientiaid a fanteisiodd ar wasanaethau Gyrfa Cymru, sef 32.09% o fewn ystod oedran ysgol statudol. Fodd bynnag, mae gostyngiad o dros 16% wedi bod yn nifer y cleientiaid mewn addysg statudol sy'n manteisio ar y gwasanaeth o 48.6% yn 2014-15, i 32.09% yn 2015-16. Y newid yn ffocws y ddarpariaeth yn yr ysgolion sy'n gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, mae canran y bobl ifanc 15-17 oed sy'n manteisio ar y gwasanaeth wedi cynyddu o 19.5% yn 2014-15 i 23.38% yn 2015-16. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y rhyngweithio â'r grŵp oedran hwn drwy ein gwasanaethau ar-lein.

	CYMRU
<b>Blwyddyn 11 Addysg Statudol</b>	32.09%
<b>Addysg Ôl-Statudol 15-17</b>	23.38%
<b>18-24</b>	19.02%
<b>25- 60+</b>	25.50%

### Rhyw

Mae ystadegau Cyfrifiad 2011 yn dangos mai cyfanswm poblogaeth Cymru yw 3.06 miliwn a bod 49% yn ddynion a 51% yn fenywod. Mae ffigurau 'Cymru Gyfan' Gyrfa Cymru ar draws yr holl gategoriâu oedran yn dangos bod mwy o ddynion na menywod mewn gwirionedd yn dal i fanteisio ar ein gwasanaethau. Adlewyrchir hyn ym mhob un o ranbarthau Gyrfa Cymru a gwelir gwahaniaeth mwy rhwng y dynion a'r menywod yn y categori oedran 25-60+ a gwahaniaeth arbennig o amlwg yn rhanbarth y gorllewin, sef dros 15%. Mae'r rhaniad cyffredinol rhwng dynion a menywod serch hynny yn unol â'r gyfradd gweithgaredd economaidd ar gyfer pobl 16-64 oed, a gofnodwyd ym mis Rhagfyr 2014, sy'n uwch ar gyfer dynion (78.9%) nag ar gyfer menywod (70.5%)

	CYMRU	
	% Dynion	% Menywod
<b>Blwyddyn 11 Addysg Statudol</b>	51.18	48.82
<b>Addysg Ôl-Statudol 15-17</b>	50.79	49.21
<b>18-24</b>	53.76	46.24
<b>25- 60+</b>	54.56	45.44

## Ethnigrwydd

Mae'r ganran fwyaf o gleientiaid sy'n defnyddio Gwasanaethau Gyrfa Cymru yn dal i ddweud eu bod yn Wyn/Prydeinig ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob rhanbarth ac ym mhob categori oedran. Roedd 5% o'r holl gleientiaid sy'n defnyddio ein gwasanaeth drwy Gymru yn dweud eu bod yn perthyn i grwpiau ethnig eraill, a'r canrannau mwyaf ar gyfer pob categori oedran bellach wedi'u lleoli yn rhanbarth y De Canol. Mae hynny'n wahanol i'r sefyllfa yn y flwyddyn flaenorol sy'n dangos mai yn rhanbarth y de-ddwyrain yr oedd y ganran fwyaf ar gyfer pob categori oedran a oedd yn dweud eu bod yn perthyn i grwpiau ethnig eraill. Y rheswm dros hyn yw bod dosbarthiad rhanbarthol awdurdodau lleol ar gyfer ffiniau Gyrfa Cymru wedi newid, gyda a Chaerdydd bellach yn dod o dan ranbarth y De Canol.

Cleientiaid mewn Addysg Statudol	CYMRU %	Y Gogledd* %	Y Gorllewin* %	Y De-ddwyrain* %	De Canol* %
Gwyn Seisnig/Cymreig /Albanaidd/Gwyddelig/Prydeinig	25.74	31.02	28.20	22.07	22.43
Gwyddelig Gwyn neu Arall	0.82	1.23	0.94	0.67	0.67
Grwpiau Ethnig Eraill	1.51	0.82	1.29	1.10	2.38
Dim gwybodaeth am ethnigrwydd	4.0	2.37	5.15	7.80	1.74

Addysg Ôl-Statudol 15-17	CYMRU %	Y Gogledd %	Y Gorllewin %	Y De-ddwyrain %	De Canol %
Gwyn	18.29	17.48	17.62	18.38	19.33
Gwyddelig Gwyn neu Arall	0.64	0.62	0.46	0.68	0.78
Grwpiau Ethnig Eraill	1.72	0.54	0.85	1.89	3.11
Dim gwybodaeth am ethnigrwydd	2.74	2.10	2.74	5.27	1.62

18-24 Oed	CYMRU %	Y Gogledd %	Y Gorllewin %	Y De-ddwyrain %	De Canol %
Gwyn	16.02	15.35	17.75	15.22	15.41
Gwyddelig Gwyn neu Arall	0.56	0.81	0.38	0.40	0.67
Grwpiau Ethnig Eraill	0.83	0.53	0.63	0.70	1.28
Dim	1.16	1.65	1.40	1.17	2.04

<b>gwybodaeth am ethnigrwydd</b>					
----------------------------------	--	--	--	--	--

<b>25 + Oed</b>	<b>CYMRU</b>	<b>Y Gogledd</b>	<b>Y Gorllewin</b>	<b>Y De-ddwyrain</b>	<b>De Canol</b>
	%	%	%	%	%
<b>Gwyn</b>	15.79	16.25	14.49	17.41	15.65
<b>Gwyddelig Gwyn neu Arall</b>	1.31	2.13	1.11	0.97	1.33
<b>Grwpiau Ethnig Eraill</b>	0.95	0.51	0.82	1.05	1.29
<b>Dim gwybodaeth am ethnigrwydd</b>	7.45	6.57	6.36	5.22	10.32

## Anabledd

Mae canran Cymru gyfan o 13.6% o 'gleientiaid sy'n flaenoriaeth' sy'n defnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru yn dweud eu bod yn anabl, a chyfanswm o 23% o'r holl gleientiaid o oedran gweithio'n dweud eu bod yn anabl. Mae'r ganran hon yn cymharu'n ffafriol ag ystadegau Llywodraeth Cymru sy'n dangos bod 20% o oedolion o oedran gweithio yn byw gydag anabledd, 14.8% gydag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a 5.4% ag anabledd nad yw'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

	<b>CYMRU</b>	<b>Y Gogledd</b>	<b>Y Gorllewin</b>	<b>Y De-ddwyrain</b>	<b>De Canol</b>
	%	%	%	%	%
<b>Addysg Statudol Blwyddyn 11</b>	2.74	1.94	2.79	3.43	2.87
<b>Addysg Ôl- Statudol 15-17</b>	4.47	4.99	4.69	5.65	3.27
<b>18-24 Oed</b>	9.10	8.10	10.08	11.55	7.48
<b>25 - 60 + oed</b>	9.54	4.93	8.89	9.87	12.43

\*Mae'n bosibl rhannu'r rhanbarthau'n ardaloedd Awdurdodau Lleol fel a ganlyn:

Y Gogledd - Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam  
Y Gorllewin – Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys  
Y De-ddwyrain - Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Caerffili  
De Canol – Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Caerdydd, Bro Morgannwg

## 07/Cefnogi ein Staff

Mae 2015-16 wedi bod yn flwyddyn brysur eto o ran Dysgu a Datblygu i Gyrfa Cymru.

Bu ein cydweithwyr ym maes Gwella Busnes<sup>2</sup> yn cydweithio'n agos ag Academi Cymru<sup>3</sup> i ganolbwyntio rhagor ar wella'r sefydliad yn barhaus. Dilynodd dau aelod o'r Gyfarwyddiaeth Gwella Busnes y cwrs Ymarferydd Gwella Parhaus a darparwyd gweithdai byr ganddynt hefyd ar thema gwelliant parhaus i'w cydweithwyr ac i'r Uwch Dîm Rheoli. Buom hefyd ym mhedwaredd Cynhadledd Gwelliant Parhaus Flynyddol Cymru Gyfan a gynhaliwyd gan Academi Cymru ym mis Tachwedd lle y daeth siaradwyr a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus o bob rhan o Gymru ynghyd a oedd â diddordeb mewn gwelliant parhaus. Aeth dau uwch gydweithiwr hefyd i Ysgol Aeaf Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan yr Academi yn 2016.

Eleni, rhoddwyd rhagor o bwyslais ar ddarparu hyfforddiant yn fewnol lle roedd modd, yn ogystal ag ar ddarparu'r hyfforddiant hwnnw drwy wahanol sianelau, er enghraifft, rhagor o ddefnydd o weminarau. Ein Cydlynwyr Dysgu ac Asesu a'n Rheolwyr Gwella Busnes sydd wedi cynnal y rhan fwyaf o'r hyfforddiant mewnol hwn.

### Hyfforddiant Achrededig

Yn ystod 2015-16, mae'r Ganolfan Achredu yn Gyrfa Cymru wedi cefnogi'r staff i sicrhau'r cymwysterau achrededig a ganlyn:

- > cymorthyddion gyrfa yn cwblhau NVQ3 mewn Cyngor a Chyfarwyddyd (dyfarniad llawn)
- > 3 chynghorydd gyrfa wedi sicrhau lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd (dyfarniad llawn)
- > 38 o gynghorwyr gyrfa yn cwblhau eu hunedau uwchsgilio lefel 6<sup>4</sup>
- > Sicrhawyd 1 cymhwyster IQA (Sicrhau Ansawdd yn Fewnol);
- > Hawliwyd yr uned uwchsgilio ar gyfer y cymhwyster asesydd.

Cofrestrwyd 9 o gynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant ar gyfer lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd yn 2015-16. Dilynwyd rhaglen hyfforddi 3 mis ar y wybodaeth a'r sgiliau i ategu eu cymhwyster.

Er mwyn helpu i gwblhau'r hyfforddiant achrededig:

- > Cofrestrwyd 2 Gydlynnydd Asesu Dysgu ar gyfer Dyfarniad lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith;
- > Cofrestrwyd 2 Gydlynnydd Asesu Dysgu ar gyfer y Dyfarniad lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol.

Wrth baratoi i ddarparu gwasanaethau 'Rhoi Eich Potensial ar Waith' a noddir gan Gronfeydd

<sup>2</sup> Cyfarwyddiaeth Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am ansawdd, safonau a dysgu a datblygu.

<sup>3</sup> Academi Cymru yw'r ganolfan ragoriaeth ar gyfer gwella a rheoli gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd Academi Cymru ym mis Medi 2012, ac mae'n rhan o bortffolio Ysgrifennydd y Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet.

<sup>4</sup> Dyma'r unedau a nodir gan y Sefydliad datblygu Gyrfa (CDI) i "uwchsgilio" cynghorydd gyrfa o NVQ Lefel 4 I QCF Lefel 6 neu gymhwyster cyfatebol



Strwythurol Ewrop, fel rhan o raglenni sy'n cael eu nodd'i'n rhanbarthol mewn ysgolion, cymerodd cynghorwyr gyrfa ran mewn amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi i'w paratoi. Cynhaliwyd wyth o sesiynau drwy Gymru i hyfforddi 126 o staff i ddatblygu Partneriaethau Cadarnhaol i wella'r gallu i werthu manteision y maes newydd hwn a datblygu partneriaethau effeithiol gydag ysgolion. Darparwyd naw diwrnod o hyfforddiant hefyd i 123 o staff i'w helpu i baratoi i weithio gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 3 fel rhan o'r agwedd 'hyfforddi 7-11' o fewn Sbardun, o gofio nad yw disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 wedi bod yn elfen fawr o waith Gyrfa Cymru yn y blynyddoedd diwethaf.

At hynny, ac er mwyn cefnogi elfen profiad gwaith y rhaglen, dilynodd 17 o Gynghorwyr Cyswllt Busnes hyfforddiant y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH).

I ategu ein gwaith gyda chleientiaid a allai fod yn wynebu rhwystrau sylweddol yn eu bywydau, cafodd 63 o gynghorwyr hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gyffuriau ac mae 85 o staff o bob rhan o'r cwmni wedi cael eu hyfforddi ym maes Iechyd Meddwl Pobl Ifanc.

Mae nifer o weithgareddau pwysig wedi'u cynnal i gefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus cynghorwyr i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd o ansawdd da. Darparwyd pedwar gweithdy Cyfweld Cymelliannol gan ddarparwr allanol a bu tri o'n Cydlynwyr Dysgu ac Asesu ar gwrs deuddydd ym mis Mehefin. Rhaeadrwyd yr hyfforddiant hwn wedyn i staff ar ffurf gweithdai a ddarparwyd gan y Cydlynwyr hyn.

Bu 48 o'r staff yn dilyn hyfforddiant gwaith grŵp gyda darparwr allanol.

Mae nifer o weithdai Diogelu wedi'u cynnal ar ffurf rhaglen dreigl ar draws y cwmni, dan arweiniad darparwr allanol, i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llwyr bob amser â pholisi diogelu'r cwmni.

Darparodd Afasic bedair sesiwn hyfforddi (un ym mhob rhanbarth) i 51 o gynghorwyr ar weithio gyda chleientiaid ag anawsterau lleferydd ac iaith.

Mae dros 400 o'r staff wedi dilyn modiwl hyfforddi ar-lein ynghylch Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth. Rydym wedi cydweithio'n agos ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) Cymru i ddarparu'r hyfforddiant hwn ac erbyn hyn rydym yn cael ein cydnabod yn sefydliad sy'n Ymwybodol o Awtistiaeth.

Dywedodd Johanna Manikiza, Arweinydd Datblygu Cenedlaethol ASD:

*"Mae ASD Info Cymru yn falch iawn gyda'r ffordd y mae Gyrfa Cymru wedi ymgysylltu â'r cynllun Gweithio gydag Awtistiaeth - rydym wrth ein bodd gyda'r canlyniadau. Mae'r ymrwymiad gan y staff wedi bod yn anhygoel, mewn ychydig fisoedd byr mae bron 700 o staff wedi ymgymryd ag un o ddau fodiwl codi ymwybyddiaeth wedi'u lefelu er mwyn cynyddu gwybodaeth a hyder wrth weithio gydag unigolion ag ASD. Rwyf wedi gweithio gyda llawer o sefydliadau yn rhinwedd fy swydd fel Arweinydd Cenedlaethol, a hyd yma Gyrfa Cymru sydd wedi dangos yr ymroddiad mwyaf o lawer o ran yr awydd i ddatblygu eu gwybodaeth am ASD. Rwyf mor falch gyda chanlyniad y darn hwn o waith nes i mi ofyn i'm cydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru hysbysu'r Gweinidogion am yr enghraifft hon o arfer ardderchog yn ystod eu cyfarfod briffio nesaf." Mis Medi 2015*

Cafodd chwe aelod o'r staff hyfforddiant cyfryngau ym mis Awst 2015 i'w paratoi ar gyfer cyfnod canlyniadau'r arholiadau pan fyddwn yn cael nifer sylweddol o geisiadau am gyfweiliadau gan sefydliadau'r cyfryngau, gan gynnwys teledu a radio.

Mae cydweithwyr ym maes Cyllid, Adnoddau Dynol a TGCh wedi cael ystod eang o hyfforddiant i'w galluogi i barhau i helpu'r cwmni i gyflawni ei ddyletswyddau a chefnogi staff o bob rhan o'r sefydliad i geisio gwella'n barhaus y gwasanaethau y byddwn yn eu darparu ar gyfer ein cleientiaid. Aeth ein cydweithwyr Cyllid ac Adnoddau Dynol i nifer o gynadleddau gan gynnwys:

- > Cynhadledd flynyddol ACAS, Caerdydd;
- > 'Dyfodol Prentisiaethau yng Nghymru', Caerdydd;
- > Cynhadledd Marchnata i Bobl Ifanc yn Llundain;
- > Cynhadledd ACCA, Caerdydd;
- > Seminar Fforwm Polisi Cymru, Caerdydd;
- > 'Materion Treth Cyfoes', Abertawe;
- > 'Effaith y rheoliadau newydd am gontractau cyhoeddus', Caerdydd;
- > 'Deall Budd-daliadau Ymddeol', Caerdydd;
- > 'Meistroli Metrics Marchnata', Caerdydd.

Mae Gyrfa Cymru yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad ei staff. Rhoddwyd cymorth eleni, er enghraifft, i aelod o'r Tîm Marchnata sy'n dilyn cwrs blwyddyn i ennill Tystysgrif Marchnata CIM, i dri aelod o'r staff sy'n cael cymorth gan y sefydliad i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i gynghorydd sy'n dilyn cwrs MA mewn AAA.

### **CDI (y Sefydliad Datblygu Gyrfa)<sup>5</sup>**

Mae'r cwmni'n cefnogi pob cynghorydd i ddod yn aelod o'r Sefydliad Datblygu Gyrfa ac mae gofyn iddynt hefyd gofrestru ar Gofrestr Broffesiynol y Deyrnas Unedig. Eleni, cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol y CDI yng Nghaerdydd a chefnogodd y staff y gynhadledd drwy osod stondin yno a chynnig gweithdy i'r cynadleddwyr dan y teitl "Rheoli Gyrfa - Gweithdy Ymarferol i Ddadansoddi eich Anghenion o ran Rheoli Gyrfa".

Yn y gynhadledd genedlaethol, enwebwyd Gyrfa Cymru yn y categori Cyflogwr Gorau - Arferion Datblygu Gyrfa ar gyfer "Cefnogi Datblygiad Staff" ac yn y categori Cyflogwr Gorau - Datblygu a Chefnogi Pobl Ifanc ar gyfer y "Model Cysylltu Pum Haen". Enillwyd y wobwr am yr ail gategori hwn gan Ddinas a Sir Abertawe am y prosiect 'Cadw mewn Cysylltiad'. Mae Gyrfa Cymru yn cefnogi'r prosiect hwn drwy ailddyrranu dau aelod o staff i'r prosiect, gan gynnwys Rheolwr y Prosiect.

---

<sup>5</sup> CDI yw'r corff proffesiynol cenedlaethol cydnabyddedig sy'n cynrychioli'r sawl sy'n gweithio i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd

## 08/Y Gymraeg

Mae Cynllun Iaith Gymraeg CCDG yn ei gam gweithredu a bydd ar waith am dair blynedd, sef 2014-2017. Mae'r cynllun yn sôn am ein hymrwymiaidau i sicrhau bod yr egwyddorion a sefydlwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cael eu rhoi ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn ystod 2015 - 2016, yn dilyn y broses ymchwilio i safonau, cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 sy'n berthnasol i CCDG wedi'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn sgil y bleidlais hon, ni all Comisiynydd y Gymraeg gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio ar hyn o bryd yn manylu ar y safonau penodol y mae gofyn i CCDG gydymffurfio â hwy.

Rydym wedi parhau i weithio tuag at gyflawni'r camau y cytunwyd arnynt yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys:

- > darparu cyfleusterau ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg gan ddefnyddio amrywiaeth o sianelau, gan gynnwys ein gwasanaeth dros y ffôn, ein gwefan - gyrfacymru.com, cyfryngau cymdeithasol, sgwrs ar-lein, ebost a negeseuon testun;
- > datblygu arferion a gweithdrefnau mewnol i'n helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gweithrediadau beunyddiol yn y gweithle;
- > datblygu adnoddau dwyieithog sy'n darparu gwybodaeth am yrfaedd a'r farchnad lafur a hyrwyddo'r sgiliau Gymraeg sy'n ofynnol yn y farchnad lafur.

<http://www.careerswales.com/cy/golwg-ar-dwristiaeth-lletygarwch-a-hamdden/>

Mae CCDG yn dal i weithio tuag at gyflawni cynllun gweithredu 2014 - 2017 sy'n rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg.

## 09/Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae CCDG yn cydnabod bod ei ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau'n cael dylanwad cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n dymuno rheoli'r rhain a sicrhau eu bod yn gwneud cyn lleied o niwed ag y bo modd. Er mwyn ein helpu i gyrraedd y nod hwn, rydym wedi rhoi Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar waith, safon sy'n cael ei harchwilio'n annibynnol. Ar hyn o bryd mae CCDG wedi sicrhau Lefel 2 y dyfarniad. Ar ôl cyflwyno'r safon i'r ystâd i gyd yn 2015-16, mae 30 o swyddfeydd yn dod o fewn cwmpas meini prawf y dyfarniad.

Mae ein hegwyddorion cyffredinol i'w gweld yn ein polisi amgylcheddol a rhoddir y rhain ar waith a'u monitro drwy ddefnyddio system rheoli'r amgylchedd.

### Sut y byddwn yn rheoli'r broses

Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwella ein proses o reoli'r effaith a gawn ar yr amgylchedd yn barhaus. Er mwyn hwyluso'r gwelliant hwn, mae ein swyddfeydd i gyd bellach yn gyfrifol eu hunain am weithredu system rheoli'r amgylchedd. Mae hyn wedi golygu bod pob swyddfa wedi gallu sefydlu cod eco unigryw sy'n gweddu orau i'r amgylchedd lle mae'n gweithio a phennu gostyngiadau y mae modd eu cyflawni o ran yr adnoddau y byddant yn eu rheoli. Bydd data monitro ar y nwy, y trydan a'r dŵr a ddefnyddir a data am weithgaredd teithio'r staff yn cael eu casglu bob mis. Rhoddwyd y cyfrifoldeb cyffredinol i dri o'r staff yn yr adran gyfleusterau am ddadansoddi'r data ac archwilio'r deg swyddfa sydd dan eu rheolaeth bob chwe mis.

Mae'r holl ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i Gyrfa Cymru wedi'u dogfennu yn y Gofrestr Gyfreithiol Amgylcheddol sy'n cael ei diweddarau bob chwe mis. Bydd yr holl nodiadau trosglwyddo gwastraff, asesiadau risg COSHH a thafleuni cynhyrchion MSD yn cael eu cadw ar lefel leol ac yn cael eu gwirio yn ystod archwiliadau mewnol. Mae'r agweddau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol yn cael eu dogfennu yn y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol. Er mwyn ymateb i gyfarwyddyd cenedlaethol Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, 'Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned' ynghyd â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi nodi'r gweithgareddau hynny sy'n cynhyrchu nwyon tŷ gwydr. Rydym wedi nodi dau faes: Carbon deuocsid yn sgil teithio a defnyddio ynni.

### Perfformiad Amgylcheddol

Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i ni lwyddo i gasglu data am allyriadau CO<sub>2</sub>, defnyddio ynni a milltiroedd busnes a chyhoeddir y rhain isod er mwyn i ni allu adrodd ar ein perfformiad a'i fesur yn y blynyddoedd sydd i ddod.

	2014-2015	2015-2016
Dŵr (Litrau)	2,990,000	3,399,000
Milltiroedd Busnes	1,184,887	895,771
Trydan khw	1,014,928	1,179,211
Nwy khw	1,945,909	2,064,155
Nwyon tŷ gwydr tunelli o CO2	1,231	1,268
Costau ariannol	£	£
Nwy	40,454	35,578
Trydan	157,573	142,111
Dŵr	20,026	16,437

Er i ni fwriadu lleihau ein hallyriadau CO2 o'i gymharu â'r llynedd, mewn gwirionedd gwelwyd cynnydd o 3%, oherwydd i ni ddefnyddio mwy o nwy a thrydan. Gwelwyd cynnydd hefyd o 14% yn y dŵr a ddefnyddiwyd gennym. Y prif reswm dros y cynnydd oedd i ni roi ein strategaeth ystadau 5 mlynedd ar waith. Mae hyn wedi golygu symud swyddfeydd a'n bod yn gallu casglu data monitro ychwanegol am ddefnyddio ynni a dŵr. Rydym hefyd wedi gosod mesuryddion dŵr mewn rhai o'r adeiladau sy'n golygu bod gan y cwmni well data i fonitro faint sy'n cael ei ddefnyddio. Bydd hyn hefyd yn arbed costau. Gwelwyd gostyngiad o 24% yng nghanran y milltiroedd busnes oherwydd bod 103 o staff wedi gadael y gweithlu. Un o amcanion y strategaeth ystadau yw gwella ein hystâd. Bydd hyn yn cael effaith lesol ar y dŵr a'r ynni a ddefnyddiwn. Yn sgil deall yn well yr effaith a gawn ar ein hamgylchedd, ein bwriad yw cyflwyno gwelliannau ym maes defnyddio ynni ac allyriadau CO2.

# 10/Datganiadau Ariannol

Mae datganiadau ariannol CCDG ar gyfer 2015-2016 wedi'u paratoi yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol ac wedi'u harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw ac uniondeb gwefan Career Choices Dewis Gyrfa; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn ymwneud ag ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu rhoi ar y wefan yn wreiddiol.

# 11/Edrych i'r Dyfodol

Rwy'n/rydym yn gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi rhoi blas i chi o waith ac effaith Gyrfa Cymru, yn ystod dim ond ein trydedd flwyddyn fel cwmni sy'n gwasanaethu Cymru gyfan. Rydym yn falch o'n llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod cyfnod o newid sylweddol, cwtogi ac ansicrwydd. Wrth i'r sefydliad aeddfedu, gyda mwy o sefydlogrwydd ac eglurder ynghylch ein diben, rydym yn hyderus y gallwn wneud cyfraniad cryfach fyth.

Yn hydref 2016 byddwn yn cyflwyno Gweledigaeth Strategol newydd ar gyfer Gyrfa Cymru i Lywodraeth Cymru. Bydd yn dangos sut y gallwn gefnogi nod Llywodraeth Cymru o sicrhau Cymru fwy llewyrchus, iach ac uchelgeisiol.

Caiff y weledigaeth ei chyflawni gan staff proffesiynol a diduedd gan ddefnyddio technoleg a dulliau arloesol. Yn seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau rhyngwladol, ac wedi'i llywio gan farn rhanddeiliaid a dinasyddion, rydym yn rhagweld y bydd nodweddion allweddol y Weledigaeth Strategol hon yn cynnwys:



Alinio ein gwaith gyda pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru, megis Dyfodol Llwyddiannus, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r addewid i gynyddu nifer y prentisiaid

Gwasanaethau dwyieithog i bob oedran – gyda ffocws cryfach ar helpu pobl ifanc drwy gyfnodau pontio allweddol



Dull 'cyfunol' newydd o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bobl ifanc a rhoi'r 'Model Darganfod Gyrfa' ar waith sy'n cyfuno offer digidol, amryw o sianeli a Chyfarwyddyd Gyrfa proffesiynol

Ystod newydd o wasanaethau cymorth i sefydliadau partner



Mwy o integreiddio gwasanaethau er mwyn manteisio ar arbedion maint a chwmpas, fel bod y cyfan yn fwy na swm ei rannau

Gwell cysylltiadau â busnes yn seiliedig ar y wybodaeth orau a diweddaraf am y Farchnad Lafur; a ffocws cliriach ar ddulliau mesur effaith a pherfformiad



# Rhestr Termau


ADY	Anghenion dysgu ychwanegol
Bagloriaeth Cymru	Cymhwyster wedi'i achredu a'i sefydlu'n swyddogol a ddarperir gan ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ledled Cymru yw Bagloriaeth Cymru
CAP	Prosbectws Ardal Gyffredin. Rhestr lawn o'r holl gyfleoedd addysg ar gyfer blynyddoedd 12 a 13 sydd ar gael ar gyrfacymru.com wedi'i hanelu at fyfyrwyr.
Career Check	Ymchwil a wneir gan Gyrfa Cymru ymhlith disgyblion i bennu ble maent arni o ran cynllunio eu dyfodol
CIAG	Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaedd
CYD (EPC)	Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu
Cyfnod Allweddol 4 (KS4)	Cyfnod Allweddol 4 yw'r term cyfreithiol ar gyfer y ddwy flynedd o addysg ysgol sy'n cynnwys TGAU, ac arholiadau eraill, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru—fel arfer, cânt eu hadnabod fel Blwyddyn 10 ac 11 yng Nghymru, pan fydd disgyblion rhwng 14 ac 16 oed.
Cyfrifiad o Hynt Disgyblion	Yr arolwg blynyddol o ymadawyr ysgol a gynhelir gan Gyrfa Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, yn rhoi ciplun defnyddiol o gyrchfannau disgyblion ar ôl gadael yr ysgol sy'n llywio staff gyrfaedd yn eu gwaith gyda chleientiaid, rhieni, athrawon a chyflogwyr.
Cymunedau yn Gyntaf	Rhaglen Trechu Tlodi â Ffocws ar y Gymuned gan Lywodraeth Cymru yw Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo'r bobl fwyaf difreintiedig yn ardaloedd mwyaf amddifad Cymru, gyda'r nod o gyfrannu at leddfu tlodi parhaus.
Darpariaeth Haen 2	Darpariaeth ar gyfer cleientiaid Haen 2 ar y Model Ymgysylltu 5 Haen. Fe'u dosberthir fel Pobl Ifanc nad ydynt yn gallu mynd i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth oherwydd, e.e. afiechyd, cyfnod yn y ddalfa.
Dosbarth Busnes	Rhaglen lwyddiannus sy'n adeiladu partneriaethau parhaol rhwng busnesau ac ysgolion yw Dosbarth Busnes. Mae'r partneriaethau hynny wedi'u seilio'n gadarn ar anghenion yr ysgol a blaenoriaethau'r busnes



Dysgu yn y gwaith	Rhaglenni ar gyfer myfyrwyr uwchradd ac ôl-uwchradd sy'n darparu cyfleoedd i gyflawni cymwyseddau'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y gweithle. Ymgymerir â dysgu yn y gwaith yn aml i gydfynd â dysgu yn yr ystafell ddosbarth neu ddysgu cysylltiedig, a gall fod ar ffurf lleoliadau gwaith, profiad gwaith, mentora yn y gweithle, cyfarwyddyd mewn cymwyseddau cyffredinol yn y gweithle a chyfarwyddyd eang ym mhob agwedd ar ddiwydiant.
EEF	Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant.
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yw prif offeryn ariannol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cefnogi cyflogaeth yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â hyrwyddo cydlyniant economaidd a chymdeithasol.
Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn	Caiff y fframwaith arolygu cyffredin ei ddefnyddio ar gyfer yr holl arolygiadau o ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF)	Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
GCA (EAS)	Gwasanaeth Cyflawni Addysg
Gwasanaeth Paru Prentisiaethau (AMS)	System recriwtio rhad ac am ddim ar-lein sy'n helpu cyflogwyr ddod o hyd i ymgeiswyr addas ar gyfer prentisiaethau a chyfleoedd i brentisiaid uchelgeisiol mewn busnes sy'n iawn iddyn nhw.
IO	Cronfa ddata gwybodaeth cleientiaid Gyrfa Cymru.
LANTRA	Lantra yw'r Gwasanaeth Sgiliau Sector ar gyfer diwydiannau'r tir a diwydiannau amgylcheddol.
Aethom ati i ddylunio a gweithredu ymgyrch yn y cyfryngau i gefnogi lansio'r Adroddiad Blynyddol. Roedd hyn yn cynnwys ffilm, a gyflawnodd lawer iawn o gyhoeddusrwydd cadarnhaol ac a greodd ddadlau a thrafod yn y cyfryngau. Cyfrannodd y defnydd o Twitter yn sylweddol at ddadlau a thrafod cyhoeddus, ac anogodd sylwadau gan gynulleidfa eang, gan gynnwys gweithwyr addysg proffesiynol, undebau athrawon, consortia ac aelodau'r cyhoedd.

### **Datblygu arweinyddiaeth wasgaredig trwy rolau Arolygwyr Arweiniol / Swyddogion Arweiniol / Arolygwyr Cyswllt**

Mae Estyn wedi sefydlu perthynas weithio adeiladol gyda phob awdurdod lleol trwy barau o arolygwyr cyswllt. Mae gweithio mewn parau wedi lleihau'r risg y byddwn yn colli cysylltiad ag awdurdod os bydd arolygydd i ffwrdd o'r gwaith neu'n gadael y sefydliad. Yn ystod 2015-2016, cynhaliom arfarniad parhaus o bob awdurdod lleol; crynodebau byr dwy dudalen o'n barn ddiweddaraf am yr awdurdod yw'r rhain, ac maent yn gymorth i lywio cyfarfodydd trwy gydol y flwyddyn rhwng PAEM ac uwch aelodau staff gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Fel rhan o'r drefn, mae Estyn wedi:

- dadansoddi a dehongli data perfformiad ac adroddiadau arolygu, a defnyddio hyn yn effeithiol i herio awdurdodau lleol ynglŷn â'u darpariaeth
- monitro perfformiad a chynnydd darparwyr yn erbyn cynlluniau gweithredol ôl-arolygiad, ac wedi mynd ar drywydd pryderon penodol gan arolygwyr cofnodol gydag awdurdodau lleol ar gyfer darparwyr lle nad yw'r cynnydd yn ddigon da

- wedi mynd ar drywydd materion penodol gyda darparwyr lle bo'n briodol
- wedi anelu at nodi arfer orau, er bod yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gwaith Arolygydd Cyswllt Awdurdod Lleol (ACALI) yn gwneud hyn yn her

Trwy gydol 2015-2016, fe wnaethom gadw cyswllt parhaus gydag arolygiaethau, archwilwyr a rheoleiddwyr eraill. Mae hyn wedi arwain at weithgarwch arolygu ar y cyd mewn ychydig o awdurdodau lle'r oedd diddordeb cyffredin mewn agwedd ar waith yr awdurdod lleol. Hefyd, fe wnaethom ddrafftio arfarniad o berfformiad ysgol, sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob awdurdod lleol.

Rhoesom gyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu consortia rhanbarthol, ac un effaith allweddol oedd diwygio'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Hefyd, aethom ati i adolygu rolau'r swyddogion arweiniol mewn perthynas â'r cwricwlwm ac ailgyfeirio'r adnodd hwn i gynorthwyo datblygu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, gan gynnwys creu rôl arweiniol newydd mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm.

Darparom hyfforddiant i gynorthwyo swyddogion arweiniol mewn perthynas â'u rolau, er enghraifft mewn perthynas â dylanwadu ar fedrau, a pharhaom i ddatblygu ein rolau arolygwyr cyswllt ôl-16 gyda chyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio ar faterion allweddol yn y sector ôl-16.

### **Datblygu galluoedd rheoli gwybodaeth**

Parhaodd Estyn i ddatblygu ei systemau electronig (SharePoint) ar gyfer rhannu a choladu gwybodaeth o grwpiau a phwyllgorau allanol a mewnol, gan roi ystyriaeth i feysydd newydd a datblygol o'n gwaith, fel cefnogi Dyfodol Llwyddiannus a'n trefniadau arolygu newydd.

Yn benodol, fe wnaethom:

- sefydlu cyfres o seminarau yn canolbwyntio ar ymchwil ar gyfer AEM yn archwilio'r defnydd o ddata yn ein gwaith arolygu, arolygon thematig a'n gwaith ehangach
- mireinio ein diweddariad ymchwil misol ar gyfer staff i gynnwys newyddion am gyhoeddiadau perthnasol fel datganiadau ysgrifenedig a wnaed gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn ogystal â chrynhoi darnau allweddol o ymchwil fewnol, genedlaethol a rhyngwladol
- parhau i ddarparu cymorth ar gyfer datblygu ein gwaith arolygon thematig, yn cynnwys darparu hyfforddiant a mireinio deunyddiau cefnogi
- sefydlu proses gyfeirio fwy cadarn yn seiliedig ar system Gyfeirio Harvard a chynnig hyfforddiant ar egwyddorion y system newydd hon a'i defnyddio'n effeithiol
- datblygu cofnod Arweiniad ar Ddeddfwriaeth a Pholisi er mwyn galluogi staff i allu mynd yn rhwydd at yr holl ddogfennau arweiniad ar ddeddfwriaeth a pholisi yn gysylltiedig ag arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- gwella ein prosesau storio ac adfer data, gan gadw'r holl ddata mewn cronfeydd data SQL diogel, sy'n cysylltu'n effeithiol â'n systemau rheoli perfformiad amrywiol a'n systemau adrodd am wybodaeth cyn-arolygiad

Yn 2015, cyflwynom gyfarfod tymhorol hefyd gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, a'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, i drafod a rhannu gwybodaeth am ymchwil ac arolygon thematig.

### **Rôl Estyn fel ymgynghorai ar gynigion trefniadaeth ysgolion**

Ymatebodd Estyn i 52 o gynigion ad-drefnu ysgolion.



Daethom i'r casgliad fod 45 o gynigion yn debygol o gynnal neu wella deilliannau addysgol.

Nid oedd saith cynnig yn rhoi digon o wybodaeth i ni lunio barn y naill ffordd neu'r llall.

Cynhaliom drafodaethau gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru er mwyn arfarnu defnyddioldeb ein hymatebion, a chawsom adborth cadarnhaol. Gwnaethom newid bach i ganllaw mewnol Estyn er mwyn ei gysoni mwy â [chod ad-drefnu ysgolion](#) Llywodraeth Cymru.

### Amcan Strategol 3: Meithrin gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru

#### Digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau dan arweiniad Estyn

Mae Estyn yn gwneud defnydd gwerthfawr o wybodaeth o waith arolygon thematig a gwaith arolygu i lywio ein rhaglen hyfforddi a'n gwaith meithrin gallu. Darparwn raglen gynhwysfawr o hyfforddiant i gynorthwyo darparwyr i ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arolygu, ac i uwch arweinwyr yn y sefydliadau hynny ddatblygu ystod o fedrau sydd nid yn unig yn cynorthwyo arolygu, ond sy'n llywio'u gwaith fel uwch arweinydd yn eu hysgol. Yn 2015-2016, cynhaliom gyfanswm o 45 o ddigwyddiadau hyfforddi ac 13 o ddigwyddiadau arfer orau, gan gynnwys chwe digwyddiad fforwm rhanddeiliaid sector a chynhadledd Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol. Ein nod yw sicrhau bod digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau arfer orau a gynhelir gan Estyn yn bodloni anghenion cynrychiolwyr; dywedodd 98.6% o gynrychiolwyr fod ein hyfforddiant yn dda neu'n rhagorol.

DP 8

Prif hanfod ein gwaith yn 2015-2016 oedd hyfforddi arolygwyr cymheiriaid ac ymgynghorwyr her i'n helpu i gyflawni ein rhaglen arolygu. Mae ein hyfforddiant yn darparu cyfleoedd rhagorol i uwch arweinwyr mewn ysgolion a darparwyr eraill i ddatblygu dealltwriaeth well o'n gwaith ac i gryfhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd hunanarfarnu a systemau sicrhau ansawdd cadarn i gefnogi gwelliant. Cafodd ein rhaglen hyfforddi ar gyfer 'ymgynghorwyr her' ei haddasu ymhellach yn 2015 i sicrhau ei bod nid yn unig yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau arolygu, ond ei bod yn ategu gwaith ymgynghorwyr yn cynorthwyo a herio ysgolion.

Rydym wedi cyflwyno dangosydd newydd ar gyfer 2016-2017 sydd â'r nod o sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn ystyried eu hyfforddiant/lleoliad fel gweithgareddau cadarnhaol a buddiol: targed o 95% o arolygwyr cymheiriaid yn rhoi ymateb cadarnhaol i arolwg.


DP 9

#### Nodi a lledaenu arfer orau

Rydym wedi dyblu nifer yr astudiaethau achos o [arfer orau](#) a gynhyrchwyd.

#### Astudiaethau achos arfer orau

- Nifer a gyhoeddwyd yn ystod 2014 - 2015
- Nifer a gyhoeddwyd yn ystod 2015 - 2016



Yn 2015, ar ein gwefan, fe wnaethom wella rhwyddineb mynediad at enghreifftiau o arfer orau, gan alluogi i'n hastudiaethau achos gael eu hidlo yn ôl cwestiwn allweddol, dangosydd ansawdd, geiriau allweddol, ac yn ôl sector ac awdurdod lleol.

Yn ystod 2015-2016, dechreuom hyrwyddo astudiaethau achos o arfer orau trwy Twitter gan ddefnyddio trydariadau sy'n cynnwys enw trydar yr ysgol, enw trydar yr ALL, dolen at yr astudiaeth achos a delwedd drawiadol i dynnu sylw'r darllenydd. Caiff pob astudiaeth achos un trydariad cyhoeddi, ac un trydariad atgoffa a gaiff ei bostio ryw wythnos ar ôl yr un cyntaf. Caiff darparwyr wybod pan fydd eu hastudiaeth achos yn cael ei chyhoeddi, a chynhwysir astudiaethau achos ar ddiweddariad misol Estyn i'r holl danysgrifwyr. Mae dyluniad cyffredinol ein hastudiaethau achos ar ein gwefan wedi cael ei wella fel eu bod yn haws i ddarllenwyr eu defnyddio.

### **Cyfleu canfyddiadau adroddiadau thematig yn fwy effeithiol**

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom wella fformat ein gwefan i gyflwyno ein hadroddiadau thematig. Er enghraifft, gellir hidlo adroddiadau yn ôl sector, tag geiriau a mathau o ddogfen (e.e. PowerPoint, dogfen Word, fideo).

**Chwilio adroddiadau thematig:**

Chwilio

Sector: Pob un ▼

Tagiau: Pob un ▼

Math o Ddogfen: Pob un ▼

Chwilio

Caiff argymhellion eu rhoi ar y brif dudalen sy'n disgrifio'r adroddiad thematig er mwyn cyfleu'r prif negeseuon yn gliriach. Mae ychydig o adroddiadau thematig, fel arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2, yn cael eu hyrwyddo ar YouTube gyda fideo. Rydym wedi bod yn hyrwyddo'r dull amlgyfrwng hwn yn amlach yn ystod 2015-2016. Rydym hefyd yn monitro'r data ar ddefnyddio'r fideos hyn mewn adroddiadau chwarterol ar ein cyfathrebiadau, ac mae hyn yn ein helpu i arfarnu pa mor effeithiol rydym yn cyfleu'r adroddiadau hyn mewn gwirionedd.

Caiff yr holl adroddiadau eu hyrwyddo drwy Twitter, a thrwy gylchlythyrau, fel gydag astudiaethau achos o arfer orau.

## **Datblygu partneriaethau cadarn gyda rhanddeiliaid**

Rhwng Hydref a Thachwedd 2015, cynhaliom ymgynghoriad cenedlaethol ynglŷn â'r modd y mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Denodd yr ymgynghoriad lawer o ddi-ddordeb a thraffig i'n gwefan. Derbyniom bron i 2,000 o ymatebion i'n holiadur ar-lein. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ffocws penodol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid 'anodd eu cyrraedd', a gynhaliwyd ar ein rhan gan gwmni ymchwil. Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliom weithdai gyda grwpiau penodol, er enghraifft penaethiaid yng Nghonsortium Canolbarth y De a Chonsortium GwE, AEM, a staff corfforaethol Estyn. Fe wnaethom ymgynghori hefyd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

Cynhaliom Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol blynyddol yn Llandrindod ym Mawrth 2016 ar gyfer cynrychiolwyr o bob corff swyddogol sydd wedi'u rhestru ar ein rhestr rhanddeiliaid. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar y prif negeseuon o Adroddiad Blynyddol PAEM a'r syniadau sy'n datblygu mewn perthynas â'n trefniadau arolygu newydd. Mynychwyd y digwyddiad gan 70 o gynrychiolwyr.

Cynhaliodd Estyn arolwg ar-lein hefyd ar gyfer holl benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion a gynhelir er mwyn casglu eu barnau ynglŷn â gwaith y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol o ran cefnogi'u hysgolion. Yn ogystal, cynhaliom gyfres o gyfarfodydd Fforwm y Rhwydwaith Sectorau, o leiaf unwaith ar gyfer pob sector bron yn ystod y flwyddyn.

Fe wnaeth Cyfarwyddwyr Cynorthwyol neu'r arolygydd arweiniol sector perthnasol fynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan gyrrff addysg, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Llywodraethwyr Cymru a Chynghorau. Parhaom i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru trwy gyfarfodydd rhwng PAEM, Cyfarwyddwyr Strategol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol a'u swyddogion cyfwerth yn Llywodraeth Cymru, fel rhan o raglen o gyfarfodydd rheolaidd i roi cyngor i'r Llywodraeth.

Lansiodd Estyn ei wefan newydd a pharhaodd i wneud gwelliannau ar sail adborth er mwyn sicrhau bod athrawon, gweithwyr addysg proffesiynol eraill, rhieni a'r holl rhanddeiliaid yn gallu mynd yn rhwydd at ein hadroddiadau arolygu, adroddiadau thematig arfer orau a chyhoeddiadau eraill.

Cyhoeddom gylchlythyr rhanddeiliaid Estyn ddwywaith y flwyddyn, gan ei hyrwyddo drwy ein holl sianelau cyfathrebu, yn cynnwys neges e-bost at yr holl arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg, darparwyr addysg a hyfforddiant, ac unrhyw un a oedd wedi tanysgrifio drwy ein gwefan. Hefyd, fe wnaethom anfon neges e-bost Diweddariad Estyn yn fisol at ein tanysgrifwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant.

Ymgysylltom ag arolygiaethau, cyrrff archwilio a chyrrff rheoleiddio eraill i ystyried a gweithredu gwaith ar y cyd lle bo'n briodol. Er enghraifft, y llynedd, cynhaliodd Estyn 11 o gyd-arolygiadau gydag AGGCC yn treialu'r fframwaith ar y cyd newydd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Hefyd, ymgysylltom ag arolygiaethau ledled Ewrop drwy ein hymglymiad yng ngrŵp arolygiaethau gwledydd Prydain a Chynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau addysg cenedlaethol a rhanbarthol (SICI), a wnaeth ein galluogi ni i ddysgu oddi wrth rai eraill ac ystyried ymagweddau gwahanol at arolygu.

## Egwyddor Gyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'

Yn 2015-2016, parhaom â'n gwaith ar nifer o fentrau trawsbynciol i helpu gwella Estyn fel sefydliad. Mae ein cynlluniau gweithredu yn cefnogi agweddau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.


DP 16

### Cydraddoldeb

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn ceisio cefnogi cydraddoldeb ar draws Estyn a thrwy ein prosesau arolygu. Ym Mawrth 2016, cyhoeddodd ein hail [Gynllun Cydraddoldeb Strategol \(CCS\)](#).

DP 18

Cynhyrchwyd y CCS mewn ymgynghoriad â staff ac undebau llafur, ac mae'n parhau â'r gwaith a wnaed yn Estyn i ymgorffori amrywiaeth a chydraddoldeb yn llawn ym mhob peth a wnawn. Mae cynlluniau gweithredu blynyddol yn sail i'r CCS; dyma rai o'r gweithgareddau yr ymgymeron ni â nhw yn 2015-2016:



### Cynaliadwyedd

Fe wnaethom gynnal system rheolaeth amgylcheddol a chawsom ein hailachredu gyda 'Safon y Ddraig Werdd' (lefel 3) yn Hydref 2015. Defnyddiom y broses achredu i nodi unrhyw gyfleoedd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach, ac amlinellwyd y rhain yn ein [Polisi a Datganiad Amgylcheddol](#).

Rydym wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, trafnidiaeth, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa. Lluniwyd amcanion a thargedau er mwyn gwella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol Estyn.



Gellir gweld perfformiad yn erbyn amcanion amgylcheddol ar gyfer 2015-2016 ar ein gwefan yn [Adroddiad Cynaliadwyedd Cryno 2015-2016](#).

## Safonau iechyd

Fe wnaethom sicrhau bod ein hymrwymiad i iechyd a lles staff yn parhau yn flaenoriaeth, gan hyrwyddo materion perthnasol, archwiliadau iechyd blynyddol i'r staff a Rhaglen Cymorth Cyflogeion. Hefyd, cynhaliom y momentwm o ennill yr achrediad Safon Iechyd Corfforaethol Arian yn 2014, drwy ymrwymo'r un lefel o adnoddau ac ymdrech i'n gweithgareddau.

## Ymgysylltiad staff

Yn 2015-2016, parhaodd Estyn o fewn y 5% uchaf o sefydliadau yr adroddwyd amdanynt yng nghanlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, gyda sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol o 73%, sy'n cymharu'n ffafriol â'r mynegai ymgysylltu ledled y Gwasanaeth Sifil, sef 58%. Mae'r tabl isod yn cymharu perfformiad Estyn â pherfformiad cyfartalog y gwasanaeth sifil ers cyflwyno'r Arolwg yn 2010.

**DP 10**


Blwyddyn	Ymgysylltiad y gwasanaeth sifil	Ymgysylltiad Estyn	Safle Estyn (allan o 96+ o sefydliadau*)
2015	58%	73%	3
2014	59%	71%	4
2013	59%	69%	4
2012	62%	69%	5
2011	60%	70%	6
2010	56%	66%	9

Noder: \*mae nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg yn amrywio bob blwyddyn.

O ystyried siartiau themâu yr Arolwg, dros y pum mlynedd diwethaf, gellir gweld gwelliannau mewn llawer o feysydd gan gynnwys fy ngwaith, fy rheolwr, fy nhîm, adnoddau a llwyth gwaith, cyflog a buddiannau, arweinyddiaeth a rheoli newid. Fodd bynnag, mae pedair thema, sy'n cynnwys amcanion a diben sefydliadol, fy rheolwr, dysgu a datblygu a chynhwysiant a thriniaeth deg, sydd wedi gweld gostyngiad bach er 2014. Er bod sgorau ar gyfer y themâu hyn wedi gostwng, mae pob un ohonynt yn cymharu'n ffafriol â chanlyniadau'r Gwasanaeth Sifil yn 2015, ac mae rhai yn cymharu'n ffafriol â pherfformwyr uchel y Gwasanaeth Sifil yn 2015. Gweler y tabl penawdau allweddol ar dudalen 28.

## Estyn – Sgorau Themâu 2010-2015

Gellir gweld gwelliannau mewn llawer o themâu dros y pum mlynedd diwethaf; fodd bynnag, mae pedair thema sydd wedi gweld gostyngiad er 2014.



## Prif benawdau

### Mynegai ymgysylltu

**73%**

Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol +2

Gwahaniaeth o GS2015 +15 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +10 ✧

- Mae llawer o ddangosyddion yn debyg i 2014, ac mae pob un ohonynt yn uwch na pherfformwyr uchel y Gwasanaeth Sifil (GS) ac yn sylweddol uwch na'r Gwasanaeth Sifil yn 2015 (GS2015).
- Gwelliant sylweddol mewn Arweinyddiaeth a rheoli

Eich safle allan o 96 o sefydliadau yn 2015: 3 (4 yn 2014)

✧ Gwahaniaeth sylweddol yn ystadegol o gymharu

 Cryfder y cysylltiad ag ymgysylltu

### Fy ngwaith

**84%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol +1

Gwahaniaeth o GS2015 +9 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +6 ✧

### Amcanion a diben sefydliadol

**95%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol -3

Gwahaniaeth o GS2015 +13 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +9 ✧

### Fy rheolwr

**75%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol -2

Gwahaniaeth o GS2015 +7 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +4 ✧

### Fy nhîm

**88%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol +3

Gwahaniaeth o GS2015 +9 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +5 ✧

### Dysgu a datblygu

**61%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol -2

Gwahaniaeth o GS2015 +12 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +6 ✧

### Cynhwysiant a thriniaeth deg

**81%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol -2

Gwahaniaeth o GS2015 +6 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +2

### Adnoddau a llwyth gwaith

**87%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol +1

Gwahaniaeth o GS2015 +14 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +10 ✧

### Cyflog a buddion

**52%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol +1

Gwahaniaeth o GS2015 +22 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +16 ✧

### Arweinyddiaeth a rheoli newid

**76%**



Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol +6 ✧

Gwahaniaeth o GS2015 +33 ✧

Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS +24 ✧

Mae manylion llawn [canlyniadau arolwg pobl Estyn 2015](#) ar gael ar ein gwefan.

Roedd y camau gweithredu allweddol a ddygwyd yn eu blaen gan Grŵp Ymgysylltu Cyflogeion Estyn yn y flwyddyn yn cynnwys:

- ystyried gweithgareddau dysgu a datblygu er mwyn gwella perfformiad a datblygiad gyrfu, gan gynnwys annog staff i ddatblygu ar gyfer y radd nesaf drwy nodi cyfleoedd hyfforddi anffurfiol, cwblhau cynlluniau datblygu personol, annog mentora a hyfforddi a threfnu cysgodi swyddi
- ail-bwysleisio'r pecyn buddiannau cyfan, gan hyrwyddo cyfleoedd lle gall cyflogeion gynilo yn ein cylchlythyr staff 'Eich Estyn', atgoffa cyflogeion am aelodaeth o Gyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil ac adolygu'r 'Canllaw Cyflogaeth' er mwyn sicrhau eglurder ynghylch tâl adeg penodi
- hyrwyddo cysondeb wrth gymhwyso rheoli perfformiad drwy wiriadau cysondeb a chyfarfodydd dilysu
- parhau â dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd ar gyfer arolygwyr yn Wythnos Datblygiad Proffesiynol, cyfleu newidiadau diweddar i staff gwasanaethau corfforaethol mewn diweddariadau Gwasanaethau Corfforaethol, rhaeadru cofnodion ac adborth gan reolwyr i aelodau tîm a pharhau i gyfleu newidiadau arwyddocaol, gan gynnwys Trefniadau Arolygu Newydd Estyn a Dyfodol Llwyddiannus

### **Ymgynghori â chyflogeion**

Trwy gydol 2015-2016, parhaodd y rheolwyr i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r undebau llafur gan gynnwys fforwm gweithredol Ochr yr Undebau Llafur/Rheolwyr a fforwm strategol Ochr yr Undebau Llafur/Rheolwyr. Mae'r fforwm strategol yn caniatáu ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a barnau strategol ar faterion strategol sy'n effeithio ar gyflogeion a chyflwyno gwasanaethau'n effeithiol, er enghraifft, cyddrafod cyflog a thelerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r fforwm gweithredol yn cefnogi cyflawni gwaith Estyn ac yn helpu llywio trafodaethau strategol. Yn ystod cyfarfodydd, gwahoddir yr undebau i gynnig sylwadau ar bolisiau a gweithdrefnau Estyn. Yn ystod 2015-2016, ymgynghorwyd ar y polisiau a'r gweithdrefnau canlynol, gan gynnwys:

- Polisi Teithio a Chynhaliadaeth
- Polisi ac Arweiniad ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- Polisi ac Arweiniad ar Weithio'n Hyblyg
- Polisi Diswyddo Gorfodol
- Polisi Rheoli Gwrthdaro Buddiannau

Yn ychwanegol at ymgynghori ag undebau, ymgynghorir â'r holl staff a chaiff asesiadau eu cwblhau ar gyfer pob polisi.

### **Safonau'r Gymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i bennu dyletswyddau ar unigolion i gydymffurfio â safonau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r safonau yn disodli'r system cynlluniau iaith Gymraeg a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

DP 17

Yn ystod 2015-2016, fe wnaethom hyrwyddo a chefnogi dwyieithrwydd trwy weithredu ein [Cynllun iaith Gymraeg](#) a gweithiom tuag at fodloni'r safonau statudol a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gwnaethom gynnydd da o ran datblygu ein gwasanaethau Cymraeg, er bod gofynion o fewn y safonau nad oeddem wedi mynd i'r afael â nhw yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'n fater o ddatblygu ein systemau a'n harfer yn Estyn, fodd bynnag, yn hytrach na gwneud newidiadau helaeth.

## Sylwadau, cwynion a cheisiadau am wybodaeth

Fel sefydliad, rydym yn cymryd pob sylw a chwyn o ddifrif a byddwn yn ymateb i bob cwyn yn llawn, yn deg ac mor gyflym â phosibl. Yn 2015-2016, fe wnaethom ddelio â 3 cwyn ffurfiol, ac ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn ein graddfa amser darged, sef 20 diwrnod gwaith.

Hefyd, mae gan Estyn ddyletswydd statudol i ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd amserol. Yn 2015-2016, fe wnaethom ymateb i 19 o geisiadau am wybodaeth a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Cwblhawyd pob un ohonynt o fewn y targed o 20 diwrnod gwaith. Yn ystod yr un cyfnod, ymatebom i 40 o geisiadau am wybodaeth a wnaed o dan y Ddeddf Diogelu Data. Eto, cwblhawyd pob un ohonynt o fewn y targed o 40 diwrnod calendr o dderbyn tystiolaeth o adnabyddiaeth.

Er mwyn sicrhau tryloywder, cyhoeddwn [Sylwadau, cwynion a cheisiadau am wybodaeth](#) ar ein gwefan.

## Llywodraethu

Mae ein [Fframwaith llywodraethu](#) o Fyrddau, Pwyllgorau a Grwpiau yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol yn ogystal â sefydliad effeithlon sy'n cael ei redeg yn dda, yn atebol i'n staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Mae manylion pellach am ein proses lywodraethu, yn cynnwys deilliannau'r rhaglen o archwiliadau mewnol, wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu.

Yn unol â deddfwriaeth, fe wnaethom gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-2016. Cafodd ein cynllun ar gyfer 2016-2017 ei gymeradwyo gan y Prif Weinidog yn Ebrill 2016 ac mae ar gael ar ein gwefan [yma](#).

DP 12

## Uchafbwyntiau perfformiad ariannol <sup>1</sup>

Mae arbedion o ryw £1 filiwn yn erbyn cyllideb adnoddau o £11.664 miliwn yn adlewyrchu: gostyngiadau ar draws ein costau gweinyddu a chostau rhedeg eraill o ryw £100,000; dibrisiant heb ei ddefnyddio o £294,000 (mae dibrisiant yn gyllideb wedi'i chlustnodi ac ni ellir ei adleoli); gostyngiad mewn Gwariant rhaglenni o ryw £100,000, a thanwariant o ryw £500,000 yn erbyn ein dyraniad adnoddau ar gyfer staffio.


<sup>1</sup> Mae Adran 3 yn darparu'r datganiadau ariannol a nodiadau i'r cyfrifon.

Mae ein gwariant Rhaglenni yn ymwneud yn bennaf â chost hyfforddi a chontractio gydag Arolygwyr Ychwanegol (AY) ac Arolygwyr Cymheiriaid (AC). Mae costau arolygu cyffredinol yn cynnwys cost cyfieithu adroddiadau arolygu i'r Gymraeg. Roedd gwariant rhaglenni yn 2015-2016 yn is nag yn y flwyddyn flaenorol yn unol â'r gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr arolygiadau craidd.

Mae'r arbedion yn erbyn y gyllideb staff yn bennaf yn sgil yr oediad amser o ran staff yn gallu ymgymryd â swyddi a adawyd yn wag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, a swyddi gweigion eraill a gododd hefyd yn sgil ymadawyr yn y flwyddyn gyfredol. Er mwyn lleihau costau symudodd Estyn at un pwynt recriwtio (gwanwyn) ar gyfer staff arolygu; ymgymerodd cnewyllyn o naw aelod staff arolygu parhaol newydd â'u swyddi ym Medi 2015. Er mwyn cyflawni ein rhaglen o arolygiadau a gwaith arall, rydym wedi pennu trothwy ar gyfer nifer yr AEM parhaol sydd eu hangen ac mae disgwyl i wariant ar gostau staff gynyddu yn 2016-2017 un unol â'r gyllideb a gyhoeddwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2016-2017.

Yn Awst 2015, fe wnaeth Estyn gysgod i'r dyfarniad cyflog a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei staff yn Ebrill 2015. Er gwaethaf cynnydd mewn cyfraddau cyflogau, a gyda niferoedd staffio cyffredinol yn aros fwy neu lai yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, roedd cyfanswm y gwariant ar staff yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, un amrywiant arwyddocaol rhwng blynyddoedd yw ein bod, yn 2014-2015, wedi gwario £238,000 mewn perthynas â chostau ymadael yn gynnar ar gyfer pedwar aelod o staff a adawodd Estyn ar ddiwedd Mawrth 2016 er mwyn hwyluso ail-gydbwyso ein medrau arolygu mewnol. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, parhaom i gyflogi secondeion o'r sectorau addysg i weithio gyda ni fel Arolygwyr Ychwanegol; mae hyn wedi darparu cymorth hanfodol i gyflawni ein rhaglen waeth helaeth. Mae hefyd wedi cynnig hyblygrwydd o ran cyllideb, h.y. osgoi gor-ymrwymo i wariant tymor hir ar adeg pan fo ansicrwydd ynghylch cyllid y dyfodol, ac wedi hwyluso trosglwyddo medrau a gwybodaeth i helpu cryfhau gallu ar draws darparwyr addysg.

Mae'r graff canlynol yn dangos y cyfanswm alldro adnoddau am y tair blynedd diwethaf ac yn dangos ymrwymiad Estyn i dorri gwariant yn ystod cyfnod parhaus o gyni yn y sector cyhoeddus.




Yn 2015-2016, defnyddiom £214,000 o'r £281,000 o gyllid cyfalaf a ddyrannwyd i ni gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y rhan helaethaf o'r gwariant hwn i adnewyddu'r offer TG hanfodol a ddefnyddir gan ein harolygwyr.

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2016 yn dangos rhwymedigaethau net o £181,000 (2014-2015: £508,000). Mae'n arferol i Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol Estyn ddangos sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol oherwydd y lefel uchel o symiau taladwy. Mae'r symiau taladwy yn ganlyniad arferol trefniadau Estyn i ddarparu adnoddau Arolygwyr Cymheiriaid, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Ychwanegol (gan gynnwys secondeion) ar gyfer arolygiadau, ac maent yn deillio o amseriad derbyn yr anfoneb.


Yn ystod 2016-2017, bydd Estyn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'r rhwymedigaethau uchod yn unol â'r sail 'busnes gweithredol' a fabwysiadwyd ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## Cyfanswm Gwariant ar Draws Yr Holl Benawdau Cyllideb ar gyfer 2015-2016






### Gwariant ar staff 2013-2014, 2014-2015 a 2015-2016



### Alldro gwariant heblaw ar staff<sup>2</sup> 2013-2014, 2014-2015 a 2015-2016



<sup>2</sup> Nid yw'n cynnwys Gwariant Cyfalaf

## Egwyddor cyflawni 2: Cydweithio gydag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant

Mae Estyn wedi parhau i sicrhau bod ein cydweithio a'n cydweithredu yn cael ei lywio gan weledigaeth a diben cyffredin a gytunwyd rhwng y cyrff AARh yng Nghymru a'r DU drwy Arolygu Cymru a'r fforwm Penaethiaid Arolygiaethau'r DU.

DP 19

Rydym wedi cefnogi rôl Rheolwr Prosiect Arolygu Cymru drwy ein cyfraniad ariannol at y swydd. Rydym hefyd wedi parhau i ddatblygu dulliau o rannu gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng Estyn a chyrff AARh eraill er mwyn helpu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n weithredol ac yn brydlon a'i defnyddio i gefnogi gwella gwasanaethau, llywio llunio polisïau a chryfhau atebolrwydd cyhoeddus, fel cyd-seminar AARh ar 4 Chwefror 2016. Dyma ddolen at [Raglen y Cyd-arolygiaethau](#).

Fe wnaethom gydlynu ein gweithgareddau arolygu, lle bo'n briodol, â gweithgareddau'r cyrff AARh eraill fel eu bod yn arwain at raglenni gwaith cymesur a oedd yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu harchwilio, fel y cylch gwaith ar gonsortia rhanbarthol a chynnwys arolygwyr Swyddfa Archwilio Cymru ar dimau Estyn ar gyfer arolygu consortia rhanbarthol.

Cyfrannodd Estyn at waith Llywodraeth Cymru ar ei Phapur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol a chyfrannom at Fwrdd Prosiect Arolygu AGGCC ar eu gwaith yn datblygu fframwaith barnau ar gyfer arolygu gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Fe wnaethom sicrhau bod arolygiadau o ysgolion a cholegau sydd â darpariaeth breswyl yn cael eu cydlynu'n effeithiol gan Estyn ac AGGCC.

Gweithiom gyda Chynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI) ar ddatblygu cynlluniau i Estyn gynnal gweithdy rhyngwladol yng Nghaerdydd yn Ebrill 2016. Mae staff wedi mynychu gweithdai SICI yn Serbia, y Ffindir a Norwy a gwnaed cyflwyniadau ganddynt yng nghyfarfodydd arolygiaethau addysg gwledydd Prydain ym Manceinion a Llundain.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag Education Scotland, ETI (Gogledd Iwerddon) ac Ofsted i rannu gwersi a ddysgwyd ynglŷn â dulliau newydd o arolygu. Gweithiom yn agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a Chyngor y Gweithlu Addysg i rannu gwybodaeth a thrafod materion o ddiddordeb cyffredin. Parhaom i gysylltu â'r Swyddfa Gartref ynghylch materion yn ymwneud â goruchwyliaeth addysgol darparwyr sy'n dymuno dod yn noddwr Haen 4. Cyfrannom hefyd at yr arolygiadau o ddau dîm troseddau ieuencid, dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, dau garchar dan arweiniad Arolygiaeth Carchardai EM ac un uned ddiogel pobl ifanc dan arweiniad AGGCC.

## Adran 2: Yr Adroddiad Atebolrwydd

### 2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol

#### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae **Bwrdd Gweithredol**, yn cynnwys aelodau gweithredol ([PAEM](#) a [chyfarwyddwyr strategol](#)), yn cefnogi ac yn cynorthwyo PAEM i arwain a rheoli Estyn.

Mae **Bwrdd Strategaeth**, yn cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol ([cyfarwyddwyr anweithredol](#)), yn pennu ac yn monitro agenda strategol Estyn. Mae gan y Bwrdd Strategaeth ddau is-bwyllgor: Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn a'r Pwyllgor Cyflogau.

Gellir gweld cofnod llawn o [aelodaeth a phresenoldeb y Bwrdd / Pwyllgor Strategaeth](#) ar ein gwefan.

#### Buddiannau arwyddocaol a ddelir gan aelodau

Mae Estyn yn cynnal [cofrestr buddiannau](#) ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Caiff datganiadau eu gwneud hefyd gan yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro yn unol â'n [polisi rheoli gwrthdaro buddiannau posibl](#).

Nid oes gan unrhyw aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol arall a allai wrthdaro â'u cyfrifoldeb rheoli.

#### Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol i adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

Yn unol ag arfer dda, mae gan Estyn swyddog lefel bwrdd sydd wedi'i ddynodir Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth sydd yn gyfrifol am siarter gwybodaeth Estyn.

Trwy gydol 2015-2016, fe wnaeth Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Estyn fonitro ac adolygu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad ac adolygu a diweddarau polisiâu o dan [fframwaith llywodraethu gwybodaeth](#) Estyn. Rhoddodd archwiliad mewnol o Lywodraethu Gwybodaeth a gynhaliwyd yn Ionawr 2016 sicrwydd sylweddol fod rheolaethau dros brosesau llywodraethu gwybodaeth wedi'u cynllunio'n addas; cafodd rhai awgrymiadau ar gyfer gwella eu nodi, ac maent yn cael eu dwyn ymlaen.

#### Polisi talu

Yn 2015-2016, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Datgenir y polisi hwn yn y Telerau ac Amodau ar

gyfer Contractau Estyn. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 100% o'r holl gyfryw daliadau a wnaed yn 2015-2016 (2014-2015: 99.2% a 2013-2014: 99.4%).

DP 15

### **Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu**

DP 13

DP 14

O dan Atodlen 6, paragraff 5(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn rhoi manylion yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan Estyn yn ystod y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ac o alldro net ei adnoddau, sefyllfa ariannol, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth' ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn unol â pharagraff 5(2) Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y nodwyd yn 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth', a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y cyfrifon
- pharatoi'r cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifyddu Estyn. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ddisbarthwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

## Y datganiad llywodraethu

### Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf wedi cynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu busnes Estyn. Mae gan Estyn system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau Estyn yn effeithiol ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff egwyddorion **Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2011 (Y Cod)**, eu hadlewyrchu yn [nhrefniadau llywodraethu Estyn](#), yng nghyd-destun amgylchiadau Estyn fel adran anweinidogol.

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn amlinellu sut mae llywodraethu da wedi'i gynnal yn Estyn ac yn esbonio'r prif heriau sy'n wynebu'r sefydliad a sut mae'r heriau hyn yn cael eu rheoli.

### Y fframwaith llywodraethu

Rwyf wedi sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli Estyn, ac a ddefnyddiwn i fonitro cyflawni ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol Estyn wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r diagram yn Atodiad 1 y datganiad hwn yn dangos yn gryno ystod a lefel y sicrwyddau sy'n sail i drefniadau llywodraethu Estyn. Amlinellir datganiad clir o ddiben a gweledigaeth Estyn ar ein gwefan ac yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol Estyn ac mae'n nodi ei brif nodau ac amcanion. Mae gwybodaeth am berfformiad a chyflawniad Estyn yn erbyn y Cynllun Blynyddol wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

Caiff y gwaith o oruchwylio Estyn ei arfer trwy'r Bwrdd Strategaeth a'i is-bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflogau). Yn ystod 2015-2016, cyfarfu'r Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob chwarter ac roedd pob un o'r aelodau yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd. Yn ail chwarter y flwyddyn, cafwyd trosglwyddo esmwyth gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a oedd yn ymadael, sef Haydn Edwards, i gyfarwyddwr anweithredol profiadol iawn arall yn Estyn, sef Rheon Tomos. Yn y chwarter hwn hefyd, cafodd dau aelod arall mewn gwasanaeth o'r pwyllgor, Judith Fabian (aelod cyfetholedig) ac Arwel Thomas, eu penodi a'u hail-benodi yn y drefn honno fel cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r parhad a ddarperir gan y penodiadau uchod wedi sicrhau bod Bwrdd Strategaeth Estyn wedi cael cyngor allanol cadarn ar faterion strategol a rheoli risg fel rhan o rôl y cyfarwyddwr anweithredol i herio a chefnogi gweithrediaeth Estyn.

Roedd y meysydd adolygu a thrafod allweddol yr aeth y Bwrdd Strategaeth i'r afael â nhw yn ystod 2015-2016 yn cynnwys:

- Cynllun Blynyddol Estyn, gan ymgorffori Dangosyddion Perfformiad Allweddol Estyn
- Adroddiad Blynyddol PAEM
- Cyfraniad Estyn at fentrau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys diwygio'r Cwricwlwm a'r Fargen Newydd
- Diwygiadau i gylch arolygiadau Estyn a datblygu trefniadau'r dyfodol, gan gynnwys newidiadau i fframwaith arolygu Estyn

Daw pob cyfarfod i ben gyda hunanarfarniad o effeithiolrwydd y cyfarfod; mae cyfarwyddwyr anweithredol wedi cadarnhau eu bod yn fodlon â'r trafodion ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd, eu bod yn cael mewnbyn priodol i'r agenda a chyfle digonol i godi unrhyw bryderon. Mae'r Bwrdd Strategaeth yn fodlon bod trefniadau Estyn ar gyfer chwythu'r chwiban yn effeithiol; ni chodwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban yn 2015-2016. Cafodd Polisi Chwythu'r Chwiban Estyn ei adolygu yn ystod y flwyddyn a'i ailgyhoeddi yn Awst 2015, ochr yn ochr â diweddariadau i'r polisïau Rheoli Risg a Gwrth-dwyll a Gwrth-lwgrwobrwyo, gan atgoffa ynglŷn â Chod y Gwasanaeth Sifil a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan holl staff Estyn.

O ganlyniad i newidiadau strwythurol o fewn Llywodraeth Cymru, cafodd rôl Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer Estyn ei throsglwyddo i Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol GIG Cymru. Mae'r trefniant llywodraethu cyswllt yn helpu i gynnal annibyniaeth Estyn mewn materion addysg a hyfforddiant, er bod y cysylltiadau agos hynny â'r Adran Addysg a Sgiliau yn parhau i ddatblygu dull strategol a chydlynus ar faterion allweddol fel datblygu adolygiadau thematig a gwaith cynghori arall. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu cyfarwyddwyr anweithredol gyda Julie Rogers, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, a'i rôl yw cynrychioli Mr Goodall yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Estyn yn Llywodraeth Cymru. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i rannu barnau ar brosesau llywodraethu a'r materion a'r heriau allweddol a wynebir gan Estyn.

### **Archwilio ac effaith**

Caiff adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei gyhoeddi ar wefan Estyn; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud sylwadau ar yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r pwyllgor. Mae adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2015-2016 yn rhoi sicrwyddau ynghylch ansawdd y gwaith archwilio ac effeithiolrwydd y pwyllgor. Parhaodd y pwyllgor yn fodlon bod trefniadau priodol gan Estyn ar gyfer llywodraethu a bod ganddo bolisi rheoli risg effeithiol a oruchwylir gan y Bwrdd Strategaeth. Mae cyfarwyddwyr anweithredol yn gwasanaethu ar y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn ail chwarter y flwyddyn, defnyddiwyd proses helaeth i benodi RSM fel darparwr gwasanaeth archwilio mewnol newydd Estyn. Mae'r penodiad wedi sicrhau parhad gwasanaeth proffesiynol lefel uchel, fel y darparwyd gan yr archwilwyr blaenorol (Deloitte) ac mae wedi cynnig safbwynt gwahanol ac ymagwedd 'ffres' at

weithgareddau archwilio. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gymeradwyo'r rhaglen archwiliadau blynyddol ar gyfer 2015-2016, gan barhau i bennu meysydd cwmpasu o fewn rhaglen archwilio tair blynedd. Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ei fonitro, ac ar ddiwedd y flwyddyn ystyriwyd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol. Cyngorodd yr adroddiad hwn ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, a rhoddodd farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli mewnol i'w hystyried gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fe wnaeth canlyniad y gwaith archwilio mewnol lywio barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith rheoli mewnol Estyn; *'mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol'*. Arweiniodd gwaith a gwblhawyd gan archwilydd mewnol Estyn yn ystod 2016-2016 at adroddiadau a oedd yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella - dywedodd yr Adroddiad archwilio mewnol blynyddol y canlynol: *'arweiniodd yr holl waith sicrwydd yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod y flwyddyn at farn gadarnhaol'*. Adolygwyd pob un o'r adroddiadau archwilio mewnol a thrafodwyd y prif faterion yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac roedd yn fodlon bod yr holl gamau rheoli wedi'u gweithredu neu eu cynllunio. Yn ogystal â'r rhaglen archwilio mewnol a adroddir yn Nhabl 1 isod, cynhaliodd yr Archwilydd Mewnol raglen o 'hapwiriadau' cydymffurfio dirybudd hefyd a dilysiadau o Hawliadau Treuliau - ystyriwyd bod cydymffurfiaeth gyffredinol yn dda ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn ystod 2015-2016.

**Tabl 1****2015-2016 rhaglen archwilio mewnol**

Maes archwilio mewnol	Lefel sicrwydd	Nifer y camau gwella a gytunwyd gan y rheolwyr			
		Blaenoriaeth uchel	Blaenoriaeth ganolig	Blaenoriaeth isel	Cyfanswm
Llywodraethu Gwybodaeth	Sylweddol	0	2	3	5
Rheolaethau Ariannol Allweddol – Y Gyflogres	Sylweddol	0	0	0	0
Rheolaethau Ariannol Allweddol – Cyllidebol	Sylweddol	0	0	2	2
Sicrhau Ansawdd Arolygiadau	Sylweddol	0	0	3	3
Llywodraethu, Rheoli Risg a Sicrwydd Risg	Sylweddol	0	1	3	4
Asedau a Rhestri Eiddo	Rhesymol	0	0	7	7
<b>Cyfanswm</b>			<b>3</b>	<b>18</b>	<b>21</b>
Rheoli Prosiectau	Amh. Archwiliad cynghorol				

Cyfarfu Pwyllgor Cyflogau Estyn deirgwaith (roedd yr holl aelodau'n bresennol) yn ystod 2015-2016 i ystyried perfformiad a chyflogau uwch aelodau staff Estyn, gan gynnwys PAEM. Rhoddodd y pwyllgor hwn gyngor hefyd ynghlŷn â chynigion ar gyfer

dyfarniad cyflog staff Estyn nad ydynt yn uwch aelodau staff; roedd y dyfarniad cyflog hwn yn weithredol o 1 Awst 2015, yn cysgodi'r dyfarniad a wnaed i staff Llywodraeth Cymru, ac fe'i awdurdodwyd yn briodol gan y Prif Weinidog.

Mae Estyn wedi sicrhau cydymffurfio â'r holl lythyrau 'Annwyl Swyddog Cyfrifyddu' (ASC) yng Nghymru; er enghraifft, mae Estyn wedi cael sicrwyddau a thystiolaeth briodol i gadarnhau bod rhwymedigaethau treth staff nad ydynt ar gyflogres (Estyn), h.y. staff asiantaeth a secondeion, wedi'u bodloni'n briodol, yn unol â DAO (Cymru) 1/13. Yn Chwefror 2016, cyhoeddwyd DAO (Cymru) 01/16 ochr yn ochr â diweddariad i 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' – mae Estyn, yn briodol, wedi dilyn yr arweiniad diweddaraf o ran sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb wrth wario adnoddau cyhoeddus.

Mae Estyn yn cynnal [cofrestr buddiannau](#) ar gyfer aelodau'r Bwrdd Strategaeth, ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan. Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd Strategaeth swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiant arwyddocaol arall a oedd yn gwrthdaro â'i gyfrifoldebau yn Estyn. Mae cofrestr buddiannau a Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro.

## Rheoli risg

Mae system rheoli risg Estyn wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion Estyn, ac arfarnu tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hyn a'r effaith pe cânt eu gwireddu. Ar gyfer 2015-2016, parhawyd i gadw cofrestrau risg ar lefel strategol gan y Bwrdd Gweithredol, ar lefel gorfforaethol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Estyn, ac ar lefelau gweithredol gan weithgorau, timau swyddogaethol a thimau prosiect. Mae gan bob risg berchennog unigol sy'n gyfrifol am fanylu ar y rheolaethau sydd ar waith a'u cofnodi, ynghyd â champau gweithredu pellach a gynlluniwyd i liniaru'r risg – ac mae proses gynyddu ar waith i godi risgiau i lefel reolaeth uwch.

Roedd datganiadau sicrwydd blynyddol ar gyfer 2015-2016 a gwblhawyd gan bob un o gyfarwyddwyr Estyn yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw bryderon mawr a bod camau wedi'u cymryd lle nodwyd mân faterion yn ymwneud â rheolaeth; nid adroddwyd ar unrhyw achosion o dorri diogelwch nac unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2015-2016. Aeth yr archwiliad mewnol o lywodraethu ati i adolygu'r holl ddatganiadau sicrwydd er mwyn archwilio'r dystiolaeth ategol y seiliwyd y datganiadau hyn arnynt, a gwnaeth un argymhelliad bach i wella fformat y datganiad. Cafodd Estyn sicrwydd gan Lywodraeth Cymru hefyd mewn perthynas â'r gyflogres a'r gwasanaethau adnoddau dynol y mae'n eu darparu i Estyn o dan gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol. Yn y cyfarfod adolygu blynyddol i drafod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, cododd Estyn rai pryderon gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â nifer y camgymeriadau cyflogres eleni, ond rwy'n fodlon y cymerwyd camau cywiro angenrheidiol, a bod hynny'n parhau.

Mae'r risg fwyaf arwyddocaol y mae Estyn yn dal i'w rheoli bob blwyddyn yn ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer gweithgareddau craidd a ffrydiau gwaith newydd yng nghyd-destun llai o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae goblygiadau toriadau i'r gyllideb wedi'u cyfleu'n glir i gydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth



Cymru, ac mae cynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau arolygu Estyn, yn seiliedig ar fod yna ddiffyg cyllid ychwanegol yn y dyfodol agos.

Mae nifer o heriau eraill sydd wedi parhau o'r flwyddyn flaenorol ac a fydd yn parhau trwy gydol y flwyddyn nesaf, yn cynnwys:

- **Cyflawni ffrydiau gwaith newydd** - yn cynnwys cynrychiolaeth ar weithgorau ychwanegol yn deillio o adolygiadau wedi'u cychwyn gan Lywodraeth Cymru, fel Donaldson
- **Cyflawni arbedion effeithlonrwydd parhaus er mwyn bodloni gostyngiadau sy'n parhau yn y gyllideb** – mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategaeth wedi parhau, a byddant yn parhau, i adolygu'r ymagwedd at senarios cyllideb posibl yn rheolaidd ac asesu effaith bosibl unrhyw ostyngiadau yng ngweithrediadau Estyn a chyflawni ei amcanion
- **Datblygu trefniadau i sicrhau bod gofynion newydd safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni** – asesu'r effaith mewn perthynas â'r modd y mae Estyn yn cyflawni ei waith a rhoi camau gweithredu priodol ar waith i liniaru'r risg o fethu bodloni'r safonau, gan gynnwys darparu cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg ychwanegol ar gyfer staff Estyn a datblygu systemau a phrosesau mewnol dwyieithog
- **Gwella gwaith ar y cyd a wneir gydag AGGCC** – datblygu trefniadau a chynnal peilot o arolygiadau ar y cyd o'r Blynyddoedd Cynnar mewn meithrinfeydd nas cynhelir
- **Datblygu fframwaith arolygu newydd Estyn a chefnogi prosesau a systemau** – dwyn gwaith Prosiect y Fframwaith Arolygu Newydd (FfAN) yn ei flaen yn ychwanegol at gyflawni'r rhaglen bresennol o arolygiadau, cyngor a gwaith gwella

### **Materion llywodraethu arwyddocaol**

Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â fframwaith llywodraethu cyffredinol Estyn. Edrychodd yr adolygiadau archwilio mewnol ar feysydd sylweddol o fusnes Estyn, a da yw adrodd na nodwyd bod unrhyw feysydd sylweddol o wendidau rheolaeth ac nid oedd unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel a oedd yn mynnu gweithredu gan y rheolwyr. Rwy'n fodlon bod cyfleoedd penodol i wella llywodraethu a rheolaethau mewnol a nodwyd fel rhan o brosesau sicrhau Estyn wedi'u hadrodd yn briodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'u rhoi ar waith gan y rheolwyr. Trafodwyd cydrannau craffu a sicrwydd allanol Estyn gan y Bwrdd Strategaeth yn ystod y flwyddyn a gwnaeth addasiadau i'r fframwaith a ddangosir ar dudalen 44.


Gan i mi gael fy mhenodi i rôl Swyddog Cyfrifyddu ar 1 Mehefin 2015, nid wyf wedi bod yn fy swydd am y flwyddyn ariannol lawn y mae a wnelo'r datganiad hwn â hi, ond oherwydd amseru'r Cyfrifon blynyddol, hwn, serch hynny, yw'r ail Ddatganiad Llywodraethu i mi fod yn gyfrifol amdano. Rwyf wedi cael cymorth da yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu gan gydweithwyr, gan gynnwys y staff hynny a benodwyd dros dro i swyddi cyfarwyddwyr er mwyn darparu parhad a chyfle i mi fyfyrio ar strwythurau rheoli cyn recriwtio i swyddi parhaol.

Yn 2015-2016, credaf fod Estyn wedi parhau yn lle da i weithio ynddo, barn a amlygir gan ganlyniadau cadarnhaol parhaus Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil. Unwaith eto, mae'n arbennig o foddhaol adrodd am lefel uchel o ymgysylltiad cadarnhaol â staff, a chredaf fod hynny'n helpu i osod sylfaen i lywodraethu da ac mae'n arwydd o ymrwymiad staff i werthoedd Estyn a chod y gwasanaeth sifil.

**Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r  
Swyddog Cyfrifyddu  
7 Gorffennaf 2016

Trefniadau fframwaith sicrwydd a chraffu Estyn



## 2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a thri chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol
- gwybodaeth feincnodi sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Swyddfa'r Cabinet
- polisiau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad wrth sicrhau a chydabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol

Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion. O ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr diwethaf o Wariant, mae Estyn eisoes wedi lleihau nifer ei swyddi yn yr uwch wasanaeth sifil o bedair i dair, trwy gadw un swydd wag.


Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn o ran gallu
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol


Ni thalwyd unrhyw fonysau i staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 2015-2016.

Yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru (1 Ebrill 2015), dyfarnwyd codiad cyflog cyfunol o 2% i swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Band 1 Estyn yn effeithiol o 1 Awst 2015 i 31 Mawrth 2017.

**Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi yn ôl categori staff 2014-2015 a 2015-2016**



**Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi**



Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Blwyddyn	Staff a gyflogir yn barhaol	Eraill <sup>4</sup>	Cyfanswm staff
2015-2016	98	20	118
2014-2015	99	21	120

Mae cyfraddau Salwch Staff fel a ganlyn:

Prif fesurau staff		
Mesur	2015-2016	2014-2015
Cyfradd absenoldeb salwch	3.6% (a)	3.6%
Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch	52%	52.8%
Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai	7.4 diwrnod (b)	7.5 diwrnod
Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb	8.4 diwrnod	7.3 diwrnod
Achlysuron absenoldeb salwch	110 achlysur	128 achlysur

**Noder:** os eithriwn un aelod o staff nad oedd yn cael cyflog yn sgil absenoldeb tymor hir dros y cyfan o 2015-2016, y mesurau hyn fyddai (a) 2.7% (b) 5.4 diwrnod.

DP 11

### Contractau gwasanaeth

Gwneir penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Egwyddorion yn gofyn am benodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â hwy swyddi penagored. Byddai terfynu cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodwyd yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Nodir y rheolau penodi yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn:

<http://civilservicecommission.independent.gov.uk/>

### Hawliau tâl (gan gynnwys cyflog) a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn (h.y. aelodau'r Bwrdd).

<sup>4</sup> Mae staff eraill yn cyfeirio at secondeion, staff contract cyfnod penodedig a staff asiantaeth.

Tâl (cyflog a thaliadau mewn nwyddau) <sup>5</sup>

Swyddogion	2015-2016					2014-2015				
	Cyflog £000 <sub>oedd</sub>	Tâl am Berfformiad ar Wahân £000 <sub>oedd</sub>	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Buddion pensiwn i'r £1,000 <sup>6</sup> agosaf	Cyfanswm £000 <sub>oedd</sub>	Cyflog £000 <sub>oedd</sub>	Tâl am Berfformiad ar Wahân £000 <sub>oedd</sub>	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)	Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf	Cyfanswm £000 <sub>oedd</sub>
Meilyr Rowlands Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (1 Mehefin 2015 ymlaen)	90-95	-	-	311	400-405	-	-	-	-	-
Meilyr Rowlands Cyfarwyddwr Strategol (Ebrill a Mai 2015)	10-15	-	-	-	15-20	75-80	-	-	19 <sup>7</sup>	85-90
Ann Keane Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (hyd at 31 Mai 2015)	15-20	-	-	-	15-20	110- 115	-	-	-	110- 115
Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol	75-80	-	-	32	105-110	75-80	-	-	28	100- 105
Claire Morgan Cyfarwyddwr Strategol Dros Dro (o 1 Mehefin 2015)	65-70	-	-	26	90-95	Amh.				
Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y Cyflog Uchaf	110-115					110-115				
Cyfanswm canolrifol	£60,050					£60,050				
Cymhareb gan ddefnyddio pwynt canol y band cyflog	1.87					1.87				
Ystod cyflogau staff	£17,200 - £110,000					£17,200 - £112,200				

<sup>5</sup> Archwiliwyd<sup>6</sup> Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn x 20) + (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn)<sup>7</sup> Ailddatganwyd o ffigurau 2014-2015 yn sgil diweddariad ôl-weithredol i ddata cyflogau.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; taliadau am berfformiad neu daliadau bonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan Estyn ac sydd felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

## Buddion pensiwn<sup>8</sup>

Buddion pensiwn ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y cynllun pensiwn.

Swyddogion	Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/16 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000oedd	Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn £000oedd	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/16 £000oedd	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/15 £000oedd	Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000oedd	Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth £100 agosaf
Meilyr Rowlands <sup>9</sup> Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (1 Mehefin 2015 ymlaen)	45-50 a chyfandaliad o 145-150	12.5-15 a chyfandaliad o 40-42.5	1,074	721 <sup>10</sup>	296	-
Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol	40-45 a chyfandaliad o 70-75	0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5	902	813	32	-
Claire Morgan Cyfarwyddwr Strategol Dros Dro (1 Mehefin 2015 ymlaen)	10-15	0-2.5	193	165	1	-

<sup>8</sup> archwiliwyd

<sup>9</sup> Mae ffigurau pensiwn fesul unigolyn wedi'u datgan ar gyfer yr holl swyddi a ddaliwyd yn y flwyddyn.

<sup>10</sup> ailddatganwyd



## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfu gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfwerth ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, fe wnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rheiny a oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno â chynllun alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn cynnwys pedair rhan: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfu lawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheiny a oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheiny â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau classic (ac aelodau o alpha a oedd yn aelodau o classic yn syth cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Bydd cynnydd i gyfraniadau gweithwyr yn berthnasol o 1 Ebrill 2013. Mae buddion yn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae classic plus yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â classic a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn premium. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn croniedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn adeiladu mewn modd tebyg i nuvos, ac eithrio mai'r

gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o'r cyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddedol yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus yw 60 oed, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a'r oedran uwch sef 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol).

Gellir cael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil ei aelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### **lawndal am golli swydd**

Ni wnaeth unrhyw aelod o staff adael o dan Gynllun Ymadael Gwirfoddol neu o dan delerau Ymddeol yn Gynnar Gorfodol, Hyblyg neu Gymeradwy.

### **Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

7 Gorffennaf 2016

## 2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio

### Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifo a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gyflogau y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

#### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM, a wneir yn ôl y gofynion hynny ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, tystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol.

#### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, p'un a ydynt wedi'u hachosi gan wall neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesu:

- a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol ar gyfer amgylchiadau Estyn ac wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifo sylweddol a wnaed gan Estyn; a'r
- modd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn canfod unrhyw anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn sylweddol anghywir ar sail, neu'n sylweddol anghyson â, y wybodaeth a gesglais wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif ac adroddiad.

## Barn am y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Estyn ar 31 Mawrth 2016 ac o'i ofyniad arian net, alldro net ei adnoddau a chost gweithredu net, am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Barn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn am ystyriaethau eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'i paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r ystyriaethau canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad ag arweiniad Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cyflogau i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
13 Gorffennaf 2016

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
CF11 9LJ

**Adran 3: Datganiadau ariannol****Cyfrifon Blynyddol Estyn 2015-2016  
(Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol – IFRS)****3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016**

	Nodyn	2015-2016			2014-2015
		Cyllideb	Alldro Gwirioneddol	Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu â'r Amcan (arbediad)/dros ben	(Ailddatgan-wyd) Alldro'r Flwyddyn Flaenorol
		£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
<b>Adnoddau:</b>					
Costau staff	3	8,250	7,768	(482)	7,897
Dibrisiant	6 a 7	400	106	(294)	52
Costau eraill	4	3,014	2,801	(213)	2,938
<b>Costau Gweithredu Crynswth</b>		<b>11,664</b>	<b>10,675</b>	<b>(989)</b>	<b>10,887</b>
<b>Incwm gweithredu</b>	5	-	<b>(2)</b>	<b>(2)</b>	<b>(1)</b>
<b>Gwariant Gweithredu Net am y Flwyddyn</b>		<b>11,664</b>	<b>10,673</b>	<b>(991)</b>	<b>10,886</b>

Adroddir y gwariant net fel segment unigol yn unol â Chynllun Blynyddol Estyn 2015-2016 (sydd ar gael yn [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016

	Nodyn	31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2015	
		£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
<b>Asedau nad ydynt yn gyfredol</b>					
Eiddo, cyfarpar ac offer	6	139		46	
Asedau anniriaethol	7	15		-	
<b>Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol</b>			<b>154</b>		<b>46</b>
<b>Asedau cyfredol</b>					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	8	115		154	
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	9	647		694	
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>			<b>762</b>		<b>848</b>
<b>Cyfanswm yr asedau</b>			<b>916</b>		<b>894</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>					
Masnach a symiau taladwy eraill	10	(942)		(1,267)	
Darpariaethau o fewn blwyddyn	11	-		(135)	
<b>Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol</b>			<b>(942)</b>		<b>(1,402)</b>
<b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>			<b>(26)</b>		<b>(508)</b>
<b>Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol</b>					
Darpariaethau:	11			-	
Rhwng dwy a phum mlynedd	11	(155)		-	
<b>Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol</b>			<b>(155)</b>		<b>-</b>
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>			<b>(181)</b>		<b>(508)</b>
<b>Ecwiti Trethdalwyr</b>			<b>(181)</b>		<b>(508)</b>
<b>Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr</b>			<b>(181)</b>		<b>(508)</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu  
7 Gorffennaf 2016

**3.3 Datganiad o lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016**

	Nodyn	2015- 2016 £000oedd	2014- 2015 £000oedd
<b><u>Llif arian o weithgareddau gweithredu</u></b>			
Cost gweithredu net		(10,673)	(10,886)
<b>Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:</b>			
Dibrisiant	6 a 7	106	52
Costau eraill (darpariaeth)	4	20	3
Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n daladwy	10	(325)	84
(Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	8	39	21
<b>Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr</b>			
Credydwyr cyfalaf		-	(12)
Defnydd o ddarpariaethau		-	(6)
<b>All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu</b>		<b>(10,833)</b>	<b>(10,744)</b>
<b><u>Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi</u></b>			
Prynu eiddo, cyfarpar ac offer	6	(192)	(9)
Prynu Asedau Anniriaethol	7	(22)	-
<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b>(214)</b>	<b>(9)</b>
<b><u>Llifoedd arian o weithgareddau ariannu</u></b>			
<b>Ariannu net (gan Lywodraeth Cymru)</b>		<b>11,000</b>	<b>10,500</b>
<b>(Gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod</b>	9	<b>(47)</b>	<b>(253)</b>
<b>Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn</b>	9	<b>694</b>	<b>947</b>
<b>Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn</b>	9	647	694

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



**3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016**

<b>Newidiadau i ecwiti trethdalwyr</b>	<b>2014-2015 £000oedd</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2014</b>	(122)
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(10,854)
Tâl Archwilwyr	<u>(32)</u>
Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2014-2015	<u>(10,886)</u>
	10,500
Cyllid net Llywodraeth Cymru	<u>(386)</u>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2015</b>	<b><u>(508)</u></b>
	<b>2015-2016 £000oedd</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2015</b>	(508)
<b>Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2015-2016</b>	
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(10,643)
Tâl Archwilwyr	<u>(30)</u>
Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2015-2016	<u>(10,673)</u>
	11,000
	<u>327</u>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2016</b>	<b><u>(181)</u></b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

### 3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

#### 1 Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2015-2016 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol, at ddibenion roi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2015-2016 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM a Llywodraeth Cymru, cytunodd Estyn ar gyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig yn 2011-2012, sy'n parhau i gael ei ddefnyddio.

##### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbriso asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg.

##### 1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg.

##### 1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Offer TG 3-5 mlynedd
- Dodrefn a Gosodiadau 5 mlynedd
- Offer Swyddfa 5 mlynedd
- Systemau TG 5 mlynedd
- Asedau Anniriaethol 3 blynedd

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

##### 1.4 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol neu'n sicr o godi ond nad yw'r swm neu'r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff

darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i'r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor ac maent yn destun adolygiad blynyddol.

### **1.5 Incwm gweithredu**

Incwm gweithredu yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwydddeb derbynebaw sy'n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebaw.

### **1.6 Costau staff a chostau eraill**

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill yr aed iddynt wrth ymgymryd â diben Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant Refeniw a chyllideb ar wahân ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â'i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar 'Gostau eraill' yn Nodyn 4 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer gwariant Gweinyddol a gwariant Rhaglenni.

### **1.7 Treth ar Werth**

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu os yw TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### **1.8 Pensiynau**

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 3. Nid yw elfennau buddion diffiniedig cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwylidig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### **1.9 Costau ymadael yn gynnar**

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi. Nid oedd unrhyw ymadawiadau cynnar yn 2015-2016.

### **1.10 Prydlesi gweithredu**

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

### 1.11 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys dim ond y balans a gedwir yng nghyfrifon banc Estyn.

### 1.12 Cysyniad Busnes Gweithredol

Disgwylir i Estyn barhau i fodoli am gryn amser eto a bydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'i rwymedigaethau cyfredol pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2016-2017. Yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## 2 Cysoni alldro adnoddau net yn ôl gofyniad arian parod net yn erbyn cyllid cymeradwy Llywodraeth Cymru

	Nodyn	Cyllideb	Alldro	Alldro o	2014-2015
		2015-2016	2015-2016	gymharu â'r amcan (arbediad) / dros ben	
		£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
<b>Alldro Adnoddau</b>		11,264	10,673	(591)	10,886
<b>Alldro Cyfalaf</b>	6 a 7	281	214	(67)	21
<b>Croniadau i addasiadau arian parod:</b>					
<b>Addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn arian parod:</b>					
Dibrisiant	6 a 7	(400)	(106)	294	(52)
Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol	11	-	(20)	(20)	(3)
<b>Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:</b>					
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau sy'n dderbyniadwy	8	-	(39)	(39)	(21)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau sy'n daladwy	10	-	325	325	(84)
Defnyddio darpariaethau	11	-	-	-	6
<b>Gofyniad arian parod net</b>		<b>11,145</b>	<b>11,047</b>	<b>(98)</b>	<b>10,753</b>

**3 Mae costau staff yn cynnwys:**

	<b>Cyfanswm 2015- 2016 £000<sup>oedd</sup></b>	<b>Staff wedi'u cyflogi'n barhaol £000<sup>oedd</sup></b>	<b>Eraill £000<sup>oedd</sup></b>	<b>2014-2015 (Ailddatganwyd) £000<sup>oedd</sup></b>
Cyflogau	4,901	4,901		4,844
Costau nawdd cymdeithasol	469	469		472
Costau pensiwn eraill	1,069	1,069		1,016
<b>Cyfanswm costau net</b>	<b>6,439</b>	<b>6,439</b>		<b>6,332</b>
Ynghyd â:				
Secondeion i mewn	744	-	744	702
Secondeion allan	- <sup>11</sup>	-	-	(16)
Staff asiantaeth	214	-	214	272
Contract Cyfnod Penodedig	350	-	350	351
Costau cyfarwyddwyr anweithredol*	20	-	20	18 <sup>12</sup>
Costau ymadael yn gynnar – yn y flwyddyn	1	-	1	238
<b>Cyfanswm</b>	<b>7,768</b>	<b>6,439</b>	<b>1,329</b>	<b>7,897</b>

\* Manylion unigolion yn y tabl isod

<b>Taliadau i Gyfarwyddwyr Anweithredol ar gyfer 2014-2015 a 2015-2016</b>		
<b>Enw</b>	<b>2015-2016 Cyfanswm £000<sup>oedd</sup></b>	<b>2014-2015 Cyfanswm £000<sup>oedd</sup></b>
H Edwards	3	9
J Fabian	6	1
A Thomas	5	4
R Tomos	6	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>	<b>18</b>

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "alpha" yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu hariannu ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil [yma](#).

Ar gyfer 2015-2016, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £1.069m yn daladwy i'r PCSPS (2014-2015: £1.016m) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% o dâl pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2015-2016 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

<sup>11</sup> Adfer costau staff wedi'u secondio o Estyn i Lywodraeth Cymru.

<sup>12</sup> Cyfrifon wedi'u hailddatgan i gynnwys costau Cyfarwyddwyr Anweithredol yn Costau staff (Nodyn 3) ac nid costau heb fod yn staff (Nodyn 4) fel yr adroddwyd yn flaenorol ar gyfer 2014-2015.

#### 4 Costau eraill

	2015-2016 £000oedd	2014-2015 (Ailddatganwyd) £000oedd
Rhentu dan brydlesi gweithredu: adeiladau	131	132
Costau adeiladau eraill	250	184
TG a thelathrebu	617	616
Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cymru	13	19
Teithio a chynhaliaeth	587	626
Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon	30	32
Gwariant gweinyddol cyffredinol	253	248 <sup>13</sup>
<b>Eitemau heblaw am arian parod:</b>		
- newid yn y ddarpariaeth ar gyfer adeiladau'n adfeilio	20	3
- dibrisiant asedau diriaethol	99	52
- dibrisiant asedau anniriaethol	7	-
	<b>2,007</b>	<b>1,912</b>
Llai: Incwm gweithredu (Nodyn 5)	(2)	(1)
<b>Isgyfanswm: Costau gweinyddol net</b>	<b>2,005</b>	<b>1,911</b>
Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig	8	21
Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig	672	750
Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu	211	278
Costau'r cylch gwaith	9	29
<b>Isgyfanswm: Costau rhaglenni</b>	<b>900</b>	<b>1,078</b>
<b>Cyfanswm y costau eraill</b>	<b>2,905</b>	<b>2,989</b>
<b>Cyfanswm y Costau eraill heb Incwm a dibrisiant</b>	<b>2,801</b>	<b>2,938</b>

#### 5 Incwm

	2015-2016 £000oedd	2014-2015 £000oedd
<b>Incwm</b>		
- ffioedd cofrestru	(2)	(1)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(2)</b>	<b>(1)</b>

Gan fod swm yr incwm a dderbynnir yn fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

<sup>13</sup> Ffigur wedi'i ailddatgan o hynny a adroddwyd yn wreiddiol yn 2014-2015 i hepgor costau Cyfarwyddwyr Anweithredol sydd bellach yn cael eu dangos ar wahân yn Costau staff yn Nodyn 3.

## 6 Eiddo, cyfarpar ac offer

	<b>Systemau TG</b>	<b>Offer TG</b>	<b>Dodrefn a gosodiadau</b>	<b>Offer swyddfa</b>	<b>Cyfanswm £000 oedd</b>
	<b>£000oedd</b>	<b>£000oedd</b>	<b>£000oedd</b>	<b>£000oedd</b>	
<b>Cost neu brisiant</b>					
Ar 1 Ebrill 2015	196	692	246	90	1,224
Ychwanegiadau	-	192 <sup>14</sup>	-	-	192
Gwarediadau	-	(135)	(3)	(81)	(219)
<b>Ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>196</b>	<b>749</b>	<b>243</b>	<b>9</b>	<b>1,197</b>
<b>Dibrisiant</b>					
Ar 1 Ebrill 2015	196	652	240	90	1,178
Codwyd yn y flwyddyn	-	98	1	-	99
Gwarediadau	-	(135)	(3)	(81)	(219)
<b>Ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>196</b>	<b>615</b>	<b>238</b>	<b>9</b>	<b>1,058</b>
<b>Swm i'w gario Ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>-</b>	<b>134</b>	<b>5</b>	<b>-</b>	<b>139</b>
Ar 1 Ebrill 2015	-	40	6	-	46

<sup>14</sup> Prynu ffonau symudol a gliniaduron

## 7 Asedau anniriaethol

	Meddalwedd	DVD	Cyfanswm
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
<b>Cost</b>			
Ar 1 Ebrill 2015	11	109	120
Ychwanegiadau	-	22 <sup>15</sup>	22
<b>Ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>11</b>	<b>131</b>	<b>142</b>
<b>Dibrisiant</b>			
Ar 1 Ebrill 2015	11	109	120
Codwyd yn y flwyddyn	-	7	7
<b>Ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>11</b>	<b>116</b>	<b>127</b>
<b>Swm i'w gario</b>			
Ar 31 Mawrth 2016	-	15	15
Ar 1 Ebrill 2015	-	-	-

<sup>15</sup> Cynhyrchu DVDau hyfforddiant arolygu



## 8 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwylfedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl sylweddol tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran cyfradd llog neu arian tramor

Er bod y balans banc y mae Estyn yn ei ddal yn berthnasol, bach iawn yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r balans gan y'i cedwir o fewn set cyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Mae'r holl adneuron perthnasol a'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

## 9 Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

### 9a Dadansoddiad yn ôl math

	Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd	Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd
<b>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:</b>		
Symiau derbyniadwy eraill	27	46
Rhagdaliadau ac incwm cronodig	88	108
<b>Cyfanswm</b>	<b>115</b>	<b>154</b>

### 9b Balansau Rhyng-Llywodraeth

	Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd	Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd
<b>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:</b>		
Balansau â chyrrff eraill llywodraeth ganolog	26	46
Balansau â chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	89	108
<b>Cyfanswm</b>	<b>115</b>	<b>154</b>

**10 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**

	2016 £000oedd	2015 £000oedd
Balans	694	947
Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	(47)	(253)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>647</b>	<b>694</b>

Mae Estyn yn defnyddio Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ac yn gweithredu un cyfrif banc. Mae'r cyfrif NatWest yn darparu gwasanaeth talu BACS, casglu incwm BACS a chyfleusterau bancio lleol. Roedd y balansau canlynol ar gael ar 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2016:

	Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd	Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd
Balansau yn Citi Bank	-16	694
Balansau yn NatWest	647	-
	<b>647</b>	<b>694</b>

**11 Masnach a symiau eraill sy'n daladwy****11a Dadansoddiad yn ôl math**

	Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd	Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau taladwy masnach	122	190
Cyllid y gyflogres	229	220
Croniadau ac incwm gohiriedig	591	857
	<b>942</b>	<b>1,267</b>

**11b Balansau Rhyng-Llywodraeth**

	Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd	Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd
Balansau â chyrrff eraill llywodraeth ganolog	39	53
Balansau ag awdurdodau lleol	254	178
Balansau â chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	649	1,036
<b>Cyfanswm</b>	<b>942</b>	<b>1,267</b>

<sup>16</sup> Nid oes cyfrif Citi Bank gan Estyn mwyach yn dilyn ad-drefnu cyfrifon gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn ystod 2015-2016.

## 12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo swyddfa wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles

Darpariaethau	Adnewyddu adeiladau	Cyfanswm
	£000oedd	£000oedd
Balans ar 1 Ebrill 2015		
- O fewn blwyddyn	135	135
- Rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
- Ar ôl pum mlynedd	-	-
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y ddarpariaeth	20 <sup>17</sup>	20
Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	-
Darpariaeth sy'n weddill:	155	155
- O fewn blwyddyn	-	-
- Rhwng dwy a phum mlynedd	155	155
- Ar ôl pum mlynedd	-	-
Cyfanswm y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2016	155	155

## 13 Ymrwymadau cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2016.

## 14 Ymrwymadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredu

	2016 £000oedd Tir ac Adeiladau	2015 £000oedd Tir ac Adeiladau
	Ar 31 Mawrth, roedd Estyn yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol yn ystod blynyddoedd y dyfodol mewn perthynas â phrydlesi gweithredu yn dod i ben:	
- o fewn blwyddyn	96	86
- rhwng dwy a phum mlynedd <sup>18</sup>	532	-
- ar ôl pum mlynedd	-	-
	628	86

<sup>17</sup> Cynnydd mewn darpariaeth yn dilyn dyfynbris wedi'i ddiweddarau gan y Syrfêwr.

<sup>18</sup> Prydles wedi'i hadnewyddu ar gyfer adeiladau swyddfa.

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 ond na fydd yn dod i rym hyd nes 1 Ionawr 2019, yn mynnu bod yr holl brydlesi â chyfnod prydles ddim mwy na 12 mis yn cael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Ni wyddys eto a fydd y safon hon yn cael ei mabwysiadu yn y FreM ond pe bai wedi'i mabwysiadu ar gyfer 2015-16, byddai cynnydd o £627,000 wedi bod mewn asedau a rhwymedigaethau.

## **15 Ymrwymadau eraill**

Nid yw Estyn wedi cytuno ar unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) ar 31 Mawrth 2016 (nid oedd unrhyw gontractau na ellir eu canslo ar 31 Mawrth 2015).

## **16 Rhwymedigaethau amodol**

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar ddiwedd 2015-2016 (nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2015).

## **17 Trafodion â phartïon cysylltiedig**

Bu nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Llywodraeth Cymru a sefydliad canlynol y Llywodraeth yr ystyrir ei fod yn barti cysylltiedig:

- Swyddfa Archwilio Cymru

Nid ymgwymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## **17 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

**Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn**

AARh	Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio
ACALI	Arolygydd cyswllt awdurdod lleol
AdAS	Yr Adran Addysg a Sgiliau
AEM	Arolygydd Ei Mawrhydi
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AY	Arolygydd Ychwanegol
BACS	System Glirio Awtomataidd y Banciau
CCAC	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CCS	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
CETV	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod
CiO	Cymraeg i Oedolion
DDD	Deddf Diogelu Data
DOG	Dysgu Oedolion yn y Gymuned
DP	Dangosydd Perfformiad
DYYG	Dysgu yn y gwaith
ETI	Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (Gogledd Iwerddon)
EWC	Cyngor Lles Addysg
FReM	Llawlyfr Adrodd Ariannol
FfAC	Fframwaith Arolygu Cyffredin
GBS	System Bancio'r Llywodraeth
HAGA	Hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon
IFRS	Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol
NTFW	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg (Lloegr)
PAEM	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
PCSPS	Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
RhG	Rhyddid Gwybodaeth
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SICI	Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau
TAW	Treth ar Werth
TTI	Timau Troseddau Ieuencid
QAA	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion